

Cyflwr Plismona

Yr Aseiad Blynyddol o Blismona yng Nghymru a Lloegr
2013/2014

Prif Arolygydd Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi

Tachwedd 2014

© HMIC 2015

www.justiceinspectors.gov.uk/hmic

ADRODDIAD PRIF AROLYGYDD CWNSTABLIAETH EI MAWRHYDI

I Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref

Mae Adran 54 Deddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn galw arnaf i gyflwyno adroddiad ichi ar gynnal archwiliadau o dan yr adran honno, ac i gynnwys fy asesiad o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd plismona yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn mae'r adroddiad wedi'i baratoi ar ei chyfer.

Rwyf yn amgáu'r adroddiad dan sylw ar gyfer y flwyddyn archwilio 2013-14.

(Wedi'i llofnodi gan) Thomas P Winsor

THOMAS P WINSOR

Prif Arolygydd Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi

27 Tachwedd 2014

Wedi'i gyflwyno i'r Senedd yn unol ag adran 54 Deddf yr Heddlu 1996

Cynnwys

Rhagair	4
Trosolwg HMCIC.....	7
Effeithiolrwydd	27
Effeithiolrwydd	52
Cyfreithlondeb	66

Rhagair

Dyma fy adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 54(4A) Deddf yr Heddlu 1996. Fel mae'r adran honno'n galw amdano, mae'n cynnwys fy asesiad o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd plismona yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn archwilio 2013/14.

Mae'r asesiad blynyddol hwn yn bennaf yn ddibynnol ar gyfuno archwiliadau HMIC yn y flwyddyn. Mae'r archwiliadau hyn wedi bod yn archwiliadau thematig HMIC – i feysydd neilltuol o bryder – ac archwiliadau a gynhelir fel rhan o'n rhaglen archwilio newydd, a elwir PEEL fel ei gilydd: effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu. Mae'r rhaglen PEEL yn newydd, ac mae'n cael ei disgrifio a'i hesbonio'n fanylach nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Gyda'i gilydd mae'r archwiliadau hyn yn darparu gwybodaeth a dadansoddiad a dynnir oddi wrthynt i'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig, yr heddlu ac eraill. Hefyd mae'r asesiad blynyddol hwn yn cynnwys casgliadau ynghylch cyflwr cyffredinol yr heddlu a pha mor dda mae heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn perfformio.

O dan fodel atebolrwydd cyhoeddus a democrataidd yr heddlu, a sefydlwyd gan y Senedd, mae'r rhain yn bethau mae'r cyhoedd angen eu cael ac y dylai'r cyhoedd eu cael. Mae plismona'n dod o'r cyhoedd ac mae ar gyfer y cyhoedd. Mae cydsyniad a chymeradwyaeth y cyhoedd o'r heddlu'n hanfodol i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr heddlu. Er mwyn i'r cydsyniad a chymeradwyaeth hynny gael eu rhoi a'u cynnal, mae'r cyhoedd angen gwybodaeth, dadansoddiad a chasgliadau y gallant ymddiried ynddynt, fel y gallant wneud eu dyfarniadau. A gall y cyhoedd benderfynu gweithredu ar y dyfarniadau hynny.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â 2013/14. Yn fwy penodol, mae'n dibynnu ar archwiliadau a gynhaliwyd rhwng Awst 2013 a Hydref 2014.

Mae Rhan 1 o'r adroddiad hwn yn cynnwys trosolwg o blismona yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cyflwyno casgliadau HMIC yn ddyfnach yn y tair pennod ddilynol, yn cwmpasu effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb. Rydym wedi cyflwyno dyfarniadau graddedig ar gyfer pob heddlu wrth asesu effeithlonrwydd ac elfennau o effeithiolrwydd.

Ers Awst 2013, mae HMIC wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau ar ei archwiliadau, gan gynnwys adroddiadau sy'n dod o'n rhaglen ymchwilio ar y cyd gyda'r arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill – Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Mae crynodeb o'r archwiliadau hyn yn Rhan 2.

Mae Rhan 3 o'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r archwiliadau PEEL cyntaf a'r archwiliadau thematig ar gyfer pob heddlu, gyda chrynodeb dwy dudalen llw i lu unigol o asesiad HMIC. Cyhoeddir llawer mwy o wybodaeth ynghylch pob llw ar wefan HMIC, ac rwyf yn annog y cyhoedd ac eraill i ddefnyddio honno er mwyn gweld mewn dyfnder beth rydym wedi'i wneud o berfformiad eu lluoedd yn y flwyddyn archwilio hon.

Wrth gynllunio PEEL 2015, mae fy Nghyd archwilwyr Cwnstablïaeth a fi yn cymryd i ystyriaeth ymatebion rydym wedi'u derbyn i'r ymgynghoriad cyhoeddus a redodd yn ystod yr haf yn 2014, a'r hyn a ddywedwyd wrthym gan lawer o bobl wrth inni wrando arnynt. Mae'r cynllun hwn wedi cynnwys yr ymgynghoriad ehangaf gyda'r cyhoedd, yr heddlu ac eraill mae HMIC erioed wedi'i gynnal mewn cysylltiad â'i waith. Yn hyn o beth, rydym yn ddiolchgar iawn am yr ymgysylltiad adeiladol rydym wedi'i gael gan Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd, heddluoedd, y Coleg Plismona, y Swyddfa Gartref ac eraill. Yn gynnar yn 2015, byddwn yn ymateb i ymatebion i'r ymgynghoriad a chyflwyno ein cynllun ar gyfer 2015/16.

Yma, rwyf yn dymuno cofnodi fy ngwerthfawrogiad mawr iawn i holl staff HMIC am eu teyrngarwch, ymrwymiad a gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cynnal y rhaglen o archwiliadau thematig a chyd archwiliadau ehangaf erioed gan HMIC, yn ogystal â chynllunio, darparu adnoddau a gweithredu'r rhaglen PEEL gyntaf o archwiliadau i bob llw o fewn blwyddyn sengl, wedi bod yn fenter anferth. Mae'r bobl sy'n gweithio yn ac ar ran HMIC wedi perfformio'n arbennig o dda, ac mae hanes yr Arolygiaeth yn un mae fy Nghyd archwilwyr a fi'n falch o'i amddiffyn, hyrwyddo a datgan ei fod yn eiddo i bawb yn HMIC.

Hefyd hoffwn gymryd y cyfle hwn i dalu teyrnged i waith a chyflawniadau nodedig Roger Baker, a gwblhaodd ei dymor o bum mlynedd fel Arolygydd Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi ym mis Medi 2014. Yn ystod ei amser yn y swydd, cyfunodd HMI Baker gyfrifoldeb am heddluoedd yn y rhanbarth gogleddol gydag arwain rhai rhaglenni ymchwilio arwyddocaol ac uchel eu dylanwad. Mae'r gwasanaeth heddlu, y cyhoedd, HMIC a finnau'n bersonol i gyd wedi elwa'n fawr o brofiad, arbenigedd, ffraethineb a doethineb Roger. Rwyf yn dymuno ailadrodd fy niolchiadau mawr iawn am bopeth mae ef wedi'i gyflawni yn ystod ei amser gydag HMIC.

Hefyd hoffwn groesawu Michael Cunningham yn ffurfiol i HMIC, a gafodd ei benodi fel Arolygydd Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi ym mis Medi 2014, yn dilyn gyrfa nodedig iawn ym maes plismona, yn ddiweddar fel prif gwnstabl Swydd Stafford. Bydd gan HMI Cunningham gyfrifoldeb arbennig am y lluoedd yn rhanbarth gogleddol awdurdodaeth HMIC, ac am yr archwiliad i Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.

Hefyd mae'n bleser gennyf gofnodi yma y cafodd HMIs Drusilla Sharpling a Zoe Billingham eu hailbenodi ym mis Medi 2014 ar gyfer tymhorau pum mlynedd newydd.

O ganlyniad, mae cryfder sylweddol yr Arolygiaeth wedi'i gynnal a'i wella, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda fy holl gydweithwyr yn ystod y flwyddyn o'n blaen.

Thomas P Winsor

Prif Arolygydd Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi

Trosolwg HMCIC

Crynodeb

Er bod trosedd mesuredig wedi lleihau mewn ffordd ddramatig yn ystod blynyddoedd diweddar, ni all lluoedd fforddio bod yn hunanfodlon. Bydd bygythiad troseddu'n dal i esblygu a datblygu, ac mae angen i luoedd cadw i fyny ag ef o leiaf, drwy adnewyddu a gwella eu galluoedd yn gyson. Mewn llawer o bethau, maent yn methu â gwneud hyn. Nid yw seiberdroseddu a throseddau wedi eu galluogi gan dechnoleg seiber yn fygythiad datblygol; realiti trosedd nawr ydyw, ac mae angen i luoedd addasu'n gyflym er mwyn cwrdd â'r bygythiad hwnnw. Nid yw camfanteisio ar blant yn newydd o bell ffordd, ond dim ond nawr mae ei gyffredinrwydd yn ein cymdeithas a'r ffyrdd mae'n cael ei wneud ac y gellir cael ei wneud gan ddefnyddio technoleg gyfoes yn cael eu darganfod. Hyd yn oed pryd hynny, mae'n bell o fod yn glir bod gan yr heddlu ac asiantaethau eraill ddealltwriaeth gadarn o faint neu gapasiti'r naill neu'r llall.

Bydd anghenion dioddefwyr yn ganolog i blismona a chyfiawnder ar bob adeg. Er bod cyfraddau boddhad dioddefwyr yn uchel ar draws yr holl heddluoedd, mewn llawer o bethau nid yw dioddefwyr yn ganolog i feddwl a gwasanaethau'r heddlu. Er bod gwelliannau wedi digwydd, mae angen i gysylltiadau a chymorth dioddefwyr wella. Mae'r heddlu'n canolbwyntio'n ormodol ar ddelio â throseddau maent yn gyfarwydd â nhw, yn hytrach na throseddau mae dioddefwyr heddiw yn eu profi neu adrodd. Ni fydd yr ymateb i droseddau newydd a datblygol yn gwella'n ddigonol oni bai fod yr heddlu'n gosod profiad y dioddefwyr arth ganol eu gwasanaeth.

Ymddengys y bydd cyni'n parhau. Mae angen i luoedd symud ymlaen o oroesi cyfyngiadau cyllidebol i ffynnu mewn byd lle mae costau'n lleihau'n barhaol. Nid yw effeithlonrwydd yn rhywbeth y dylai lluoedd deimlo ei fod yn cael ei orfodi arnynt fel ychwanegiad digroeso i blismona. Dylai redeg drwy'r holl blismona; mae hynny wedi bod yn wir erioed. Ond nid oedd erioed mor bwysig ag ydyw heddiw.

Atebolrwydd cyhoeddus trwy gomisiynwyr heddlu a throseddu a'r cyfryngau yw pris cywir y pwerau a'r cyllid mae'r heddlu'n eu derbyn er mwyn cynnal eu dyletswyddau. Ni ddylai unrhyw swyddog neu lu sy'n gweithredu â chyfreithlondeb ac sy'n defnyddio arian y cyhoedd yn ddoeth ofni atebolrwydd dyledus. Dylai'r heddlu fod yn ddi-fai; nid yw hynny'n ddyhead, mae'n gasgliad rhesymegol i'r rôl y gofynnir i'r heddlu ei chynnal a'r sefyllfa arbennig maent yn ei dal fel gwarchodwyr ac ymddiriedolwyr diogelwch cyhoeddus.

Hyd yn hyn mae'r heddlu wedi codi'n sylweddol i her tirlun sy'n newid a diwygio tra'n dal i ddangos eu hymrwymiad i'r cyhoedd drwy eu hymroddiad a dewrder. Bydd angen i arweinwyr yr heddlu ar bob lefel ddal i ymgorffori a chwmpasu newid

radicalaidd pellach. Mae'n debygol y bydd y gwasanaeth heddlu'n llai yn y dyfodol; er mwyn bod yn llai ac yn well, bydd hynny'n galw am ymdrech ac ymrwymiad parhaol gan arweinyddiaeth yr heddlu. Bydd angen i safon yr arweinyddiaeth honno, ar bob lefel, wella'n sylweddol os yw'r heddlu'n mynd i gwrdd â'r heriau maent yn eu hwynebu o ran gwella galluoedd, cwrdd ag anghenion dioddefwyr a dod hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Cyflwyniad – rôl yr heddlu a rôl HMIC

- 1.1. Dyletswydd gyntaf y wladwriaeth yw gwarchod ei phobl. Mewn cymdeithas sifil, yr heddlu'n bennaf sy'n cymryd y ddyletswydd honno. Gan fod y gymuned yn rhoi pwerau cymhellol ac ymwithiol iddynt, mae'r heddlu'n dal nid yn unig safle o bŵer mewn cymdeithas, ond hefyd un o ymddiriedaeth. Gyda'r safleoedd hyn mae disgwyliadau uchel yn dod; mae'r rhain yn ddisgwyliadau nid yn unig o uniondeb ac anrhydedd. ond o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddelio ag achosion a chanlyniadau trosedd. Mae angen i bobl fod yn ddiogel, a gwybod a theimlo eu bod yn ddiogel. Os ydynt yn dod yn ddioddefwyr trosedd, mae angen iddynt wybod y byddant yn cael eu credu, ac y byddant yn cael eu trin yn iawn, a lle bynnag mae'n ymarferol bydd y rhai hynny sydd wedi'u niweidio'n cael eu hymlid a'u dwyn i gyfiawnder. Mae disgwyliadau'r cyhoedd yn dibynnu ar fod gan yr heddlu'r galluoedd i ddelio â throsedd yn effeithlon ac effeithiol, a chael arweinyddiaeth gref i blismona ag uniondeb ac anrhydedd. Mae galluoedd ac arweinyddiaeth yn themâu sy'n rhedeg trwy'r asesiad blynyddol eleni.
- 1.2. Sefydlwyd y gwasanaeth heddlu modern yn 1829 gan yr unigolyn a oedd yn Ysgrifennydd Cartref ar y pryd, Syr Robert Peel. Yn yr egwyddorion plismona sy'n dwyn ei enw, y genhadaeth sylfaenol mae'r heddlu'n bodoli o'u herwydd yw atal trosedd ac anhrefn, a'r prawf ar gyfer effeithlonrwydd yr heddlu yw'r absenoldeb o drosedd ac anhrefn, nid y dystiolaeth weladwy o gamau gan yr heddlu i ddelio ag ef. Mae'r egwyddorion hyn yn dal yn ddilys heddiw. Hefyd mae'n wir ei fod yn debygol bod disgwyliadau cyhoeddus o'r heddlu'n uwch nag y maent wedi bod erioed.
- 1.3. Wedi'i sefydlu gan y Senedd yn 1856, mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi'n bodoli'n bennaf i archwilio ac adrodd wrth y cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig ynghylch pa mor dda mae'r heddlu'n gwneud eu gwaith. Nid yw HMIC yn delio â chwynion yn erbyn swyddogion unigol o'r heddlu; mae'n ymwneud yn bennaf â materion systematig ynghylch effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr heddlu. Hefyd mae'n rhaid cofio bod HMIC yn arolygiaeth, nid yn rheoleiddiwr. Mae gan reoleiddiwr bwerau ymyrryd, cyfarwyddo a gorfodi; nid oes gan arolygiaeth unrhyw bwerau o'r fath. Mae ei hawdurdod – ei chaptasiti i fod yn gatalydd ar gyfer gwella – yn

dod o ansawdd ei gwaith a'i llais. Mae HMIC yn siarad yn uniongyrchol ac yn bennaf â'r cyhoedd, mewn termau y gall pobl gyffredin eu deall.

- 1.4. Cyfrifoldeb pobl eraill – yn bennaf prif gwnstabiliaid – yw gweithredu ar adroddiadau HMIC. Hefyd mae'r adroddiadau hynny'n darparu tystiolaeth, dadansoddiad, dyfarniadau ac argymhellion i gynrychiolwyr etholedig – yn bennaf comisiynwyr heddlu a throseddu a'r rhai sy'n cyfateb iddynt yn Llundain - mewn cysylltiad ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr heddlu. Mae hyn yn bwysig, oherwydd bod gan bob comisiynydd heddlu a throseddu rwymedigaeth statudol i sicrhau bod ei heddlu'n effeithlon ac effeithiol, gan ddefnyddio'r pwerau a roddir gan y Senedd. Mae hwnnw'n gyfrifoldeb beichus. Byddaf yn dychwelyd i'r mater hwn nes ymlaen yn y bennod hon.
- 1.5. Mae HMIC yn gweithredu'n annibynnol ar yr heddlu, comisiynwyr heddlu a throseddu, chwaraewyr eraill yn y system gyfiawnder troseddol a phob parti allanol arall. Mae'r annibyniaeth honno – a roddir gan y Senedd – yn werthfawr a hanfodol ill dau, ac ni chaiff ei pheryglu byth. Mae'n caniatáu i'r cyhoedd wybod, ac ymddiried. Nid yw cylch gwaith statudol HMIC yn cynnwys unrhyw feini prawf gwleidyddol; mae ei gwrthrychedd yn galw am ddim llai. Bydd HMIC yn parhau i gyflawni'r rhwymedigaethau statudol hynny heb naill ai gorymestyn ei hawdurdodaeth na chaniatáu ystyriaethau amherthnasol, gwleidyddol neu fel arall, ymyrryd. Mae teyrngarwch HMIC yn perthyn i'r gyfraith ac i les y cyhoedd; nid oes ganddi unrhyw deyrngarwch arall.
- 1.6. Wrth gyflawni ei gylch gwaith statudol, mae HMIC yn gweithio'n agos gyda chyrff eraill yn y system gyfiawnder troseddol. Mae Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu'n goruchwyllo system gwynion yr heddlu, yn gosod y safonau y dylai'r heddlu ymchwilio i gwynion yn eu hôl, ac yn cynnal neu'n goruchwyllo ymchwiliadau o dan amgylchiadau arbennig. Mae gan HMIC goncordat gyda'r IPCC a'r Coleg Plismona lle mae'r tri sefydliad wedi ymrwmo i gydweithio drwy, ymhlith pethau eraill, ymgynghori'n rheolaidd gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth a dadansoddiad fel sy'n briodol er mwyn hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau bod casglu data ac archwilio'n lleihau'r gwaith mae'n rhaid i luoedd ei wneud o ganlyniad.
- 1.7. Mae Asesiad Blynyddol Plismona yng Nghymru a Lloegr eleni ar gyfer 2013/14 yn nodi dechrau rhaglen archwilio flynyddol newydd HMIC ar gyfer pob llu. Ei deitl anffurfiol yw PEEL, sy'n golygu effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwiliadau ac adroddiadau i'r cyhoedd ar yr agweddau hyn ar blismona ymhob heddlu a ariennir gan Y Swyddfa Gartref yng Nghymru a Lloegr. Bydd archwiliadau thematig – archwiliadau i agweddau arbennig ar berfformiad yr heddlu, fel arfer wedi'u hysgogi gan bryder a godir gan amgylchiadau neu gŵyn – yn dal i ychwanegu at yr archwiliadau hynny, ond yn gynyddol bydd ffocws HMIC ar

ddarparu asesiad blynyddol, clir ar gyfer y cyhoedd ynghylch pa mor dda mae eu llw, a phlisma'n gyffredinol, yn perfformio. Hefyd mae HMIC yn ymwneud ag arolygiaethau eraill ym maes cyfiawnder troseddol (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, ac Arolygiaeth Gwasanaeth Erllyn y Goron), Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau a Sgiliau Plant (OFSTED) a'r Comisiwn Ansawdd Gofal er mwyn cynnal cydarchwiliadau sy'n amodol ar gylich cynllunio busnes blynyddol.

- 1.8. Er bod yr asesiad blynyddol hwn yn ymwneud ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei grynsyth, eleni rydym yn darparu dyfarniadau graddedig ar rai, nid yr holl, agweddau ar berfformiad lluoedd, yn amrywio o annigonol i ragorol; flwyddyn nesaf, caiff mwy o agweddau ar berfformiad lluoedd eu graddio fel hyn wrth i HMIC ddatblygu methodoleg PEEL.
- 1.9. Mae plisma'n dal i wynebu her a newid ar raddfa ddigyffelyb. Mae natur trosedd, sy'n newid yn gyflym, yr angen i warchod aelodau cymunedau anodd eu cyrraedd, trefniadau newydd ynghylch atebolrwydd, cyni cyllidol, diwygio strwythurol a'r angen am alluoedd i weithredu ar y blaen i, heb lusgo ar ôl i, fygythiad trosedd, maent i gyd yn cynyddu'r pwysau ar heddluoedd i berfformio hyd at y lefel uchaf. Gall graddfa'r her hon fod yn frawychus, ond nid yw'n unigryw i'r heddlu; mae gweddill y sectorau cyhoeddus a phreifat yn wynebu galwadau llawn mor gryf am newid, gwelliant, atebolrwydd ac arweinyddiaeth well. Ar gyfer yr heddlu, mae'r pwysau hwn i wella'n amlycach oherwydd y pwerau unigryw sydd ganddynt, y gwaith gweladwy ac yn aml beryglus maent yn ei wneud, a'r raddfa uchel o graffu maent yn ei dderbyn gan y cyhoedd a'r cyfryngau.
- 1.10. Felly dylai fod yn ffynhonnell balchder i'r heddlu a'r cyhoedd bod y mwyafrif mawr o swyddogion heddlu'n dal i gyflawni eu dyletswyddau ag ymroddiad, uniondeb, dewrder ac ymrwymiad di-ffael i wasanaeth cyhoeddus. Ar gyfer llawer o swyddogion, mae plisma'n alwedigaeth, lle mae'r daioni y gallant ei wneud yn drech o lawer na'r rhwystredigaethau a'r risgiau maent yn eu hwynebu. Ac ni ddylem anghofio byth bod swyddogion yn marw bob blwyddyn tra'n cynnal eu dyletswydd i warchod y cyhoedd rhag niwed; mae ein dyled iddynt hwy a'u teuluoedd yn un fawr iawn.
- 1.11. Gall fod yn rhwydd anwybyddu cryfderau a rhinweddau sylfaenol sefydliad tra'n ceisio ei wella a dod o hyd i fethiant. Bydd HMIC drwy'r amser yn cydnabod ac amlygu llwyddiannau a gwelliannau mewn plisma, tra'n nodi meysydd ar gyfer gwella. Nid yw archwilio'n fuddiol os yw'n ceisio beirniadu'n unig neu os yw ei gynulleidfa'n anwybyddu ei ganfyddiadau. Mae pwrpas i'n harchwiliadau: gwella plisma er lles y cyhoedd.
- 1.12. Yn y flwyddyn gyntaf hon o'n harchwiliadau PEEL, rydym wedi graddio'r mwyafrif o luoedd fel 'da' o leiaf ar yr ystod o annigonol, angen gwella, da a

rhagorol. Yn y flwyddyn gyntaf hon, rydym wedi asesu lluoedd yn ôl 13 cwestiwn a gymerwyd oddi wrth yr 16 cwestiwn a ddefnyddir yn y fframwaith monitro presennol sydd yn ei le ar gyfer lluoedd. Rydym wedi darparu dyfarniadau graddedig yn ôl chwech o'r 13 cwestiwn asesu. Mae Atodiad F yn cyflwyno'r 13 cwestiwn ac yn manylu ar y chwe chwestiwn sydd â dyfarniad graddedig a'r saith sydd ag asesiad naratif a dynnir oddi wrth archwiliadau perthnasol yn y 12 mis diwethaf. Yn ystod ein harchwiliadau rydym wedi canfod llawer o enghreifftiau o waith da iawn mewn lluoedd ledled y wlad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall pethau fynd o chwith o gofio cymhlethdod plismona. Pan welwn waith da byddwn yn ei gydnabod ond, wrth wneud hynny, nid ydym yn rhoi sicrwydd nad yw'r lluoedd wedi methu mewn unrhyw achos unigol neu fodd arbennig.

- 1.13. Flwyddyn nesaf, gwneir dyfarniadau graddedig mewn cysylltiad â'r holl gwestiynau asesu ac, ym mlynedd y dyfodol, bydd ein methodoleg yn dal i ddatblygu er mwyn ein galluogi i asesu lluoedd yn ehangach. Er bod canlyniadau eleni'n galonogol, mae'n glir bod llawer i'w wneud o hyd cyn y bydd y mwyafrif o lluoedd yn cyrraedd y radd 'ragorol'. Dylai'r holl lluoedd anelu at fod yn rhagorol; bod yn dda yw'r radd leiaf y mae hawl i'r cyhoedd ei disgwyl, a dylai lluoedd geisio gwneud yn well na honno drwy'r amser. Bydd unrhyw asesiad blynyddol yn gweld amrywiadau o ran canlyniadau, ac ni ddylai unrhyw lu ragdybio y bydd ei radd un flwyddyn yr un peth yn y flwyddyn nesaf.

Y galwadau newidiol ar yr heddlu

- 1.14. Yn ôl y canlyniadau blynyddol diweddaraf gan Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, mae troseddu ar ei lefel isaf ers i'r arolwg gychwyn ym 1981; dangosodd y ffigurau blynyddol diweddaraf gan yr arolwg, ar gyfer y 12 mis hyd at Fehefin 2014, ostyngiad o 16 y cant ar arolwg y flwyddyn flaenorol. Dros yr un cyfnod, arhosodd troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu ar lefel debyg i'r flwyddyn flaenorol. Ar ddata troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu, mae'r siawns y byddech yn ddiodefwr trosedd ar ei lefel isaf ers canol y 1990'au. Mae'r heddlu'n haeddu cydnabyddiaeth a chanmoliaeth am yr hyn maent wedi'i wneud yn hyn. Fodd bynnag, mae natur troseddu'n newid yn gyflym, ac mae angen i'r heddlu ddeall y newidiadau hynny ac addasu er mwyn cwrdd â hwy os ydynt yn mynd i ddal i fod yn llwyddiannus. Bydd gwneud hyn yn galw am welliannau o ran galluoedd ac arweinyddiaeth yr heddlu fel ei gilydd. Her arbennig i'r heddlu fydd trafod troseddau ag agwedd dechnolegol neu ble nad yw'r diodefwr ac i ba raddau maent mewn perygl yn gwbl amlwg, os yw hynny ym maes camfanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth neu gam-drin domestig.

- 1.15. Un o'r problemau mwyaf arwyddocaol a wynebir gan gymdeithas – ac felly ei heddlu – yw trosedd nas adroddir. Mae llawer o droseddau'n mynd heb eu hadrodd, ac wrth gwrs mae'n amhosibl mesur maint y broblem yn gywir. Fodd bynnag, dau o'r troseddau pwysicaf yw troseddau yn erbyn pobl fregus, a throseddau a gyflawnir ar-lein ac yn defnyddio technoleg gyfathrebu fodern. Mae un wedi bod yn difa cymdeithas a dinistrio bywydau ers sawl cenhedlaeth, ac mae'r llall yn newydd, yn tyfu ac yn cyflwyno peryglon arwyddocaol iawn o fath arall.
- 1.16. Mae gan gymdeithas sifil yng Nghymru a Lloegr un system o gyfraith droseddol, ac mae gan bawb yr hawl, heb ystyried ei dras/thras neu draddodiadau diwylliannol, i'r gyfraith ei warchod/gwarchod. Yn ei rôl amddiffynnol ac ataliol, cyfrifoldeb yr heddlu yw, nid yn unig adweithio i gwynion ac adroddiadau am drosedd, ond chwilio'n weithredol am drosedd a'r amgylchiadau y gallai troseddau gael eu cyflawni oddi danynt, hyd yn oed ble – yn arbennig ble – gallai dioddefwyr fod yn arbennig o fregus, ofnus neu gael eu hatal yn weithredol rhag chwilio am gymorth. Mae traddodiadau a sensitifrwydd diwylliannol yn haeddu parch a dylent ei dderbyn drwy'r amser. Ond lle maent yn gweithredu i garcharu pobl fregus y tu ôl i rwystrau o ofn a bygythiad neu realiti trais, gan hwyluso neu ddwysáu troseddau a gyflawnir yn erbyn y bobl hynny, mae'n rhaid torri'r fath rwystrau; nid ydynt yn haeddu unrhyw barch o gwbl. Mae'n rhaid i'r heddlu beidio ag anghofio hyn byth. Y tu ôl i'r rhwystrau hyn gellir canfod dioddefwyr cam-drin domestig, caethwasiaeth a llafur a orfodir, masnachu pobl, anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas a orfodir, treisio, camfanteisio'n rhywiol ar blant a thrais arall. Pryd bynnag mae pobl yn dod yn ymwybodol o'r troseddau hyn, mae eu ffeidd-dod a diflastod yn fawr; mae'n rhaid i'r heddlu ac asiantaethau eraill ym maes gorfodi'r gyfraith ddwysáu a pheidio byth ag esgeuluso eu chwiliad am y troseddau ffiiaidd hyn a'u dioddefwyr enbyd.
- 1.17. Nid yw caethwasiaeth yn gydnaws â chymdeithas Prydain, Ym 1772, datganodd yr Arglwydd Brif Ustus Mansfield “the air of England is too pure for any slave to breathe”, ac felly bod presenoldeb caethwas ar bridd Lloegr yn gweithredu i ymddatod ei gadwynau am byth. Dyna oedd y gyfraith pryd hynny, a dyna'r gyfraith heddiw. Ond mae'r gyfraith yn cael ei thorri bob dydd. Hyd yn oed nawr, 242 o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae caethwasiaeth yn parhau yng Nghymru a Lloegr. Wrth gwrs mae'n cael ei chuddio, mae'n cadw ei dimensiwn rhyngwladol ac nid yw'r wladwriaeth yn ei chymeradwyo. Ond mae'n bodoli, mae'n parhau ac mae pobl yn ein gwlad yn dioddef mewn caethiwed yr oedd llawer yn credu ei fod wedi'i ddiddymu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i'r Senedd ddeddfu i wella pwerau'r heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith ynghylch delio â'r hyn sy'n hysbys nawr fel 'caethwasiaeth fodern', ac i gynyddu'r dulliau

gwarchod sydd ar gael i ddiodefwyr; mae'r Bil Caethwasiaeth Fodern yn mynd trwy'r Senedd nawr. Mae hwn yn drosedd difrifol arall y mae angen i'r heddlu ac eraill ei ddeall yn llawn ac yna mynd i'r afael ag ef yn iawn. Ni all ei ddiodefwyr aros am gyfnod hwy.

- 1.18. Mae datguddiadau diweddar ar raddfa camfanteisio'n rhywiol ar blant, os yw ar-lein neu gan unigolion proffil uchel neu mewn sefydliadau neu gymunedau lleol, wedi cyflwyno her gymhleth i'r heddlu. Mae'r hyn a welwyd hyd yn hyn o gamfanteisio'n rhywiol ar blant bron yn sicr yn bigyn (m) rhewfryn yn unig: er enghraifft, amcangyfrifodd y "Threat Assessment of Child Sexual Exploitation and Abuse", a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) ym mis Mehefin 2013, bod oddeutu 50,000 o unigolion yn y DU yn ymwneud â lawrlwytho a dosbarthu delweddau anwedus o blant yn ystod 2012. Hyd yn hyn, yn rhy aml mae triniaeth yr heddlu o'r troseddu canseraidd ac atgas hwn wedi bod yn annigonol iawn, naill ai drwy fethiant i ddeall natur y broblem, anfodlonrwydd i gymryd y cwynion o ddifri, neu ofn delio â'r broblem sydd mewn rhai – ond nid yr holl – achosion yn cynnwys cyflawnwyr o gymunedau neilltuol.
- 1.19. Mae angen i'r heddlu ddysgu gwersi o'r gorffennol a gwella'r broses o atal a chanfod y fath droseddau. Mae angen i luoedd gydnabod a gwarchod plant sydd mewn perygl a thrin achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant fel dangosydd cryf o broblem sy'n eithafol o ddifrifol a chyffredin, yn hytrach na digwyddiadau ynysig i'w hymchwilio a'u dwyn i gyfiawnder. Nid ydym yn ein twyllo ein hunain ynghylch yr anawsterau gweithredol sydd ynghlwm wrth ymchwilio i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ond o'r holl achosion sy'n cynnwys dioddefwyr bregus mae'r rhai hynny sy'n cynnwys plant yn haeddu'r sylw mwyaf dyfal a thaer. Bydd ymateb yr heddlu i gamfanteisio'n rhywiol ar blant angen arweinyddiaeth gref er mwyn gorchfygu'r rhwystrau diwylliannol a sefydliadol sydd wedi rhwystro'r ymateb hyd yn hyn.
- 1.20. Yn dilyn ein hadroddiad ar sut y gwnaeth yr heddlu drafod honiadau o gam-drin plant yn rhywiol yn erbyn Jimmy Savile ("Mistakes Were Made", a gyhoeddwyd ar 12 Mawrth 2013), rydym yn cynnal rhaglen o waith i archwilio ymateb yr heddlu i gam-drin plant ac amddiffyn plant. Mae hwn yn cwmpasu meysydd fel camfanteisio'n rhywiol ar blant cysylltiedig â'r rhynggrwyd, amddiffyn plant a chyfweld dioddefwyr cam-drin neu gamfanteisio rhywiol. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd HMIC yn asesu pa mor effeithiol mae pob heddlu'n amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl, gwneud argymhellion ar gyfer gwella arfer amddiffyn plant, amlygu arfer effeithiol mewn gwaith amddiffyn plant a hyrwyddo gwelliannau mewn arfer. Dim ond ychydig, os unrhyw, luoedd sydd wedi datblygu dealltwriaeth wedi'i datblygu'n ddigonol o fygythiad a graddau cam-drin plant yn rhywiol.
- 1.21. Yn ein hadroddiad "Everyone's Business: Improving the Response to Domestic Abuse", a gyhoeddwyd ar 27 Mawrth 2014, fe wnaethom adrodd ar y ffordd anfodddhaol roedd yr heddlu'n trafod achosion o gam-drin domestig. Canfuom, er gwaethaf gwelliannau sylweddol dros y degawd diwethaf, ac ymrwymiad ac ymroddiad personol llawer o swyddogion heddlu a staff, mewn

gormod o luoedd mae gwendidau'n aros yn y gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu i ddiodefwyr cam-drin domestig. Roedd rhai o'r gwendidau hyn yn ddifrifol ac yn rhoi diodefwyr mewn perygl diangen. Canfuom bod cam-drin domestig yn flaenoriaeth ar bapur ond, mewn llawer o luoedd, nid mewn ymarfer. Canfuom gymysgedd o arweinyddiaeth wael, gwendidau difrifol o ran sgiliau ymchwiliadol sylfaenol, a swyddogion heb y sgiliau i ymgysylltu'n hyderus a chymwys â diodefwyr. Cyflwynom argymhellion manwl ar gyfer newid brys. Erbyn hyn mae lluoedd yn gweithio ar welliannau, ac mewn rhai rydym wedi canfod cyflymder ac ymrwymiad canmoladwy i wneud gwahaniaeth. Byddwn yn archwilio cynnydd lluoedd ynghylch eu gweithredu yn ein harchwiliadau PEEL i effeithiolrwydd lluoedd.

- 1.22. Mae newid technolegol wedi achosi symudiad sylfaenol yn y ffordd mae rhai troseddau'n cael eu cyflawni. Erbyn hyn, gall troseddau mae'r heddlu wedi delio â hwy ers llawer o flynyddoedd, fel twyll, gael eu cyflawni ar raddfa ddiwydiannol, â chyflymder a gan droseddau nad ydynt yn adnabyddus i'r diodefwr ac sydd o fewn awdurdodaethau tramor. Mae'r technegau ymchwiliadol a galluoedd fforensig sydd eu hangen i ymchwilio i'r fath droseddau'n gwbl wahanol, fel mae anghenion y diodefwyr. Mae'r raddfa dan-adrodd y fath droseddau'n sylweddol: datganodd adroddiad ymchwil y Swyddfa Gartref: "Cyber Crime: A Review of the Evidence", a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013, fod busnesau'n adrodd llai na dau y cant o ddigwyddiadau ar-lein wrth yr heddlu, ac fe wnaeth ychydig o dan un y cant o ddefnyddwyr y rhyngwryd sy'n oedolion a brofodd fynediad heb awdurdod i'w data adrodd hynny wrth yr heddlu. Mae'n debygol mai rhan o'r rheswm am y fath lefelau isel o adrodd yw bod diodefwyr yn credu mai ond ychydig y gallai neu y byddai'r heddlu yn ei wneud.
- 1.23. Mae technoleg hefyd wedi caniatáu i droseddau newydd ddatblygu, megis hacio i mewn i systemau cyfrifiadur er mwyn dwyn data. Mae wedi caniatáu i hen droseddau symud ar-lein lle mae gweledd a chyrhaeddiad y rhyngwryd yn chwyddo'r effaith ar y diodefwr. Mae technoleg fodern yma i aros. Eisoes mae wedi'i gwau i mewn i'n bywydau, ac eisoes mae wedi'i gwau i mewn i drosedd. Nid yw seiberdroseddau'n fygythiad datblygol; mae yma nawr, ac eisoes mae'n broblem fawr a chynyddol. Fe wnaeth y "National Strategic Assessment of Serious and Organised Crime 2014" a gyhoeddwyd ar 1 Mai 2014 sylwi "based on the limited research evidence at present, the costs of cyber crime could reasonably be assessed to be several billion pounds per year."
- 1.24. Ni ddylai'r galluoedd i fynd i'r afael â seiberdroseddau fod yn nwylo swyddog arbenigol yn unig; mae pob swyddog heddlu angen dealltwriaeth ohono a'r galluoedd i ddelio â'r seiberdroseddau y byddant yn dod ar ei draws. Erbyn hyn mae agwedd dechnolegol i bron bob trosedd, os yw hynny o ran y modd

mae'r trosedd yn cael ei gyflawni, ffynhonnell o dystiolaeth werthfawr i olrhain y troseddwr, neu ffynhonnell o gudd-wybodaeth i ddeall y bygythiad yn well. Wrth i bobl symud eu cyfathrebiadau a siopa ar-lein, maent wedi gwneud yr un peth gyda'u sarhadau, bygythion ac enllib, yn aml yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae angen i swyddogion heddlu gael eu hyfforddi i ddeall y dulliau hyn ac i wahaniaethu rhwng achosion sydd angen sylw'r heddlu a'r rhai hynny nad ydynt.

- 1.25. Ocsigen plismona effeithiol yw gwybodaeth, ond mae'n ddiwerth os na ellir dod o hyd iddi a'i defnyddio ar y pryd ac o dan yr amgylchiadau mae ei hangen oddi danynt. Ac ym maes plismona, os nad yw'n hygyrch i'r rhai hynny sydd ei hangen, gall niwed mawr ddigwydd a allai ac a ddylai wedi'i atal. Nid yw heddluoedd yn cystadlu â'i gilydd. Nid yw gwybodaeth ynghylch unigolyn, cerbyd, arf neu gyfeiriad yn eiddo i unrhyw un llu. Mae'n hanfodol bod y systemau mae heddluoedd yn eu defnyddio ar gyfer cofnodi a lledaenu gwybodaeth mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Ac mae hynny'n golygu bod angen i'r wybodaeth fod lle mae ei hangen, pryd mae ei hangen.
- 1.26. Mae dal yn fater o bryder difrifol iawn bod cynnydd i sicrhau'r gallu i ryngweithredu systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r heddlu wedi bod mor araf, cul ac ynysol ag y mae wedi bod. Tan fod gan yr heddlu system ryngweithredol cwbl weithrediadol o rwydweithiau – a ddisgrifiwyd yn fanylach yn fy araith ar 29 Ebrill 2013¹ – mae diogelwch y cyhoedd mewn perygl, ac mae bywydau mewn perygl hefyd.
- 1.27. Hefyd mae'n fater o bryder perthnasol i'r cyhoedd bod technoleg waelach ar gael i lawer o swyddogion heddlu wrth ymgymryd â'u dyletswyddau na sydd ganddynt yn eu bywydau preifat. Nid yw hwn yn fethiant cyffredinol; mae lluoedd megis Swydd Gaergrawnt, De Cymru, a'r Metropolitanaid wedi gwneud cynnydd arwyddocaol a chanmoladwy mewn gwella'r galluoedd hyn. Ond megis gyda'r gallu i ryngweithredu, mae'n rhaid i'r seilwaith sydd ar gael i, ac sy'n cefnogi, swyddogion heddlu a staff heddlu yn eu gwaith, gan gynnwys y dechnoleg, gael ei godi o leiaf i'r safonau a ddefnyddir gan droseddwr. Yn ddiweddar mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi pwysleisio nad yw trawsffurfio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r heddlu'n opsiwn, mae'n rheidrwydd.² Mae gan yr heddlu'r modd a'r ysgogiad ill dau i wneud hyn; mae'n rhaid i gynnydd gyflymu'n drawiadol.

¹ Darlith gan y Prif Arolygydd Cwnstabiliaeth yn y Royal United Services Institute, Llundain, 29 Ebrill 2013.

² Anerchiad gan yr Ysgrifennydd Cartref wrth yr Uwchgyhadledd Cyflenwyr TG i'r Heddlu, Llundain, 20 Hydref 2014.

- 1.28. Mae'r un peth yn wir am allu rhyngweithredu'r systemau a ddefnyddir gan asiantaethau eraill yn y system gyfiawnder troseddol, ac mewn gwasanaethau cyhoeddus megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae technoleg wedi'i wneud yn haws nag erioed i wybodaeth symud a bod yn hygyrch ble a phryd mae ei hangen. Ni ddylid dwysáu neu gynyddu lefel perygl plentyn neu ddioddefwr posibl arall o drosedd gan fethiannau'r sector cyhoeddus i wneud defnydd o'r hyn sydd i raddau helaeth yn dechnoleg seml.
- 1.29. Mae ymateb yr heddlu i ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gwella'n sylweddol mewn blynyddoedd diweddar o ganlyniad i arweinyddiaeth ymrwymedig gan yr heddlu. Rydym wedi'n calonogi gan y newidiadau rydym wedi'u gweld yn ein harchwiliadau. Bellach nid yw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn berthynas dlawd ym myd plismona; erbyn hyn mae'r heddlu'n llawer gwell o ran asesu perygl a nodi dioddefwyr ailadrodd yn hyn o beth. Hefyd mae lluoedd wedi bod yn gwneud defnydd gwell o bartneriaethau gydag asiantaethau eraill er mwyn helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy rannu systemau, cyd-ddadansoddi problemau a pherygl, a'r defnydd creadigol o'u pwerau ei gilydd er mwyn cyrraedd troseddwr ac amddiffyn dioddefwyr. Ers gormod o amser ni chymerwyd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ddigon difrifol gan yr heddlu, asiantaethau eraill a'r cyhoedd. Ymddengys fod hyn yn newid ac, er bod gwelliannau i'w gwneud o hyd o ran ymateb yr heddlu ac asiantaethau eraill, mae'r darlun yn galonogol.
- 1.30. Yn fwy cyffredinol, mae'r profiad mae dioddefwyr wedi'i gael o'r heddlu'n gymysg; mae boddhad â'r heddlu'n dal yn uchel, fel mae hyder y cyhoedd yn yr heddlu. Fodd bynnag, yn ein harchwiliadau canfuom nad yw cydymffurfiaid lluoedd â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau yn gyson naill ai o fewn neu rhwng lluoedd. Cyhoeddwyd y Cod, sy'n cyflwyno'r safonau gwasanaeth mae hawl gan ddioddefwyr eu cael, yn gyntaf yn 2005 o dan Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004; cafodd ei adolygu ym mis Hydref 2013. Mae'n god ymarfer statudol sy'n cyflwyno'n glir yr hyn mae'n rhaid i heddluoedd ei ddarparu. Nid yw'n ddewisol. Ni all lluoedd ddewis a dethol oddi wrtho neu israddio ei gynnwys i'r categori "hyfryd i'w gael". Dylai lluoedd symud yn gyflym i'w weithredu'n llawn mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar anghenion dioddefwyr yn hytrach nag ond yn cydymffurfio â geiriad y Cod.
- 1.31. Mae rhan o'r gwaith mwyaf pwysig ac anodd mae'r heddlu'n ei wneud yn anweladwy i'r cyhoedd, yn arbennig ar droseddau difrifol a threfnedig, ac ar wrthderfysgaeth. Amcangyfrifir mai cost troseddau difrifol a threfnedig i economi'r DU yw o leiaf £24 biliwn y flwyddyn, yn ôl "Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig" y Llywodraeth a gyhoeddwyd ar 7 Hydref 2013. Mae hwn yn ffigur hynod, yn arbennig o'i gymharu â'r gyllideb lawn flynyddol o £13 biliwn ar gyfer plismona yng Nghymru a Lloegr. Drwy'r amser bydd risg y

gwelir troseddau difrifol a threfnedig fel maes arbenigol neu unig gyfrifoldeb cyrff cenedlaethol, megis yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Yn ein hadroddiad “The Strategic Policing Requirement”, a gyhoeddwyd ar 10 Ebrill 2014, canfuom, er bod y mwyafrif o luoedd wedi ystyried troseddau trefnedig yn eu hasesiadau bygythiad a risg strategol, neu mewn rhyw fath arall o asesiad, roedd nifer o luoedd heb wneud hynny. O'r rhai hynny a oedd wedi'i ystyried, nid oedd yr asesiadau o safon ddigonol i'w defnyddio i wneud penderfyniadau ar yr adnoddau roedd eu hangen i gwrdd â'r bygythion. Gwnaed y broblem yn waeth gan y ffaith bod gormod o luoedd yn gwneud dyfarniadau yn seiliedig ar brofiad personol carfan fach o swyddogion yn hytrach nag ar asesiad gwrthrychol o fygythiad, risg, niwed a galw.

- 1.32. Bydd y cyhoedd yn dal i alw am lefelau uchel o gyfreithlondeb ac uniondeb gan yr heddlu, gan gynnwys y defnydd priodol a chymesur o'u pwerau. Yn ein hadroddiad “Stop and search powers: Are the police using them effectively and fairly?”, a gyhoeddwyd ar 9 Gorffennaf 2013, canfuom na allai ond ychydig o luoedd arddangos bod eu defnydd o bwerau stopio a chwilio yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio i leihau troseddu, a go brin ei fod wedi'i dargedu ar droseddau blaenoriaethol yn eu hardaloedd. Nid oedd bron i draean o'r cofnodion stopio a chwilio inni eu harchwilio'n cynnwys digon o seiliau i gyfiawnhau'r defnydd cyfreithlon o'r pŵer. Roedd llai na hanner o luoedd yn cydymffurfio â'r gofynion yn y cod ymarfer ar gyfer gweithgarwch stopio a chwilio. Ni all yr heddlu ddisgwyl cynnal eu cyfreithlondeb a chefnogaeth y cyhoedd os ydynt yn camddefnyddio eu pwerau fel hyn. Yn ddiweddar mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi mesurau gwirfoddol i sicrhau bod y defnydd o bwerau stopio a chwilio'n fwy cymesur. Yn ein harchwiliadau PEEL, byddwn yn asesu sut mae lluoedd wedi gwella eu defnydd o bwerau stopio a chwilio. Bydd yn galw am arweinyddiaeth barhaol o fewn heddluoedd i gyflawni'r newid sydd ei angen yn y defnydd o'r pwerau pwysig ac ymwthiol hyn.

Y tirlun mae heddluoedd yn gweithredu ynddo

- 1.33. Y tu hwnt i'r bygythiad troseddu datblygol, mae'r tirlun mae heddluoedd yn gweithredu ynddo wedi newid y tu hwnt i gydnabyddiaeth yn ystod blynyddoedd diweddar, ac nid oes llawer o arwydd y bydd cyflymder a dyfnder newid yn lleihau.
- 1.34. Mae heddluoedd wedi gorfod chwarae eu rhannau yng ngostyngiad diffyg y Llywodraeth, gan gynllunio i leihau eu cyllidebau o £2.53 biliwn (neu ychydig o dan 20 y cant) dros gyfnod yr arolwg ar wariant. Rydym yn egluro'n fanwl yn y bennod ar effeithlonrwydd ba mor dda mae lluoedd wedi gwneud hyn. Yn ein harchwiliadau dyfarnom bod 35 o luoedd yn dda o ran effeithlonrwydd, roedd

pump yn rhagorol ac roedd tri llu angen gwella. Mae'r heddlu wedi dangos arweinyddiaeth gref wrth gwrdd â'r heriau digyffelyb hyn mewn gwariant tra'n ceisio cadw safon eu gwasanaeth. Ar y cyfan, mae lluoedd wedi gwneud yr arbedion y gofynnwyd iddynt eu gwneud, ond mae'r anawsterau mae lluoedd wedi'u hwynebu wedi amrywio'n eang, gan ddibynnu ar gadernid ariannol sylfaenol y llu a'i ddealltwriaeth o'i sylfaen gost. Nid oes unrhyw arwydd y bydd y blynyddoedd i ddod yn haws o gwbl o safbwynt ariannol, a byddai'n ddoeth i heddluoedd ragdybio y bydd angen arbedion cost yn y dyfodol ar yr un raddfa â'r rhai hynny a welwyd eisoes. Er bod lluoedd wedi diogelu rheng flaen plismona, mae arwyddion y gallai hynny wedi bod ar draul plismona yn y gymdogaeth, a allai effeithio'n niweidiol ar allu lluoedd i atal troseddu a chynnal hyder y cyhoedd yn y dyfodol.

- 1.35. Er mwyn cwrdd â chyni parhaol, bydd angen i'r holl luoedd symud o sefyllfa lle maent yn goroesi'n unig gyda llai, i weithredu gydag effeithlonrwydd parhaol, o gwtogi ar gostau i ostyngiad parhaol mewn cost fel busnes arferol. Bydd yr her arweinyddiaeth ar gyfer yr heddlu'n sylweddol os yw'r raddfa hon o newid yn mynd i gael ei gweithredu. Mae'r lluoedd sydd wedi ymdopi orau â chyni yn gwneud y newid hwn eisoes; bydd angen i'r holl luoedd ddilyn yn yr un modd. Eisoes rydym wedi dweud yn ein hadroddiad "Policing in Austerity – Meeting the Challenge" a gyhoeddwyd ar 22 Gorffennaf 2014 bod rhai lluoedd, yn arbennig y rhai llai neu'r rhai hynny â llai o le ariannol i symud, yn dechrau dangos arwyddion o straen wrth ddarparu eu gwasanaeth craidd i'r cyhoedd. Mae'n rhaid i luoedd wella eu dealltwriaeth o'r galw am eu gwasanaethau, gan leihau'r galw lle mae'n briodol, yn cyfateb adnoddau â'r galw yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl a, lle mae'n bosibl, yn gwneud mwy o ddefnydd o gydweithredu â lluoedd ac asiantaethau eraill er mwyn gyrru costau i lawr. Rydym yn dal yn argyhoeddedig bod angen am drafodaeth ehangach ar ddyfodol plismona wrth i gyni ddod yn arferol, ac mae HMIC wedi sefydlu carfan o bobl arweiniol mewn plismona i ystyried sut y gallai'r heddlu gael eu trefnu a'u hariannu yn y dyfodol. Nid yw hynny'n ffordd gudd o ddweud bod rhaid cyfuno heddluoedd; nid yw hynny'n fater ar gyfer HMIC a, hyd yn oed os ydoedd, byddai'n rhagdybiaeth rhy hawdd i'w gwneud bod newid strwythurol yn cynyddu effeithlonrwydd fel mater o drefn.
- 1.36. Bydd Aseiad Blynyddol flwyddyn nesaf yn canolbwyntio ein harchwiliad effeithlonrwydd ar effeithlonrwydd, cynhyrchiant a gostyngiad parhaol mewn costau ar lefel ehangach, yn hytrach nag ar ba mor dda mae lluoedd wedi cwtogi ar eu costau er mwyn cwrdd â her cyni.
- 1.37. Newidiwyd y strwythur atebolrwydd ar gyfer plismona'n sylfaenol pan sefydlwyd comisiynwyr heddlu a throseddu, a gafodd eu hymddiried â'r rôl o ddal lluoedd i gyfrif am eu perfformiad a gwariant, ac yn ei dro, dal eu hunain yn atebol i'r etholwyr lleol. Nid yw rôl HMIC yn cynnwys archwilio comisiynwyr

heddlu a throseddu, a byddai'n anghywir i HMIC geisio camu rhwng yr heddlu a'r comisiynydd heddlu a throseddu mewn ffordd nas bwriedir gan y Senedd. Ni fyddwn yn gwneud hyn. Fodd bynnag, mae gan HMIC gylch gwaith statudol clir i adrodd ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd plismona. Mae'r wybodaeth a dyfarniadau rydym yn eu darparu'n bwysig i'r cyhoedd er mwyn iddynt ddeall pa mor dda mae eu harian yn cael ei wario ar blismona; dylent fod yn bwysig i gomisiynwyr heddlu a throseddu fel asesiad gwerthfawr ac annibynnol o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu lluoedd. Nid yw comisiynwyr heddlu a throseddu ac HMIC yn gystadleuwyr; rydym yn rhannau cyflenwol o system gydlynol i ddal yr heddlu'n atebol i'r cyhoedd.

- 1.38. Rydym wedi gweld enghreifftiau o gomisiynwyr heddlu a throseddu'n ychwanegu gwerth gwirioneddol at blismona lleol drwy bartneriaethau gyda gwasanaethau lleol eraill, gan ddatblygu cynlluniau effeithlonrwydd soffistigedig ac amddiffyn anghenion dioddefwyr. Ni all unrhyw un amau bod atebolrwydd drwy'r blwch pleidleisio wedi cyflwyno ffocws miniocach ar gyfateb plismona lleol ag anghenion y gymuned leol. Rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau lle mae ffocws lleol wedi bod ar draul cydweithredu ehangach, er enghraifft comisiynwyr heddlu a throseddu sydd wedi canolbwyntio ar gydweithredu ag asiantaethau lleol ar draul cydweithrediad rhwng lluoedd. Wrth i gynt barhau, bydd angen i gomisiynwyr heddlu a throseddu ddal i feddwl yn ofalus am sut i gyflawni a chynnal gwelliannau ynghylch effeithlonrwydd ac arbedion am y gorau.
- 1.39. Yn yr un modd, mae'n rhaid i gomisiynwyr heddlu a throseddu ddal i gydbwysu'r galwadau cystadleuol sy'n deillio o flaenoriaethau plismona lleol a chenedlaethol. Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn cyflwyno'r swyddogaethau hynny mae'n rhaid i luoedd lleol eu cynnal, heb ystyried blaenoriaethau lleol. Ni all unrhyw lu esgeuluso'r SPR na chredu nad oes ganddo rôl i'w chwarae mewn materion cenedlaethol fel troseddau cyfundrefnol difrifol. Nid yw troseddwy'r yn parchu ffiniau lluoedd, a byddai'n anffodus pe byddai creu comisiynwyr heddlu a throseddu'n arwain at gulni ar lefel lluoedd mewn ymateb i droseddau. Yn ein hadroddiad "The Strategic Policing Requirement", a gyhoeddwyd ar 10 Ebrill 2014 canfuom bod prif swyddogion yn ystyried gofynion yr SPR wrth ymarfer eu swyddogaethau, ond canfuom bod angen i luoedd wneud mwy i roi yn ei lle'r lefel o baratoi a oedd ei hangen iddynt allu ymateb i'r bygythion a gyflwynir yn yr SPR. Argymhellom bod angen i brif swyddogion sefydlu ymagwedd gasgliadol yn eu harweinyddiaeth er mwyn darparu'r lefel honno o baratoi. Byddwn yn ymgymryd â chyfres o archwiliadau dros y tair blynedd nesaf er mwyn archwilio ymatebion lluoedd i'r SPR.
- 1.40. Mae'r tirlun plismona wedi newid hefyd wrth i'r Coleg Plismona gael ei sefydlu ar 1 Rhagfyr 2012. Mae hyn yn nodi cam pwysig yn y broses o broffesiynoli'r

heddlu, wrth i'r Coleg gael ei ymddiried â'r dasg o osod safonau arfer proffesiynol, cefnogi datblygiad proffesiynol yr heddlu a hyrwyddo moeseg, gwerthoedd a safonau uniondeb mewn plismona. Eisoes mae'r Coleg wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu safonau proffesiynol drwy gyhoeddi'r Cod Moeseg ym mis Gorffennaf 2014, sy'n darparu fframwaith clir y dylai pob swyddog ei farnu ei hunan yn ei ôl ac y bydd pob swyddog yn cael ei farnu yn ei ôl. Mae gan y Coleg botensial sylweddol i helpu'r broses o ddatblygu safonau plismona a gwella perfformiad, a bydd HMIC yn gweithio'n agos gyda'r Coleg yn yr ymdrech i wella perfformiad, galluogrwydd ac arweinyddiaeth yr heddlu. Er ei fod yn sefydliad cymharol newydd, mae'n bwysig ei fod yn cymryd rôl yr Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona'n gyflym ynghylch datblygu galluogrwydd yr heddlu, os yw'n mynd i wneud ei gyfraniad llawn. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn meysydd megis datblygu gwell ddealltwriaeth o sut i fodelu'r galw am wasanaethau'r heddlu, lle mae lluoedd angen ei waith nawr er mwyn paratoi ar gyfer cyni pellach.

- 1.41. Cyn bo hir caiff Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) ei disodli gan gorff newydd, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Mae'n bwysig bod y corff newydd hwn yn cael ei roi yn ei le'n gyflym a'i fod yn darparu arweinyddiaeth gasgliadol gref i luoedd. Mae hyn yn bwysig o ran darparu cydgysylltiad rhwng lluoedd, yn arbennig lle mae lluoedd angen cymorth gan luoedd eraill, os yw hynny'n golygu darparu swyddogion er mwyn cwrdd ag ymchwyddiadau mewn galw neu ddarparu mynediad i systemau a thechnoleg sydd angen i bob un o'r 43 o luoedd gydweithio.

Galluoedd yr heddlu i gwrdd â galwadau newidiol trosedd ac atebolrwydd

- 1.42. Ers gormod o amser mae'r drafodaeth ar blismona wedi canolbwyntio ar ei gapasiti: nifer y swyddogion, cyfran y swyddogion ar y rheng flaen a maint cyllidebau'r heddlu. Mae'r rhain yn faterion pwysig, ond felly hefyd mae galluoedd lluoedd: y sgiliau, technoleg, cyfarpar, safon swyddogion a pha mor dda maent yn cael eu harwain. Heb adnewyddu a gwella galluoedd yn gyson i sicrhau eu bod yn cyfateb â natur a graddfa'r bygythiad a gyflwynir gan drosedd ac anhrefn, ac anghenion y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, bydd lluoedd yn aros yn eu hunfan a bydd eu galluoedd craidd yn dirywio; ni all lluoedd fforddio byth i ganiatáu i'r hyn y gallant ei wneud fod yn hanfodol groes i'r hyn maent angen ei wneud. Ni all yr addasu a gwella cyson hwnnw ddod trwy adeiladu ar alluogrwydd cyfredol bob tro, neu hyd yn oed trwy ddysgu oddi wrth lu neu asiantaeth arall. Ar brydiau, bydd yr heddlu angen gwneud naid fawr ymlaen o ran galluogrwydd er mwyn cadw i fyny â bygythiad trosedd ac yna cadw'r galluogrwydd newydd hwnnw'n gyflin â'r

bygythiad. Mae hyn yn arbennig o wir gyda seiberdroseddu lle mae'r bwlch rhwng y bygythiad a galluogrwydd yr heddlu'n lledaenu.

- 1.43. Soniwyd am y rôl a chwaraeir gan dechnoleg fodern yn y mwyafrif o droseddau. Nid yw galluoedd lluoedd i gasglu a dadansoddi tystiolaeth ddigidol wedi eu datblygu'n ddigonol. Yn ein harchwiliadau, rydym wedi canfod enghreifftiau sy'n peri gofid lle nad yw achosion yn cael eu paratoi'n briodol gan nad oedd swyddogion, wedi casglu tystiolaeth, yn gallu trefnu iddi gael ei hadfer yn fforensig mewn fformat a fyddai'n dderbyniol fel tystiolaeth, neu ble bod oedi annerbyniol wrth ddadansoddi'r dystiolaeth. Mae hyn yn ffynhonnell rhwystredigaeth wirioneddol i lawer o swyddogion, a dylai fod yn ffynhonnell pryder gwirioneddol i bawb sy'n ymwneud â phlisma. Mae angen i luoedd gyfateb eu galluogrwydd fforensig digidol â realiti trosedd modern ar frys; mae angen i waith fforensig digidol ddod yn gymaint o ran safonol o ymchwiliad safle trosedd ag olion bysedd a DNA.
- 1.44. Fel y dywedwyd, mae angen i luoedd allu delio â mathau newydd o droseddau, gweithio'n fwy effeithiol gyda'r cymunedau amrywiol maent yn eu gwasanaethu, a dod yn fwy cost-effeithiol. Ar adeg o gyni, bydd angen i dechnoleg chwarae rôl gynyddol o ran galluogi'r heddlu i gwrdd â'r heriau hyn. Mae TGCh yr heddlu'n ddrud. Yn 2012/13, Gwariodd y 43 o luoedd yng Nghymru a Lloegr oddeutu £643 miliwn ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Ar ben hynny, mae gan y Swyddfa Gartref gyfrifoldeb am bortffolio o 30 o systemau plisma cenedlaethol â chost flynyddol o £340 miliwn, ac ailgodir cyfran o'r tâl hwn ar luoedd. Bydd contractau ar gyfer oddeutu dau draean o'r systemau a gwasanaethau TGCh cenedlaethol a ddelir gan y Swyddfa Gartref, gan gynnwys Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu a'r System Gyfathrebu Ton Awyr, yn dod i ben neu gael eu hadnewyddu cyn 2016. Mae plisma'n dibynnu ar y ffaith bod yr holl systemau a chysylltiadau cymhleth hyn yn hygyrch ac effeithiol, tra'n helpu hefyd i wneud gwelliannau gweithredol a gwelliannau busnes. O gofio'r her sylweddol mae'r heddlu'n ei hwynebu wrth gynyddu eu galluoedd digidol er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd a gwneud arbedion ariannol arwyddocaol, mae angen am gynllun clir i ddisodli neu adnewyddu'r systemau hyn.
- 1.45. Rydym yn poeni hefyd bod arwyddion o ddirywiad mewn sgiliau ymchwiliol sylfaenol swyddogion mewn cysylltiad â throseddu cyfaint. Clywsom yn ein harchwiliadau am rai swyddogion nad oedd wedi ymchwilio i drosedd ers rhai blynyddoedd. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw hyfforddiant gorfodol ar gyfer goruchwylio ymchwiliadau. Ni all fod yn gywir y caniateir i allu craidd megis sgiliau ymchwiliol ddirywio.

1.46. Un o sgil effeithiau'r arbedion cost mae lluoedd wedi'u gorfodi eu gwneud oedd cyfyngiad sylweddol ar recriwtio swyddogion newydd. Mae hyn, ar y cyd â strwythur gyrrfaol cymharol lym yr heddlu a'r moddau anghynladwy o brin sydd ar gael i leihau niferoedd swyddogion, yn rhedeg y risg y bydd gan luoedd weithlu sy'n heneiddio ac yn gymharol ddrud gyda sgiliau sy'n dirywio, ni fyddant yn gallu dod â'r recriwtiaid newydd craffaf a gorau i mewn, a byddant yn dod hyd yn oed yn fwy anghynrychiadol o'r cymunedau cynyddol o amrywiol maent yn eu gwasanaethu. Ni all unrhyw sefydliad fforddio sefyll yn stond, yn arbennig un megis yr heddlu sy'n wynebu bygythiad dynamig sy'n newid yn gyflym. Mae angen i luoedd ystyried sut i sicrhau mwy o amrywiaeth yn eu lluoedd fel mater o flaenoriaeth, gan gynnwys drwy ymgysylltu'n frwdfrydig â recriwtio mynediad uniongyrchol. Yn asesiad PEEL flwyddyn nesaf byddwn yn ystyried safon arweinyddiaeth yr heddlu'n benodol. Felly rydym yn croesawu'r arolwg o arweinyddiaeth yr heddlu a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona ym mis Gorffennaf 2014; gobeithiwn y caiff ei gwblhau'n gyflym.

Perfformiad lluoedd yn 2013/14

- 1.47. Yn erbyn y cefndir hwn o newid, diwygio, cyni ac atebolrwydd cynyddol mae lluoedd wedi perfformio, fel y dywedwyd, yn dda ar y cyfan. Mae HMIC wedi graddio 39 o luoedd fel rhai da ynghylch atal trosedd a lleihau troseddu, un llu fel rhagorol a thri llu fel rhai sydd angen gwella. Yn ei archwiliad trosedd, Canfu HMIC hefyd bod atal trosedd yn flaenoriaeth ar gyfer yr heddlu ac mae'r holl luoedd wedi penodi adnoddau iddo. Mae'r tair pennod nesaf yn darparu canfyddiadau manylach ar effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb lluoedd yn seiliedig ar yr archwiliadau rydym wedi eu cynnal yn 2013/14.
- 1.48. Mae trosedd a'r posibilrwydd o fod yn ddiodefwr trosedd ill dau wedi gostwng dros flynyddoedd diweddar. Lle mae lluoedd wedi gweld cynnydd mewn mathau arbennig o droseddau, maent yn credu bod hyn yn adlewyrchu mwy o hyder ymhlith diodefwr i adrodd am droseddau, a newidiadau o ran arferion cofnodi sydd wedi cynyddu cyfraddau cofnodi. Fe wnaeth ein harchwiliad ar uniondeb data troseddau amlygu gwahaniaethau mawr ynghylch arferion cofnodi lluoedd gan sefydlu mai dim ond 81 y cant o droseddau sy'n cael eu cofnodi fel troseddau gan yr heddlu ar gyfartaledd. Mae'n gwbl annerbyniol bod un o bob pum trosedd yn mynd ar goll fel hyn. Mae hyn yn erbyn y nod sylfaenol plismona ynghylch diogelu'r cyhoedd, ac os bydd y methiannau hyn yn parhau ni fydd lluoedd byth yn gallu cyfatebu adnoddau â'r galw yn iawn.
- 1.49. Yn ein harchwiliadau rydym wedi gweld symudiad calonogol, sydd yn hwyr iawn yn cyrraedd, i ffwrdd o blismona a ysgogit gan dargedau anhyblyg a gwrthbrofedig at blismona seiliedig ar ddealltwriaeth o fygythiad, risg a niwed.

Drwy'r amser bydd angen i arweinwyr yr heddlu allu mesur perfformiad, ond mae angen i hynny fod yn seiliedig ar wybodaeth, yn hytrach na mynd ar ôl canlyniadau er eu mwyn eu hunain neu heb ystyried effeithiau croes. Nid oedd y system flaenorol o dargedau yn cwmpasu'r ystod lawn o droseddau na'u difrifoldeb cymharol, ac roedd hyn yn arwain at ddryswch ynghylch a oedd y targedau'n mesur perfformiad neu'n gyrru gweithgarwch plismona. Nid yw'r symudiad hwnnw i ffwrdd o dargedau'n gyffredinol a chyflawn, a gwelsom enghreifftiau o luoedd yn brwydro i reoli perfformiad yn absenoldeb targedau perfformiad. Nid yw rheoli perfformiad swyddogion unigol yr un peth â chyfateb adnoddau'r heddlu â'r galw; gall targedau ddarparu synnwyr ffug o ddiogelwch i reolwyr gan gyflwyno blaenoriaethau a gweithgarwch ffug yn hytrach na chynnydd.

- 1.50. Rydym wedi'n calonogi gan yr ymrwymiad a difrifoldeb mae heddluoedd wedi cwrdd â'r her gyntaf gyda hwy hyd yn hyn, a'r sgiliau mae arweinwyr yr heddlu wedi'u datblygu ynghylch rheoli adnoddau a newid. Ond, fel y dywedwyd yn gynharach, dylai heddluoedd gynllunio tra'n rhagdybio na fydd cyni'n dod i ben a dylent ei ddefnyddio fel ysbardun i arloesi, diwygio a chydweithredu'n barhaol. Bydd y set nesaf o ostyngiadau cost yn anos i bob llu, a bydd rhai'n arbennig yn profi anawsterau wrth geisio eu cyflawni heb newid sylfaenol os ydynt yn mynd i warchod y rheng flaen a'u gwasanaethau craidd i'r cyhoedd. Bydd angen i luoedd ddatblygu dealltwriaeth well o sut i uchafu eu heffeithlonrwydd a chynhyrchiant; bydd hyn yn galw ar luoedd i ddeall y cysylltiad rhwng galw, gwasanaethau a chostau'n well. Yn ein harchwiliadau PEEL flwyddyn nesaf, byddwn yn barnu effeithlonrwydd a chynhyrchiant lluoedd yn ogystal â'u llwyddiant parhaol ynghylch gwneud gostyngiadau mewn costau.
- 1.51. Hefyd mae'r cyhoedd yn disgwyl y bydd lluoedd yn gweithredu â chyfreithlondeb. Yn ôl egwyddorion Peelian plismona Prydeinig, mae gallu'r heddlu i gyflawni eu dyletswyddau'n ddibynnol ar gymeradwyaeth y cyhoedd ynghylch gweithredoedd yr heddlu. Mae achosion proffil uchel diweddar ynghylch uniondeb swyddogion yr heddlu wedi achosi niwed i enw da'r heddlu ymhell y tu hwnt i'r niferoedd o swyddogion a oedd yn gysylltiedig. Nodom yn ein hadroddiad "Without Fear or Favour – A Review of Police Relationships", a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2011, nad oeddem yn credu bod llygredd yn rhemp yn yr heddlu ac, o'n harchwiliadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth glir o argyfwng cyfreithlonrwydd mewn plismona. Fodd bynnag, mae agweddau y byddwn yn dymuno eu harchwilio'n agosach flwyddyn nesaf, gan gynnwys cynnydd o ran sicrhau bod cydymffurfiaid â Chod Moeseg y Coleg Plismona, y trefniadau i swyddogion heddlu a staff adrodd drygioni a ddrwgdybir, a chydymffurfiaid â pholisïau cenedlaethol ar Wrthdrawiadau Buddiannau posibl.

1.52. Ni fydd ffocws y cyhoedd a'r cyfryngau ar uniondeb yr heddlu'n lleihau tan nad yw swyddogion unigol yn dwyn anfri ar y gwasanaeth bellach. Mae gan y cyhoedd yr hawl i ddisgwyl y dylai swyddogion, y rhoddir pwerau unigryw iddynt dros ein rhyddid a diogelwch, weithredu drwy'r amser â'r uniondeb eithaf. Nid yw'r cyhoedd yn disgwyl i swyddogion fethu â chyflawni'r safonau hynny; mae'n disgwyl i swyddogion weithredu â safonau uwch na gweddiill cymdeithas. Felly, efallai ei fod yn galonogol bod hyder y cyhoedd yn yr heddlu wedi aros yn gyson yn ystod blynyddoedd diweddar; ni ddylai'r heddlu fod yn hunanfodlon ynghylch hyn a dylent ymdrechu i gyrraedd y lefelau o hyder cyhoeddus sy'n cael eu mwynhau gan broffesiynau megis meddygaeth ac addysgu.

- 1.53. Hefyd gwnaed newidiadau yn ddiweddar i gynyddu didwylledd trwy sefydlu cofrestrau cyhoeddus o gyflogau a pheccynnau gwobrwyo a buddiannau busnes prif swyddogion. Eisoes rydym wedi sôn am gyflwyno'r Cod Moeseg fel cam pwysig ynghylch egluro'r safonau ymddygiad y dylai swyddogion eu mabwysiadu. Yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Mawrth 2014 o Adolygiad Ellison o'r honiadau o lygredd yn yr archwiliad i lofruddiaeth Stephen Lawrence, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref adolygiadau o achosion yn cynnwys Special Demonstration Squad yr Heddlu Metropolitanaid ac ymchwiliad cyhoeddus i blismona cudd³. Disgwylir y bydd y Senedd ynn creu trosedd newydd o lygredd yr heddlu cyn bo hir, gan ganolbwyntio ar y defnydd amhriodol o'u pwerau gan yr heddlu. Mae'r rhain i gyd yn gamau pwysig, ond dylai pawb ym maes plismona edifarhau y teimlwyd bod angen eu cyflwyno o gwbl. Ni ddylai fod angen i wasanaeth sy'n gweithredu heb ofn na ffafr ar ran buddiannau diduedd cyfiawnder a gwarchod y cyhoedd arddangos ei uniondeb na chael ei rybuddio ynghylch canlyniadau ei fethiant. Dylai ei ddiwylliant, gwerthoedd ac arweinyddiaeth atgyfnerthu ei uniondeb o'r tu mewn a dylai ei uniondeb fod yn amlwg i bawb o'r tu allan.
- 1.54. Yn ddiweddar mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno cynllun gwirfoddol a fwriedir i leihau'r defnydd anghymesur o bwerau stopio a chwilio⁴. O dan y cynllun hwn, mae'n rhaid i luoedd fod yn gliriach ynghylch y seiliau ar gyfer defnyddio'r pwerau, gynyddu'r lefelau awdurdodi ar gyfer defnyddio'r pwerau adran 60⁵ "dim drwgdybiaeth" a lleihau faint o amser y gellir defnyddio'r pwerau hynny amdano. Dylai'r camau hyn helpu i gynyddu'r defnydd cymesur o bwerau stopio a chwilio, ond dylai beri edifeirwch i bob llu fod angen y camau hyn o gwbl. Mae nifer o luoedd eisoes wedi dangos ei fod yn bosibl defnyddio pwerau stopio a chwilio yn y ffordd a fwriadwyd gan y Senedd heb gael effaith negyddol ar lefelau trosedd.
- 1.55. Rydym wedi asesu rhai agweddau ar gyfreithlondeb yn asesiad PEEL eleni a byddwn yn asesu ystod ehangach yn asesiad flwyddyn nesaf. Eleni rydym wedi asesu systemau lluoedd ar gyfer atal, nodi, ymchwilio a delio â llygredd a chamymddygiad. Ym mlynnyddoedd y dyfodol, byddwn yn lledaenu hynny er mwyn cynnwys pa mor dda mae lluoedd yn gweithredu o fewn y gyfraith, sut maent yn trafod cwynion, pa mor rhydd rhag llygredd ydynt, pa mor gynrychiadol ydynt o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu, ac i ba raddau maent yn mwynhau cefnogaeth y cyhoedd.

³ Adroddiad Swyddogol Tŷ'r Cyffredin, 6 Mawrth 2014, Colofn 1061, Adolygiad Ellison. Ar gael ar www.parliament.uk

⁴ Adroddiad Swyddogol Tŷ'r Cyffredin, 30 Ebrill 2014, Colofn 831. Ar gael ar www.parliament.uk

⁵ Adran 60 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.

Effeithiolrwydd

Crynodeb

Mae asesiad HMIC o effeithiolrwydd lluoedd yn seiliedig ar yr adroddiadau archwilio trosedd, ac elfennau effeithiolrwydd archwiliadau thematig eraill a gyhoeddwyd yn 2014, gan gynnwys *Everyone's Business: Improving the police response to domestic abuse; Core business: An inspection into crime prevention, police attendance and the use of police time; a The Strategic Policing Requirement: An inspection into the arrangements that police forces have in place to meet the Strategic Policing Requirement*⁶.

Canfu HMIC lawer i'w ganmol, yn arbennig o ran gwaith yr heddlu i atal a lleihau troseddu:

- Mae'r mwyafrif o luoedd yn gweithio'n effeithiol i atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er enghraifft, maent yn gweithio'n agos i helpu i gyflawni hyn gyda sefydliadau eraill (megis awdurdodau lleol, a gwasanaethau iechyd ac addysg⁷), fel arfer yn gwneud defnydd priodol o'r tactegau a phwerau sydd ar gael iddynt, ac maent yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r problemau sy'n fwy tebygol o achosi niwed yn eu cymunedau.
- Mae'r heddlu wedi gwneud cynnydd arbennig o drawiadol wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn arbennig o ran sut maent yn nodi a chefnogi dioddefwyr sydd mewn perygl mewn rhyw ffordd⁸.

Hefyd datgelodd y gwaith archwilio rai risgiau yn y maes hwn:

- Datganodd llawer o swyddogion bryderon nad oes digon o amser ac adnoddau ar gael ar gyfer atal trosedd. Yn arbennig, canfu HMIC dystiolaeth o swyddogion cymdogaeth (a ddylai gael eu neilltuo'n bennaf i nodi a mynd i'r afael â phroblemau a blaenoriaethau lleol) yn cael eu gofyn yn amlach i wneud dyletswyddau eraill yn lle. Am wybodaeth bellach, gweler y bennod ar Effeithlonrwydd.
- Roedd llawer o swyddogion yn teimlo nad oeddynt yn gallu rhoi cyngor ar sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

⁶ I gyd ar gael gan www.justiceinspectores.gov.uk/hmic

⁷ Mae adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn galw ar sefydliadau statudol fel awdurdodau lleol i roi sylw dyledus i effaith debygol ymarfer eu swyddogaethau ar, a'r angen i wneud popeth y gallant ei wneud yn rhesymol i atal, trosedd ac anhrefn yn eu hardaloedd.

⁸ Mae perygl yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio unigolyn sydd angen gofal, cymorth neu warchodaeth arbennig oherwydd oedran, anabled neu risg a achosir gan gamdriniaeth neu esgeulustod.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, yn 2014 mae HMIC yn graddio 39 o luoedd fel rhai da ynghylch atal trosedd a lleihau troseddu; un yn rhagorol; a thri fel rhai sydd angen gwella.

- Mewn cyferbyniad â hynny, mae HMIC yn barnu bod 18 o luoedd angen gwella yn y ffordd maent yn ymchwilio i droseddau. Yn arbennig:
- Nid yw ymchwiliadau ar gyfer rhai troseddau megis byrgleriaeth ac ymosod o'r safon a ddisgwylir neu sydd ei hangen.
- Mae safon ymchwiliadau cychwynnol yn is na'r hyn y gall y cyhoedd ei disgwyl yn rhesymol, oherwydd diffyg o ran sgiliau a phrofiad y swyddogion ymchwilio, a diffyg ynghylch goruchwyliaeth briodol.

Mewn rhai lluoedd, canfu HMIC ddiffygion o ran galluogrwydd yr heddlu. Mewn gormod o achosion, nid oes gan swyddogion y sgiliau a hyfforddiant sydd arnynt eu hangen i gynnal ymchwiliadau trwyadl, ac mae mynediad i gymorth arbenigol (megis timau fforensig) a chyfarpar (e.e. TG symudol) yn gyfyngedig.

Mae amrywio tebyg o ran sut mae lluoedd yn cefnogi a diogelu dioddefwyr. Er i HMIC gwrdd â channoedd o swyddogion ymroddedig a oedd yn gweithio'n galed, a ddisgrifiodd eu hangerdd ac ymrwymiad i ddarparu cymorth i ddioddefwyr:

- Mae safon a chysondeb cyswllt yr heddlu â'r dioddefwr (i'w ddiweddarau ar gynnydd ar yr achos) yn amrywio o lu i lu.
- Canfu HMIC bod rhai lluoedd yn ystyried bod y *Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau*⁹ yn rhestr wirio ynghylch cydymffurfiad yn unig

⁹ Mae'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau'n cyflwyno rhwymedigaethau sydd gan yr heddlu (a sefydliadau eraill) tuag at ddioddefwyr troseddau. Gweler Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain, 2013. Ar gael gan www.gov.uk

Beth yw effeithiolrwydd?

- 2.1. Mae'r bennod hon yn ystyried a yw'r heddlu'n gwneud y pethau priodol i atal, ymchwilio a chanfod troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a diogelu dioddefwyr a'r rhai hynny sy'n fregus¹⁰. Safon perfformiad yr heddlu yn y meysydd hyn yw prif fesur eu heffeithiolrwydd. Mae'r penodau diweddarach yn ystyried a yw'r pethau hynny'n cael eu cynnal ar y gost fwyaf priodol (effeithlonrwydd) a sut mae'r heddlu'n ei wneud er mwyn sicrhau bod ganddynt hyder eu cymunedau (cyfreithlondeb).
- 2.2. Mae'r cyhoedd yn disgwyl i'r heddlu atal trosedd a, phan ddigwydd trosedd, ymchwilio iddo'n iawn a darparu cymorth i ddioddefwyr. Dywedodd dioddefwr trosedd, a arolygwyd gan HMIC ym mis Awst 2014, y dylai'r heddlu ddarparu “a prompt response and a sympathetic ear and an action plan of what is going to happen, hopefully leading to prosecution or corrective justice”. Mae hyn yn nodweddiadol o'r hyn mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gan yr heddlu.
- 2.3. Mae heddluoedd effeithiol yn defnyddio arferion seiliedig ar dystiolaeth i atal trosedd, ac yn dilyn cyfarwyddyd a gymeradwyir gan y Coleg Plismona wrth ymchwilio i drosedd¹¹. Mae swyddogion yn casglu tystiolaeth ac yn adeiladu achosion er mwyn helpu i sicrhau y dygir troseddwr i gyfiawnder. Gan nad yr heddlu yw'r unig sefydliad neu gorff cyhoeddus sy'n gyfrifol am atal trosedd, bydd llu effeithiol yn gweithio'n dda gyda chyrrff eraill i atal trosedd a diogelu'r cyhoedd¹². Mae lluoedd effeithiol yn gweithio gyda'u partneriaid i'w wneud yn anos i droseddwr aildroseddu pan ydynt yn cael eu rhyddhau i'r gymuned.
- 2.4. Mae gan luoedd effeithiol ymagwedd tuag at blismona sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr. Mae hyn yn golygu y bydd lluoedd yn ymateb yn briodol i alwadau am wasanaeth gan y cyhoedd, nodi risgiau a bregusrwydd posibl ar y cyswllt cyntaf gyda'r cyhoedd, a dyrannu'r adnoddau mwyaf priodol i gefnogi dioddefwyr a phobl fregus. Dylai'r ymagwedd hon fod yn amlwg ymhlith blaenoriaethau lluoedd, gael ei chyfathrebu i'r gweithlu gan dîm y prif swyddog a chael ei harddangos gan ymddygiad swyddogion ar y rheng flaen.

¹⁰ Mae bregusrwydd yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio unigolyn sydd angen gofal, cymorth neu ddiogelu arbennig oherwydd oedran, anabled neu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod.

¹¹ Mae'r Coleg Plismona'n cyflwyno'r 'What Works Centre for Crime Reduction' sy'n darparu, i gomisiynwyr yr heddlu a throseddau a sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am leihau trosedd, yr wybodaeth, offer a chyfarwyddyd i'w helpu i dargedu eu hadnoddau'n fwy effeithiol. Mae ar gael gan www.college.police.uk/en/20399.htm

¹² Gall y sefydliadau neu gyrff hyn gynnwys cyrrff statudol (megis awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a darparwyr iechyd) a chyrrff anstatudol (megis sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau'r trydydd sector ac elusennau). Yn aml cyfeirir atynt fel partneriaid.

- 2.5. Mae hawl gan ddiodefwyr trosedd i gael wasanaeth effeithiol gan yr heddlu. Mae hyn yn cynnwys derbyn gwybodaeth reolaidd ynghylch eu hachos, derbyn y cyfle i ddarparu datganiad personol diodefwr ar yr effaith mae'r trosedd wedi'i chael arnynt (lle mae'n briodol), a chael eu hymgyngori ar ganlyniadau posibl eu hachos. Os yw'r math hwn o wasanaeth yn cael ei ddarparu ac mae'r diodefwr yn teimlo ei fod wedi'i drin yn dda gan yr heddlu, dylai gynyddu boddhad diodefwyr ac adeiladu ymddiriedaeth yn yr heddlu. Cefnogir y gosodiad hwn gan ymchwil ar y cysyniad o gyfiawnder gweithdrefnol¹³.
- 2.6. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i'r heddlu hefyd baratoi ar gyfer, ac ymateb i, fygythion y tu hwnt i ffiniau eu llu, gan gynnwys bygythion cenedlaethol megis terfysgaeth, troseddau difrifol a threfnedig a seiberdroseddau. Mae *The Strategic Policing Requirement*¹⁴ (SPR) yn cyflwyno barn y Llywodraeth ar y bygythion cenedlaethol y dylai'r heddlu fod yn barod amdanynt, a'r galluedd mae'r heddlu eu hangen er mwyn ymateb. Mae'r SPR yn cyflwyno'r hyn mae angen i'r heddlu ei gyflawni, nid sut y dylent fynd ati i'w gyflawni. Bydd gan lu effeithiol brosesau yn eu lle i sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion yr SPR.

Asesu effeithiolrwydd

- 2.7. Fe wnaeth HMIC archwilio a chyhoeddi adroddiadau ar effeithiolrwydd pob llu yn yr archwiliad trosedd¹⁵. Ystyriodd HMIC yr agweddau dilynol ar effeithiolrwydd llu:
- (a) a yw'r llu'n effeithiol ynghylch atal trosedd a lleihau troseddau;
 - (b) a yw'r llu'n effeithiol ynghylch ymchwilio i droseddau, gan gynnwys y ffordd mae'n cefnogi diodefwyr yn ystod ymchwiliad i drosedd; ac
 - (c) a yw'r llu'n effeithiol ynghylch mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

¹³ Mae ymchwil cyfiawnder gweithdrefnol yn mynnu bod angen ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr heddlu yn rhannol oherwydd y gallai hyn arwain at fwy o gydweithrediad gan y cyhoedd ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith, ond yn bwysicach oherwydd ei fod yn adeiladu cyfreithlonrwydd sefydliadol, cydymffurfriad y cyhoedd â'r gyfraith ac ymrwymiad i reolaeth y gyfraith. Gweler 'Procedural Justice, Trust and Institutional Legitimacy', Hough, M., Jackson, J., Bradford, B., Myhill, A. a Quinton, P., *Policing: A Journal of Policy and Practice*, Llundain, 2010, 4, 3, 203-10.

¹⁴ *Strategic Policing Requirement*, Y Swyddfa Gartref, Llundain, Gorffennaf 2012. Ar gael gan www.gov.uk

¹⁵ *Crime inspection*, HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectors.gov.uk/hmic

- 2.8. Hefyd fe ystyriodd archwiliad trosedd HMIC i ba raddau mae gweithgarwch yr heddlu'n troi'n ganlyniadau gwell ar gyfer y cyhoedd, yn benodol a yw lluoedd yn gosod anghenion dioddefwyr wrth galon yr hyn maent yn ei wneud, gan gynnwys o ran y tactegau maent yn eu defnyddio i ymchwilio i droseddu¹⁶.
- 2.9. Er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth ar gyfer yr archwiliad trosedd, ymwelodd HMIC â phob un o'r 43 o luoedd gan gyfweld uwch-swyddogion a oedd yn gyfrifol am drosedd, adolygu 20 o ffeiliau achos ymhob llu, cynnal ymweliadau dirybudd â gorsafoedd heddlu, a chynnal grwpiau ffocws ar gyfer swyddogion a staff. Hefyd cyfwelodd HMIC aelodau sefydliadau eraill sydd yn, neu a ddylai, weithio gyda'r heddlu, er mwyn casglu dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd perthnasau gweithio'r heddlu â sefydliadau partner.
- 2.10. Yn 2014, canolbwyntiodd archwiliad trosedd HMIC ar nifer fach o gwestiynau ar effeithiolrwydd. Ym mlynnyddoedd y dyfodol, ehangir yr asesiad hwn i gynnwys yr ystod lawn o gwestiynau, a bydd yn cynnwys dyfarniadau graddedig ar allu lluoedd i ddiogelu'r rhai hynny sydd yn y perygl mwyaf o gael eu niweidio, i fynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig ac i baratoi i ymateb i fygythion cenedlaethol. Felly mae'r hyn sy'n dilyn yn asesiad o effeithiolrwydd lluoedd ynghylch lleihau trosedd, atal troseddu, ymchwilio i droseddu a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 2.11. Mae llawer o'r meysydd ar gyfer gwella a amlygir yn y bennod hon yn hysbys i'r gwasanaeth heddlu. Mae'r uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am wneud y gwelliannau hyn yn gweithio gyda'r Coleg Plismona i ddatrys y problemau dan sylw.
- 2.12. Mae'r bennod hon yn tynnu ar y canfyddiadau a gyhoeddwyd yn yr adroddiadau archwiliad trosedd, yn ogystal ag adroddiadau diweddar eraill gan HMIC gan gynnwys *Everyone's Business: improving the police response to domestic abuse*¹⁷, *Core Business: An inspection into crime prevention, police attendance and the use of police time*¹⁸, a *The Strategic Policing Requirement: An inspection into the arrangements that police forces have in place to meet the Strategic Policing Requirement*¹⁹, bob un ohonynt sydd wedi ystyried agweddau ar effeithiolrwydd.

¹⁶ HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

¹⁷ *Everybody's Business: Improving the police response to domestic abuse*, HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

¹⁸ *Core Business: An inspection into crime prevention, police attendance and the use of police time*. HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

¹⁹ *The Strategic Policing Requirement: An inspection of the arrangements that police forces have in place to meet the Strategic Policing Requirement*, HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

Lleihau trosedd


- 2.13. Yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW), mae troseddu ar ei lefel isaf ers i'r arolwg ddechrau ym 1981²⁰. Mae'r CSEW yn cwmpasu troseddau nad ydynt yn dod i sylw'r heddlu. Mae ffigurau blynyddol diweddaraf y CSEW (hyd at ddiwedd Mehefin 2014), a gyhoeddwyd ar 16 Hydref 2014), yn dangos gostyngiad mewn trosedd o 16 y cant o lefel y flwyddyn flaenorol. Mae troseddau a gofnodir gan yr heddlu'n darparu data ar y nifer o droseddau a adroddwyd wrth yr heddlu ac yna a gofnodwyd gan yr heddlu fel troseddau. Fe wnaeth cyfanswm y troseddau a gofnodwyd gan heddluoedd Cymru a Lloegr (ac eithrio'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig) dros yr un cyfnod ostwng o 1 y cant.
- 2.14. Er nad yw cyfraddau troseddau a gofnodwyd, ar eu hunain, yn fesur cynhwysfawr o effeithiolrwydd yr heddlu, maent yn ddefnyddiol ar gyfer asesu pa mor effeithiol mae'r heddlu ynghylch lleihau trosedd. Y duedd gyffredinol yw bod trosedd yn gostwng, ac mae'r heddlu'n haeddu cydnabyddiaeth a chanmoliaeth am eu rôl yn y broses o sicrhau bod hyn yn digwydd. Fodd bynnag, fel y cyflwynir yn yr adroddiad *Crime Data Integrity report*²¹, mae gan HMIC bryderon ynghylch yr arferion cofnodi troseddau mewn rhai lluoedd. Cyflwynir y pryderon hyn yn fanylach yn y bennod ar gyfreithlondeb. Hefyd dylid sylwi nad yw ffigurau troseddau a gofnodwyd yn cynnwys yr hyn y cyfeirir atynt fel troseddau cudd fel caethwasiaeth, trais seiliedig ar anrhydedd bondigrybwyll a seiberdroseddu drwy'r amser.
- 2.15. Hefyd mae adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf. Adroddwyd bron i 2.1 filiwn o ddigwyddiadau wrth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn 2013/14, sy'n cynrychioli gostyngiad o 7 y cant ar y nifer yn 2012/13. Mae'r bennod hon yn mynd ymlaen i esbonio'r ffyrdd mae heddluoedd yn gweithio ynddynt er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn dod yn ddioddefwr ymddygiad gwrthgymdeithasol.#
- 2.16. Mae'r graff isod yn dangos y newid mewn troseddau a gofnodwyd dros y flwyddyn ddiwethaf ar draws lluoedd
- 2.17. Gwelodd dau ddeg pedwar o luoedd gynnydd mewn troseddau a gofnodwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r mwyafrif o luoedd yn priodoli'r cynnydd hwn i newidiadau mewn arferion cofnodi troseddau a lefelau uwch o gydymffurfiaid â safonau cofnodi gorfodol. Dywedodd lluoedd fod arferion cofnodi'n newid er mwyn sicrhau cydymffurfiaid gwell â safonau cofnodi troseddau cenedlaethol (yn

²⁰ *Crime in England and Wales, Year Ending June 2014*, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llundain, 2014. Ar gael gan www.ons.gov.uk

²¹ *Crime Recording: a matter of fact*, HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

arbennig mewn cysylltiad â threisió, troseddau rhywiol eraill, a throseddau treisgar sy'n achosi anaf).

Ffigur 2.1: Newid mewn trosedd yn ôl llwyd yn y 12 mis hyd at Fehefin 2014



- 2.18. Hefyd roedd lluoedd yn priodoli rhai enghreifftiau o gynnydd mewn troseddau i effaith archwiliad yr heddlu i'r honiadau o gam-drin rhywiol, yn bennaf cam-drin plant, yn erbyn Jimmy Saville ac eraill (yn hysbys fel Operation Yewtree). Mae lluoedd yn credu bod yr archwiliad hwn wedi arwain at fwy o ddioddefwyr yn dod ymlaen i adrodd troseddau rhywiol hanesyddol.
- 2.19. Dylai lluoedd ddal i ddadansoddi eu ffigurau er mwyn sicrhau eu bod yn deall trosedd yn eu hardaloedd lleol, eu bod yn glir ynghylch y rhesymau am unrhyw gynnydd mewn trosedd, a bod ganddynt gynlluniau cadarn a fforddiadwy am sut i'w leihau.

Atal trosedd

- 2.20. Un o brif rwymedigaethau'r heddlu yw atal trosedd. Gall atal trosedd fod yn rhatach a mwy effeithiol nag ymchwilio i drosedd; gall olygu nad yw bywydau'n cael eu colli, niweidio neu wastraffu, a gall sicrhau bod cymdeithas yn lle diogelach. Tynnir bron i holl gostau'r system cyfiawnder troseddol ymhellach i lawr y ffordd na chyflawni'r trosedd. Mae atal yn well o lawer na iacháu o ran plismona a chyfiawnder troseddol. Mae sut mae lluoedd yn ymdrin ag atal trosedd a pha mor llwyddiannus ydynt o ran atal trosedd yn chwarae rhan bwysig yn asesiad HMIC o effeithiolrwydd yr heddlu.

- 2.21. Canfu archwiliad HMIC bod atal trosedd yn flaenoriaeth i'r heddlu, ac mae'r holl luoedd yn neilltuo adnoddau iddo. Mae atal trosedd yn ddefnydd mwy effeithiol o amser yr heddlu na delio ag ef wedi i'r trosedd ddigwydd. Mae angen i'r heddlu symud i fyny'r ffordd cyn bod troseddau'n digwydd a dwysáu eu hymdrechion i atal trosedd, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod adnoddau'n dal i leihau, ac mae'n rhaid i luoedd osgoi bod yn gallu adweithio i alwadau argyfwng am wasanaeth yn unig.
- 2.22. Mae'r heddlu'n defnyddio ystod o dechnegau, offer a phwerau i atal trosedd a lleihau aildroseddu. Mae'r rhain yn amrywio o anfon swyddogion i mewn i ysgolion i ddarparu cyngor ynghylch atal trosedd i blant, i ddarparu pecynnau hylif olrheiniadwy i breswylwyr mewn ardaloedd a effeithir gan fyrgleriaeth fel y gallant farcio eu heiddo. Hefyd mae rhai lluoedd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Carchardai er mwyn nodi troseddwr sydd ar fin cael eu rhyddhau a phenderfynu pa gymorth y gallent ei angen wrth gael eu rhyddhau er mwyn lleihau'r risg y byddant yn aildroseddu.
- 2.23. Yn ystod yr archwiliad trosedd, canfu HMIC fod nifer gynyddol o luoedd yn defnyddio technegau dadansoddol sy'n helpu i ragweld ble mae trosedd yn fwy tebygol o ddigwydd. Mae'r rhain yn helpu lluoedd i gynllunio sut i ddefnyddio adnoddau, er enghraifft trwy ddynodi swyddogion i ardaloedd â phroblemau ynghylch troseddu a sicrhau bod swyddogion ar ddyletswydd yn ystod amseroedd brig tymhorol mewn mathau arbennig o droseddu. Mae rhagweld sut a ble gallai trosedd ddigwydd drwy'r math hwn o ddadansoddi yn caniatáu i'r heddlu darfu ar weithgarwch troseddol posibl cyn iddo ddigwydd. oed
- 2.24. Er bod lluoedd, yn gyffredinol, yn gweithio'n dda i atal a lleihau trosedd, mae gan HMIC ddau brif bryder yn hyn o beth. Yn gyntaf, mae timau cymdogaeth llw, a ddylai gael eu neilltuo i atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn cael eu defnyddio i ymateb i alwadau am wasanaeth gan y cyhoedd ac i ymchwilio i drosedd. Er bod y mwyafrif o swyddogion mewn timau cymdogaeth yn gallu esbonio'r hyn maent yn ei wneud, mynegodd swyddogion mewn 17 o luoedd bryder eu bod yn cael eu defnyddio'n aml i gefnogi timau eraill ynghylch ymateb i alwadau argyfwng. Mae hyn yn golygu nad ydynt ar gael bob tro ar gyfer eu gwaith craidd mewn cymdogaethau, megis patrolau gweladwy a darparu tawelwch meddwl i aelodau'r gymuned. O ganlyniad, gallai cyfleodd i atal trosedd gael eu colli. Yn flaenorol, mae HMIC wedi codi pryderon ynghylch dirywiad plismona yn y gymdogaeth, a thrafodir y mater hwn yn fanylach yn y bennod ar effeithlonrwydd.
- 2.25. Yn ail, dywedodd swyddogion wrth HMIC nad ydynt yn llawn gymwys i ddarparu cyngor i'r cyhoedd ynghylch yr hyn mae angen iddynt ei wneud i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, nid oedd swyddogion yn teimlo'n hyderus ynghylch darparu cyngor i'r cyhoedd ar sut y gallent atal neu leihau'r risg o brofi problemau ar-lein megis aflonyddwch ar gyfryngau cymdeithasol. Dylai'r heddlu

fod mewn sefyllfa i ddarparu cyngor ar atal trosedd i'r cyhoedd sy'n berthnasol i'r ffordd maent yn byw eu bywydau, er enghraifft, trwy helpu'r cyhoedd i gadw'n ddiogel wrth iddynt brynu nwyddau a gwasanaethau ar-lein a rhyngweithio gyda phobl eraill

- 2.26. Bydd HMIC yn monitro'r ddau faes hyn heblaw am ddal i archwilio a gwneud argymhellion ynghylch sut y gall lluoedd wella eu heffeithiolrwydd o ran atal trosedd yn fwy cyffredinol.

Gweithio gyda phartneriaid

- 2.27. Nid oes gan yr heddlu'r unig gyfrifoldeb am atal a lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; mae gan gyrff statudol (megis awdurdodau lleol, cymdeithas tai, darparwyr addysg ac iechyd) a chyrff anstatudol (megis sefydliadau'r sectorau cymunedol a gwirfoddol ac elusennau) rannau pwysig i'w chwarae. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i'r heddlu weithio gyda'r cyrff eraill hyn i atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau'r tebygolrwydd y bydd troseddwr yn aildroseddu. Edrychodd archwiliad trosedd HMIC ar y perthnasau rhwng yr heddlu a'u partneriaid, er nad yw cylch gwaith HMIC yn ymestyn i farnu effeithiolrwydd y sefydliadau eraill hynny.
- 2.28. Canfu HMIC bod lluoedd wedi ehangu ac wedi gwella safon eu perthnasau gyda phartneriaid ers 2012. Dylai partneriaethau effeithiol fynd y tu hwnt i sefydlu perthnasau gweithio da; dylent gynnwys rhannu gwybodaeth a systemau, ymgymryd ag asesiadau risg ar y cyd a defnyddio arbenigedd sy'n dod o ystod y sefydliadau er mwyn mynd i'r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mewn llawer o luoedd, gwelodd HMIC yr ymagwedd hon tuag at bartneriaethau'n cael ei mabwysiadu gyda'r broses o rannu gwybodaeth yn dod yn fwy cyffredin a pherthnasau'n cael eu cryfhau drwy rannu swyddfeydd ac adeiladau eraill. Fodd bynnag, mae nifer o luoedd yn dal heb dderbyn gwybodaeth ddienw ynghylch patrymau neu dueddiadau mewn anafiadau cysylltiedig â throsedd gan ddarparwyr lleol perthnasol o wasanaethau iechyd ar sylfaen reolaidd, ac mae hyn yn peri rhwystredigaeth iddynt.
- 2.29. Mae'r heddlu a phartneriaid fel ei gilydd yn cydnabod yr effaith mae mesurau cyni wedi'i chael ac y byddant yn dal i'w chael ar y ffyrdd maent yn gweithredu ynddynt. Mewn rhai lluoedd, mae hyn wedi ysgogi ffyrdd arloesol a chreadigol o gydweithio er mwyn gwasanaethu'r cyhoedd. Dywedodd arweinwyr yr heddlu wrth HMIC, fodd bynnag, fod gwasanaethau'n dioddef gan fod gostyngiadau cyllidebol yn gorfodi partneriaid i dynnu'n ôl o weithio gyda'r heddlu. Mae enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys swyddogion heddlu'n cael eu defnyddio i gludo cleifion i'r ysbyty pan nad oedd ambiwlansiau ar gael. Roedd enghraifft arall yn ymwneud â chelloedd yr heddlu'n cael eu defnyddio'n amhriodol fel manau diogel ar gyfer pobl a gadwyd yn gaeth o dan adran 136 Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

- 2.30. Mae rheoli troseddwr yn effeithiol yn rhan bwysig o blismona ataliol llwyddiannus, mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill. Lle gwneir hyn yn dda, mae lluoedd yn gweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn cynnal asesiadau risg amlasiantaethol, i gefnogi'r bobl fwyaf bregus a lleihau troseddu. Mae HMIC wedi gweld bod llawer o luoedd wedi datblygu perthnasau cryf gyda chyrff eraill i wneud hyn, â'r canlyniad y gellir rheoli troseddwr cyson yn fwy effeithiol er mwyn lleihau aildroseddu.
- 2.31. Mae'r holl luoedd yn defnyddio'r cynllun Rheoli Integredig Troseddwr (IOM) i reoli troseddwr yn y gymuned. Mae hyn yn golygu bod asiantaethau lluosog yn nodi unigolion sydd â hanes o gyflawni troseddau ac a asesir fel rhai sy'n debygol iawn o aildroseddu. Mae'r cynllun yn defnyddio ystod o dactegau i leihau'r risg hon, gan gynnwys defnyddio tagio, profion am gyffuriau a chymorth i ddod o hyd i gyflogaeth neu addysg. Mae lluoedd yn defnyddio'r tactegau hyn ar droseddwr sy'n cyflawni lladrad, byrgleriaeth neu ddwyn. Canfu HMIC, mewn nifer o luoedd, bod y cynllun wedi'i ymestyn i droseddwr sy'n cyflawni troseddau o drais, yn arbennig cyflawnwyr ailadrodd o gam-drin domestig. Mae hyn yn debygol o gynyddu diogelwch y cyhoedd ymhellach drwy leihau'r lefelau o droseddau treisgar.

Ymchwilio

- 2.32. Mae ymchwilio i drosedd yn swyddogaeth graidd yr heddlu. I fod yn effeithiol, dylai ymchwiliadau gael eu cynnal gan staff a hyfforddir yn briodol, a dylent gael eu cynllunio, a dylent fod yn drwyadl a chael eu goruchwyllo'n dda. Mae Arfer Broffesiynol Awdurdodedig (APP)²², y ffynhonnell swyddogol ynghylch arfer broffesiynol ar blismona, yn cyflwyno cyfarwyddyd i swyddogion yr heddlu ar sut i ymchwilio i drosedd. Disgwylir i swyddogion a staff yr heddlu ystyried APP wrth gyflawni eu cyfrifoldebau. Fodd bynnag, gallai fod amgylchiadau pan yw'n gyfreithlon i wyro o APP, cyhyd â bod rhesymau cadarn i wneud hynny.
- 2.33. Mae'n peri pryder i HMIC i ganfod bod 18 o luoedd angen gwella yn y ffordd maent yn ymchwilio i drosedd, yn arbennig mewn cysylltiad â sut maent yn cynnal ymchwiliadau cychwynnol megis casglu tystiolaeth (gan gynnwys deunydd CCTV [teledu cylch cyfyng] ac olion bysedd), nodi pobl a ddrwgdybir a darparu cymorth i ddioddefwyr. Nid yw hyn oherwydd absenoldeb cyfarwyddyd cymeradwy ar sut i ymchwilio i droseddau; mae oherwydd diffyg o ran siliau a phrofiad swyddogion sy'n ymchwilio i droseddau (megis byrgleriaeth ac ymosod) a diffyg goruchwyliaeth briodol. Erbyn hyn mae troseddau'n cael eu hymchwilio gan swyddogion sydd hefyd yn ymateb i alwadau am wasanaeth gan y cyhoedd


²² Arfer Proffesiynol Awdurdodedig, Coleg Plismona, Llundain (Dyddiadau amrywiol). Ar gael gan www.app.college.police.uk/

neu sy'n darparu gwasanaethau plismona yn y gymdogaeth megis patrolau, rhai ohonynt nad ydynt wedi ymchwilio i droseddau ers nifer o flynyddoedd.

Canlyniadau ymchwiliadau

- 2.34. Yn Ebrill 2014, lledaenwyd yr ystod o wybodaeth ar effeithiolrwydd gweithredoedd yr heddlu i gynnwys yr holl ganlyniadau, gan gynnwys, ymhlith eraill, pa mor aml y defnyddiodd yr heddlu atebion cymunedol. Cynlluniwyd y newid hwn i roi darlun gwell i'r cyhoedd o drosedd yn eu hardaloedd, a sut roedd yn cael ei drafod, ac er mwyn annog swyddogion yr heddlu i ddefnyddio eu disgrisiwn yn y ffordd maent yn delio â digwyddiad neu drosedd, yn hytrach na rhoi'r argraff mai dim ond erlyniad sy'n ddigon da i'w gofnodi. Nid oedd y data newydd ynghylch canlyniadau ar gael ar gyfer yr adroddiad hwn, ond fe'i defnyddir yn asesiadau PEEL y dyfodol.
- 2.35. Mae'r graff isod yn cyflwyno'r hyn a oedd yn hysbys o'r blaen fel cyfraddau datrys²³ ar draws lluoedd yng Nghymru a Lloegr yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2014. Mae'r llinell goch yn dangos y gyfradd ddatrys gyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae cyfraddau datrys yn amrywio o 51 y cant i 22 y cant.
- 2.36. Mae'r graff yn dangos, yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2014, mai dim ond un llu a gyflawnodd ddatrysiadau yn llwyddiannus mewn mwy na hanner y troseddau a gofnodwyd ganddo. Mae gan y cyhoedd yr hawl i ddisgwyl gwelliant ar y canlyniadau hyn.

Ffigur 2.2: Cyfraddau datrys yn ôl lluoedd yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2014.



²³ Ystyrir y canlyniadau dilynol: rhybuddiadau, hysbysiadau cosb benodedig, gwysion cyhuddiadau, troseddau a gymerir i ystyriaeth a rhybuddion canabis. Nid yw data ar ganlyniadau eraill a ddefnyddir gan lluoedd, er enghraifft datrysiadau cymunedol, ar gael ar hyn o bryd.

Safon ymchwiliadau

- 2.37. Mae arfer broffesiynol awdurdodedig yn darparu cyfarwyddyd eang ar y weithdrefn briodol ar gyfer diogelu safle trosedd, cadw tystiolaeth, nodi'r troseddwr a sefydlu'r prif ffeithiau wrth i'r heddlu gychwyn ymchwiliad. Mae cynnal y gweithgareddau hyn yn rhan graidd o waith swyddog yr heddlu ac mae'r cyfarwyddyd sydd ar gael yn cyflwyno'r arfer gymeradwy'n glir ar gyfer pob un o'r tasgau hyn.
- 2.38. Mae'n peri pryder mawr fod 18 o luoedd angen gwella yn y ffordd maent yn ymchwilio i droseddu. Mae swyddogion sy'n ymchwilio i droseddau'n cyflwyno sut y byddant yn mynd ati i ymchwilio mewn cynllun ymchwilio. Defnyddir cynlluniau ymchwilio gan swyddogion er mwyn penderfynu ar yr hyn mae angen iddynt ei wneud i gasglu'r holl dystiolaeth berthnasol ynghylch trosedd er mwyn adeiladu achos ar gyfer erlyn y troseddwr neu fynd ar ôl canlyniad arall (megis datrysiad cymunedol).
- 2.39. Edrychodd archwiliad trosedd HMIC ar safon ymchwiliadau trwy adolygu 20 o ffeiliau achos ymhob llu cyn yr archwiliadau o heddluoedd, a ffeiliau eraill yn ystod yr archwiliad. Er ei fod yn seiliedig ar sampl fach ac felly nid yw o angenrheidrwydd yn gynrychiadol o'r holl ymchwiliadau o fewn llu, canfu HMIC, mewn 18 o luoedd, fod cynlluniau ymchwilio o safon wael neu eu bod yn gwbl absennol. Esboniodd swyddogion eu bod yn copïo cynlluniau ymchwilio o fersiynau blaenorol yn aml. Mae hyn yn golygu, mewn rhai achosion, ei fod bron yn sicr bod swyddogion yn methu â chymryd i ystyriaeth lawn amgylchiadau unigol y trosedd a'r dioddefwr yn iawn.
- 2.40. Fe wnaeth archwiliad trosedd HMIC ganfod anghysondebau yn y ffordd y casglwyd tystiolaeth yn ystod camau cychwynnol ymchwiliad, gan gynnwys methiannau i wneud ymholiadau tŷ wrth dŷ, tynnu lluniau o anafiadau mewn achosion o ymosodiadau cam-drin domestig²⁴, neu gasglu tystiolaeth CCTV ar ymosodiadau mewn man cyhoeddus. Mae'r materion hyn i gyd yn peri pryder mawr. Mae cyfleoedd i sicrhau canlyniad llwyddiannus ar gyfer dioddefwyr trosedd yn cael eu colli o ganlyniad i fethiannau i gynnal ymchwiliad effeithiol, prydlon a phroffesiynol.
- 2.41. Er gwaethaf y pryderon hyn, gwelodd HMIC lawer o enghreifftiau o ymchwiliadau effeithiol, yn arbennig mewn achosion o droseddau lle defnyddir swyddogion ac adnoddau arbenigol, er enghraifft ymchwiliadau i lofruddiaeth neu droseddau difrifol a threfnedig.

²⁴ Canfyddiad sy'n atgyfnerthu casgliad cynharach HMIC (a gyflwynir yn yr adroddiad ar gam-drin domestig) bod gwendidau brawychus ac annerbyniol yn y ffordd y cesglir tystiolaeth gan swyddogion wedi iddynt gyrraedd safle cam-drin domestig.

Hyfforddiant a goruchwyliaeth

- 2.42. Mae HMIC yn poeni nad yw llawer o swyddogion sy'n ymchwilio i drosedd wedi derbyn hyfforddiant priodol ynghylch sut i gynnal ymchwiliadau neu nad ydynt wedi'u hachredu drwy'r rhaglen Proffesiynoli Arfer Ymchwilio²⁵. Mewn llawer o luoedd, mae swyddogion sydd fel arfer yn gyfrifol am ymateb i alwadau am wasanaeth gan y cyhoedd (argyfwng a heb fod yn argyfwng) yn cael eu gofyn i ymchwilio i droseddau heb dderbyn hyfforddiant ynghylch sut i wneud hynny. Mae angen i luoedd, gyda'r Coleg Plismona, fynd i'r afael â hyn a gwella'r ffordd yr hyfforddir swyddogion i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn iawn.
- 2.43. Mae swyddogion ymchwilio angen cymorth a goruchwyliaeth briodol os ydynt yn mynd i ymchwilio i drosedd yn effeithiol. Mae goruchwyliaeth effeithiol yn helpu swyddogion i wella eu sgiliau ymchwilio ac i ystyried cyfleoedd ar gyfer casglu tystiolaeth efallai na fyddent wedi'u hystyried o'r blaen. Goruchwyliaeth yw un o'r ffyrdd mae swyddogion mwy profiadol yn rhannu eu harbenigedd a gwybodaeth gyda swyddogion sy'n llai profiadol.
- 2.44. Dylai goruchwyliaeth fod yn rhan arferol o'r broses ymchwiliol. Dylai gefnogi yn hytrach na thynnu i ffwrdd ddisgresiwn proffesiynol y swyddog ymchwilio. Mewn 22 o luoedd, canfu HMIC oruchwyliaeth anghyson neu oruchwyliaeth o safon isel. Er bod swyddogion yn derbyn hyfforddiant gorfodol ar oruchwyliaeth yn fwy cyffredinol, nid yw hyn yn cynnwys y sgiliau sydd eu hangen i oruchwyllo ymchwiliadau ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i lawer o oruchwylwyr ddibynnu ar eu profiad eu hunain pan ydynt yn ceisio gwella ymchwiliadau maent yn gyfrifol amdanynt. Mae dwy brif broblem: swyddogion ymchwilio dibrofiad neu heb eu hyfforddi'n methu â chynnal ymchwiliadau effeithiol, a goruchwylwyr heb eu hyfforddi'n methu â goruchwyllo a chefnogi swyddogion yn rhagweithiol er mwyn gwella'r ffordd maent yn ymchwilio i drosedd. Mae hyn yn tanseilio effeithiolrwydd y broses ymchwilio droseddol yn y lluoedd hynny.

Plismona seiliedig ar dystiolaeth

- 2.45. I fod yn effeithiol, mae angen i luoedd ddeall a dysgu oddi wrth yr hyn sy'n gweithio ac asesu effeithiolrwydd y tactegau maent yn eu defnyddio. Dyma'r cynsail sylfaenol y tu ôl i arfer seiliedig ar dystiolaeth, sy'n galw ar swyddogion a lluoedd i ddadansoddi eu tactegau er mwyn deall pa rai oedd yn llwyddiannus o ran lleihau trosedd a pha rai nad oeddynt.
- 2.46. Hefyd mae dadansoddiad o'r hyn sy'n gweithio'n cael ei wneud ar raddfa genedlaethol. Mae'r Coleg Plismona, sy'n gyfrifol am osod y safonau ar gyfer arfer seiliedig ar dystiolaeth, yn cyfuno tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio ar ei

²⁵ Achrediad y Coleg Plismona ar gyfer ymchwilwyr.

wefan. Ar ben hynny, mae'r Coleg yn cefnogi'r Police On-Line Knowledge Area [Ardal Wybodaeth Ar-lein yr Heddlu] (POLKA), ystorfa ganolog o wybodaeth a chyfarwyddyd ar arfer dda, sydd ar gael i bob llu.

- 2.47. Yn ystod yr archwiliad trosedd, chwiliodd HMIC am dystiolaeth bod swyddogion a lluoedd yn dysgu oddi wrth eu profiadau eu hunain ac yn defnyddio dulliau da sefydledig o leihau trosedd er mwyn gwella'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu i'r cyhoedd. Enghraifft dda o hyn yw'r dechneg a elwir 'cocooning' [lapio]. Pan yw eiddo wedi'i fwrqlera, mae risg uchel y bydd yr eiddo hwnnw neu eiddo gerllaw yn cael ei fwrqlera hefyd yn y 24 awr yn dilyn y trosedd cyntaf. Mae'r Heddlu wedi gallu tarfu ar weithgarwch troseddol posibl trwy ddarparu cyngor targedig ynghylch atal trosedd i breswylwyr a chynnal patrolau yn yr ardal dan sylw. Erbyn hyn mae'r dechneg hon yn cael ei defnyddio gan y mwyafrif o luoedd a dangoswyd ei bod yn effeithiol ynghylch lleihau ac atal byrgleriaeth mewn eiddo preswyl.
- 2.48. Mae dystiolaeth bod rhai lluoedd yn sefydlu cysylltiadau â phrifysgolion ac academyddion i'w helpu i ddeall a datblygu eu cronfa dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Fodd bynnag, canfu HMIC lai o dystiolaeth i awgrymu bod swyddogion rheng flaen yn cyfeirio at y gronfa dystiolaeth hon wrth benderfynu ar ba gamau gweithredu i'w cymryd er mwyn atal a lleihau trosedd; nid ymddengys fod arfer seiliedig ar dystiolaeth yn rhan o feddwl bob dydd y mwyafrif o swyddogion rheng flaen na'u goruchwylwyr.
- 2.49. Mae gallu lluoedd i werthuso a dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n gyfyngedig. Mae angen i hyn wella'n sylweddol os yw lluoedd yn mynd i wella eu heffeithiolrwydd a chynnig gwasanaeth sydd yn gyson o safon uchel i ddiodefwrwr trosedd. Bydd HMIC yn monitro cynnydd yn y maes hwn yn ystod archwiliadau PEEL y dyfodol.

Pwerau, tactegau, galluogrwydd a hyfforddiant yr Heddlu

- 2.50. Ar y cyfan mae lluoedd yn defnyddio'r pwerau cyfreithiol arbennig sydd ar gael iddynt ar gyfer atal a lleihau trosedd i berwyl da. Er enghraifft, mae gorchmynion amddiffyn trais domestig yn caniatáu i'r heddlu ac ynadon roi mesurau amddiffyn yn eu lle ar gyfer diodefwrwr yn ystod canlyniadau uniongyrchol digwyddiad o gam-drin domestig.
- 2.51. Canfu archwiliad trosedd HMIC dystiolaeth bod lluoedd yn gwneud defnydd da o fesurau ataliol i droi troseddwrwr cyson i ffwrdd o drosedd, er enghraifft, cynlluniau tagio gwirfoddol a darparu cymorth i'r rhai hynny â dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. Hefyd canfu HMIC fod cynnydd wedi bod o ran arestiadau er mwyn amddiffyn y diodefwrwr mwyaf bregus, er enghraifft mewn achosion o gam-drin domestig. Mae'r defnydd effeithiol o bwerau'n arbennig o amlwg o fewn unedau canfod arbenigol, sy'n gwneud defnydd o fesurau arbennig megis gorchmynion amddiffyn trosedd rhywiol a gorchmynion amddiffyn cam-drin

domestig. Fodd bynnag, dylid gwneud mwy i wella'r wybodaeth a defnydd o'r fath bwerau ymhlith swyddogion y tu allan i'r timau canfod penodedig hyn.

Galluogrwydd

- 2.52. Mae'r heddlu'n gwneud gwaith anodd a pheryglus; gelwir arnynt i'w rhoi eu hunain mewn sefyllfaoedd lle gallent ddioddef niwed er mwyn amddiffyn y cyhoedd. Unwaith eto, mae HMIC yn llawn gymeradwyo dewrder, cryfder, gonestrwydd a chadernid swyddogion a staff yr heddlu. Drwy'r amser bydd gan y cyhoedd ddyled o ddiolchgarwch am y cyfraniad maent yn ei wneud at gadw cymunedau'n ddiogel.
- 2.53. Edrychodd HMIC ar nodweddion craidd swyddog effeithiol. Mae hyn yn gyfuniad o'r rhinweddau a phriodoleddau personol a restrir yn y paragraff blaenorol, yn ogystal â sgiliau profiad ac achrediad proffesiynol, mynediad i gyfarpar priodol (megis mynediad i arfwisg corff ac i wybodaeth trwy TG symudol), a mynediad i gymorth ac adnoddau arbenigol (megis swyddogion safle trosedd sy'n gallu cael tystiolaeth oddi wrth safleoedd trosedd).
- 2.54. Nid yw'r gwasanaethau cymorth fforensig sydd ar gael i swyddogion wedi cadw i fyny â'r ffyrdd mae troseddau'n cael eu cyflawni erbyn hyn. Mae hyn yn arbennig o wir mewn cysylltiad â thechnoleg. Dywedodd swyddogion wrth HMIC, yn y mwyafrif o archwiliadau, bod angen iddynt allu adennill data a gwybodaeth oddi wrth ddyfeisiau digidol a atafaelir (naill ai'n ffôn symudol, llechen neu gyfrifiadur) mewn ffyrdd sy'n cwrdd â safonau tystiolaeth sy'n dderbyniol mewn llys. Gwneir hyn gan staff hyfforddedig ac arbenigol. Adroddodd swyddogion am oedi sylweddol wrth dderbyn tystiolaeth oddi wrth ddyfeisiau digidol. Gall absenoldeb y dystiolaeth hon achosi oedi annerbyniol mewn ymchwiliadau ac erlyniadau. Mae'r broblem hon yn cael effaith niweidiol ar allu swyddogion i ymchwilio i droseddau sy'n effeithio ar y cyhoedd bob dydd. Nid yw'n dderbyniol nad yw deunydd tystiolaethol sy'n digwydd cael ei storio'n ddigidol fod ar gael i swyddogion ymchwilio am wythnosau, ac weithiau misoedd, wedi'r trosedd.

Hyfforddiant

- 2.55. Dywedodd swyddogion mewn 42 o luoedd wrth HMIC nad yw pecynnau dysgu ar-lein yn cwrdd â'u hanghenion. Dywedont bod dysgu ar-lein yn cyfyngu ar y cyfleoedd i swyddogion siarad â'i gilydd yn ystod hyfforddiant a herio'u barnau ei gilydd. Mae HMIC yn cytuno â'r dadansoddiad hwn; dylai hyfforddiant effeithiol ddarparu cyfleoedd i swyddogion ddadansoddi eu hagweddau ac ymddygiadau, yn ogystal â rhai eu cyfoedion, trwy ryngweithio gyda'u cydweithwyr a goruchwylwyr. Tra bod lle ar gyfer dysgu ar-lein, ni ddylai fod yr unig ddull i hyfforddi neu ddysgu. Canfu HMIC fod lluoedd yn dibynnu'n ormodol arno.

2.56. Mae rhai lluoedd wedi mynd y tu hwnt i ddefnyddio dysgu ar-lein ac wedi buddsoddi mewn hyfforddiant rhyngweithiol a, mewn rhai achosion, hyfforddiant arloesol ar gyfer swyddogion. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys gwahodd pobl â phroblemau iechyd meddwl i gymryd rhan mewn hyfforddiant chwarae rôl er mwyn helpu trafodwyr galwadau i ddeall sut brofiad yw cysylltu â'r heddlu, a gwahodd pobl ifanc i gymryd rhan mewn hyfforddiant i helpu swyddogion i ddeall sut brofiad yw cael eich stopio a'ch chwilio'n gyhoeddus gan yr heddlu. Mae angen i'r Coleg Plismona weithio gyda lluoedd er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio dulliau cost-ffeithiol, seiliedig ar dystiolaeth, i hyfforddi swyddogion a staff yn effeithiol.

Arweinyddiaeth a blaenoriaethau

- 2.57. Wrth gynhyrchu eu cynlluniau heddlu a throsteddu lleol, mae'n ofynnol i gomisiynwyr heddlu a throsteddu²⁶ ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr hyn sy'n bwysicaf iddynt. Mae angen i luoedd hefyd gyfathrebu â'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu, er mwyn adeiladu ymddiriedaeth a hyder. Mae gofyn i bobl leol beth sy'n bwysicaf iddynt yn helpu lluoedd i ymateb i flaenoriaethau lleol a chasglu cudd-wybodaeth oddi wrth y gymuned. Gall hyn helpu i atal trosedd a dwyn troseddwyr i gyfiawnder. Canfu HMIC fod lluoedd yn datblygu dealltwriaeth o'r bygythion neilltuol maent yn eu hwynebu, ac wedi ymgynghori â'u cymunedau ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt. Fodd bynnag, er bod y mwyafrif o luoedd yn effeithiol o ran trosglwyddo negeseuon i'r gymuned am y camau gweithredu maent wedi eu cymryd er mwyn atal a lleihau trosedd (gan gynnwys trwy ddefnyddio cyfarfodydd cymunedol a'r cyfryngau cymdeithasol), mae gan lai o luoedd systemau effeithiol ar gyfer gwranddo ar safbwyntiau'r gymuned mewn ffordd a allai gael effaith fuddiol ar y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.
- 2.58. Mae prif gwnstabiliaid a'u timau o brif swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod gweithgarwch gweithredol yn adlewyrchu'n ddyledus y blaenoriaethau a gyflwynir yn y cynllun heddlu a throsteddu²⁷. Chwiliodd HMIC am dystiolaeth ynghylch pa mor dda y cyfathrebir y blaenoriaethau hyn i swyddogion a staff ac a yw'r blaenoriaethau'n cael eu hadlewyrchu yng ngweithgarwch dyddiol swyddogion heddlu. Yn gyffredinol, mae swyddogion yn ymwybodol o flaenoriaethau eu lluo ac o'u rolau eu hunain wrth reoli'r risgiau a bygythion a allai achosi niwed i'r cyhoedd. Hefyd canfu HMIC, yn y mwyafrif o luoedd, bod arweinwyr yn sicrhau yr alinir y gweithgareddau mae eu swyddogion yn ymgymryd â hwy i

²⁶ Neu lle mae'n berthnasol, cyrff plismona lleol megis Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throstedd ar gyfer yr Heddlu Metropolitaidd, a Chyngor Cyffredin Dinas Llundain ar gyfer Heddlu Dinas Llundain.

²⁷ O dan adran 8 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, wrth gynnal ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r prif gwnstabl ystyried y cynllun heddlu a throsteddu a gyhoeddir gan ei gomisiynydd heddlu a throsteddu o dan adran 5 y Ddeddf honno.

flaenoriaethau'r llw. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y lluoedd hynny lle mae gweithgarwch yn canolbwyntio ar amddiffyn y bobl fwyaf bregus.

- 2.59. Yn dilyn penderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref yn 2010 i ddiddymu targedau a sefydlir yn ganolog ar gyfer yr heddlu, mae lluoedd wedi bod yn symud i ffwrdd o'r system a yrrir gan dargedau, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar leihau byrgleriaeth, dwyn a throeddau â cherbydau. Mae arweinwyr o fewn yr heddlu'n gweithio i symud ffocws swyddogion a staff at yr hyn sy'n achosi'r niwed mwyaf mewn cymunedau. Mae hyn yn golygu bod swyddogion yn cael eu gofyn nid yn unig i edrych ar y troeddau a gyflwynir iddynt, ond hefyd i ymateb i'r effaith ar y dioddefwr a'i anghenion unigol, yn arbennig pan ydynt yn fregus.
- 2.60. Mae llawer o swyddogion yn croesawu'r symudiad hwn i ffwrdd o anelu at dargedau ac yn datgan eu bod yn "gallu gwneud y peth iawn". Fodd bynnag, bydd angen i luoedd ddatblygu dulliau newydd o fonitro effeithiolrwydd neu fel arall y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd, gan symud at system fwy soffistigedig i fonitro perfformiad nad yw'n gosod targedau a chyfrif troeddau'n unig²⁸. Mae'n rhaid i'r dulliau hyn gael eu cyfathrebu'n iawn i swyddogion rheng flaen fel eu bod yn gwybod yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Heb yr eglurder hwn, bydd goruchwylwyr yn ei gael yn anodd sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud yn y ffordd mae swyddogion rheng flaen yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Ymddygiad gwrthgymdeithasol

- 2.61. Canfu archwiliad trosedd HMIC dystiolaeth o welliant parhaol a thrawiadol yn y ffordd mae lluoedd yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ers archwiliad diwethaf HMIC ar y pwnc hwn yn 2012²⁹. Nid yw mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn berthynas tlawd mewn plismona bellach. Gall swyddogion a staff nodi dioddefwyr bregus neu ddioddefwyr ailadrodd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r heddlu'n gweithio'n effeithiol gyda chyrrff eraill i ddefnyddio'r pwerau cyfreithlon sydd ar gael iddynt er mwyn lleihau digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ar adeg yr archwiliad, roedd gan yr holl luoedd gynlluniau yn eu lle i ddarparu hyfforddiant, neu roeddynt wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant i swyddogion ar y pwerau newydd ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol a grëwyd gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

²⁸ Mae risgiau sy'n gysylltiedig â dulliau syml o osod targedau i reoli perfformiad yn cynnwys yr heddlu'n mynd ar ôl troeddau ar sail rhwyddineb eu datrys, yn hytrach na'u difrifoldeb, neu eu heffaith ar dioddefwyr neu gymunedau.

²⁹ A Step in the Right Direction: The policing of anti-social behaviour, HMIC, Llundain, 2012. Ar gael gan www.justiceinspectores.gov.uk/hmic

- 2.62. Mae bron i bob un o'r lluoedd yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel blaenoriaeth, ac wedi gwneud hynny ers 2012. Yn y mwyafrif o'r lluoedd, mae cydnabyddiaeth o bwysigrwydd delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn amlwg drwy gydol y gweithlu. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol ac mae HMIC yn canmol y gwelliant mae lluoedd yn ei wneud.
- 2.63. Edrychodd HMIC ar effeithiolrwydd lluoedd ynghylch nodi ac asesu bregusrwydd a darparu cymorth i bobl fregus sy'n dioddef oherwydd effeithiau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Y tro diwethaf i HMIC archwilio'r maes hwn yn 2012, nodwyd y gallu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel gwendid arwyddocaol ar draws yr heddlu. Mae gallu lluoedd i asesu ac ymateb i fregusrwydd dioddefwyr wedi gwella'n sylweddol. Mae HMIC yn fodlon iawn bod cynnydd wedi'i wneud a bod lluoedd erbyn hyn yn nodi bregusrwydd dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn gweithredu'n briodol i ymyrryd yn gynnar er mwyn cadw'r dioddefwyr hyn yn ddiogel.
- 2.64. Mae HMIC yn llawn edmygedd am y ffordd mae'r heddlu'n gweithio gyda darparwyr tai erbyn hyn, yn gofyn iddynt i ddefnyddio eu pwerau ynghylch tenantiaethau i annog pobl i gydymffurfio â'r gyfraith, yn hytrach nag yn dibynnu ar bwerau gorfodi'r heddlu. Dywedodd swyddogion wrth HMIC fod y bygythiad o dderbyn gorchymyn troi allan yn cael mwy o effaith ar ymddygiad rhywun sy'n achosi problemau yn y gymuned na'r bygythiad o ddefnyddio deddfwriaeth arall, megis pwerau blaenorol ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 2.65. Fodd bynnag, canfu HMIC anghysondebau o ran y ffordd mae lluoedd yn defnyddio dadansoddiad o effeithiau'r tactegau a ddefnyddir i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Lle mae'n gweithio'n dda, mae lluoedd yn defnyddio dadansoddiad i nodi ardaloedd â phroblemau ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn addasu eu cynlluniau ar gyfer patrolau er mwyn canolbwyntio ar yr ardaloedd hyn, ac yn defnyddio dadansoddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol wrth fonitro perfformiad ar draws y llu. Mae rhai lluoedd hefyd yn cynnal arolygon o fodlonrwydd dioddefwyr ar ymateb yr heddlu, er bod llai o dystiolaeth bod yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd.
- 2.66. Mae rhai lluoedd yn gwneud ymdrech bendant i ddatrys achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol y tu allan i'r llys, er enghraifft trwy fabwysiadu ymagwedd o gyfiawnder adferol sy'n defnyddio technegau cyfryngu a arweinir gan y dioddefwr er mwyn dod â'r troseddwr a'r dioddefwr at ei gilydd i drafod effaith trosedd a darparu cyfle i'r troseddwr ymddiheuro'n uniongyrchol i'r dioddefwr. Mae'r dechneg hon, sy'n hysbys hefyd fel datrys yn y gymuned, yn rhan o'r fframwaith newydd ar gyfer canlyniadau trosedd, ac mae ar gael i bob llu ei defnyddio. Yn y mwyafrif o achosion, goruchwylir y defnydd o'r dulliau hyn gan baneli craffu sy'n cynnwys aelodau annibynnol o'r tu allan i'r heddlu, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol.

Cam-drin domestig

- 2.67. Ym mis Mawrth 2014, fe wnaeth HMIC amlygu effaith agweddau arweinwyr heddluoedd ar yr ymateb a dderbynnir gan ddioddefwyr cam-drin domestig³⁰. Fodd bynnag, canfu HMIC, yn y mwyafrif o luoedd, roedd yn peri gofid bod diffyg arweinyddiaeth weladwy neu unrhyw gyfeiriad clir gan uwch-swyddogion ar gam-drin domestig.
- 2.68. Yn ystod yr archwiliad cam-drin domestig gan HMIC, dywedodd pob llu wrth HMIC bod mynd i'r afael â cham-drin domestig yn flaenoriaeth yn eu hardaloedd, ond yn y mwyafrif o luoedd canfu HMIC fod hyn yn wir ar bapur ond nid mewn ymarfer. Roedd hyn yn amlwg o fframweithiau rheoli perfformiad a oedd yn blaenoriaethu byrgleriaeth a throseddau â cherbydau. Ymhellach, methodd llawer o luoedd â chydabod neu wobrwyo swyddogion a staff am eu gwaith gyda dioddefwyr cam-drin domestig neu eu gwaith a anelwyd at fynd i'r afael â throseddwyr ailadrodd cam-drin domestig. Mae'r canfyddiadau hyn yn peri pryder sylweddol.
- 2.69. Yn ei adroddiad ar gam-drin domestig gwnaeth HMIC argymhellion ynghylch yr hyn mae angen i luoedd ei wneud i wella eu hymateb i gam-drin domestig. Argymhellodd HMIC y dylai pob llu gyhoeddi cynllun gweithredu sy'n cyflwyno'n fanwl pa gamau y bydd yn eu cymryd i wella ei ymateb i gam-drin domestig a mynd i'r afael â gwendidau pwysig mewn plismona craidd yn hyn o beth. Hefyd argymhellodd HMIC y dylai prif gwnstabiliaid adolygu sut maent hwy, a'u huwch-swyddogion, yn rhoi effaith lawn i flaenoriaeth ddatganedig eu llu ar gam-drin domestig er mwyn sicrhau bod y flaenoriaeth hon yn troi'n iawn yn weithgarwch gweithredol.
- 2.70. Edrychodd archwiliad trosedd HMIC eto ar sut mae lluoedd yn ymateb i alwadau am wasanaeth gan y cyhoedd ynghylch cam-drin domestig. Mae'n galonogol, rhyw chwe mis wedi'r archwiliad gwreiddiol, bod HMIC wedi gweld gwelliant canmoladwy yn y pwyslais mae llawer o luoedd yn ei osod ar gam-drin domestig. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i sicrhau bod yr holl luoedd yn delio â cham-drin domestig yn effeithiol, a bydd HMIC yn dychwelyd i adolygu ymatebion lluoedd yn fanwl flwyddyn nesaf.

³⁰ *Everybody's Business: Improving the police response to domestic abuse*, HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

Dioddefwyr a bregusrwydd

Bodddhad gyda'r heddlu

- 2.71. Mae'r Swyddfa Gartref yn galw ar luoedd i gynnal arolygon rheolaidd er mwyn mesur pa mor fodlon mae dioddefwyr trosedd ar eu profiad o'r heddlu. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i luoedd arolygu dioddefwyr byrgleriaeth preswyl, troseddau â cherbydau, trais ac , ar wahân, digwyddiadau hiliol yn unig. Yn flaenorol, mae HMIC wedi argymhell y dylai'r Swyddfa Gartref sicrhau bod data cyson a chymaradwy ar fodlondeb dioddefwyr ar gael ar draws ystod ehangach o droseddau³¹. Mae HMIC yn ystyried y byddai hyn yn helpu lluoedd i asesu eu heffeithiolrwydd yn fwy trwyadl, yn arbennig gallu lluoedd i nodi a mynd i'r afael â bregusrwydd.
- 2.72. Mae cyfraddau bodlondeb dioddefwyr ar gyfer y rhai hynny a effeithir gan fyrgleriaeth preswyl, troseddau â cherbydau, a thrais yn gyson o uchel ar draws Cymru a Lloegr³². Fodd bynnag, mae amrywiadau sylweddol ar draws lluoedd (rhwng oddeutu 80 y cant a 90 y cant), sy'n peri rhywfaint o bryder.

Systemau ar gyfer cymorth i ddiodeswyr a hyfforddiant arno

- 2.73. Mae'r Cod Ymarfer i Ddiodeswyr Troseddau yn galw ar yr heddlu a sefydliadau eraill i ddarparu cymorth i ddiodeswyr, a chafodd ei gyflwyno'n gyntaf yn 2005. Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd Y Weinyddiaeth Gyfiawnder God Ymarfer diwygiedig i Ddiodeswyr Troseddau³³. Mae'r Cod newydd yn cyflwyno'r hyn mae gan ddiodeswyr hawl iddo gan yr heddlu a gan sefydliadau cyfiawnder troseddol eraill megis y llysoedd. Mae gan ddiodeswyr sy'n fregus (er enghraifft, oherwydd eu hoedran neu oherwydd eu bod wedi'u herlid o'r blaen) yr hawl i dderbyn lefelau uwch o gymorth gan yr heddlu.
- 2.74. Ystyriodd HMIC a yw lluoedd wedi gweithredu systemau a hyfforddiant i sicrhau bod swyddogion yn darparu cymorth priodol i ddiodeswyr. Yn ystod hynt yr archwiliadau trosedd, cwrddodd HMIC â llawer o gannoedd o swyddogion ymroddedig, sy'n gweithio'n galed, a ddisgrifiodd eu hangerdd a'u hymrwymiad i ddarparu cymorth i ddiodeswyr. Mae swyddogion a staff yn cael eu hysgogi gan y dymuniad i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei gyflawni ar ran y diodeswyr

³¹ Yn *Everybody's business: Improving the police response to domestic abuse*, HMIC, Llundain, 2014, tudalen 21. Ar gael gan www.justiceinspectors.gov.uk/hmic

³² Mae'r nifer fach o ddiodeswyr digwyddiadau hiliol a arolygwyd ar gyfer rhai lluoedd yn golygu nad yw cymariaethau'n gadarn.

³³ Cod Ymarfer i Ddiodeswyr Troseddau, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain, 2013. Ar gael gan www.gov.uk

maent yn eu cefnogi, er enghraifft, trwy atal troseddau yn y dyfodol a mynd ar ôl erlyniadau lle mae'n briodol.

- 2.75. Mae'r holl luoedd wedi gosod systemau yn eu lle ar gyfer sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn gwybodaeth am eu hachosion a chyswllt rheolaidd gan yr heddlu. Mae'r holl luoedd yn sicrhau bod hyfforddiant ar y Cod ar gael i swyddogion. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o luoedd yn defnyddio pecyn hyfforddiant ar-lein i hysbysu swyddogion o newidiadau i'r Cod a, bron heb eithriad, dywedodd swyddogion wrth HMIC fod hon yn ffordd aneffeithiol o ddarparu hyfforddiant ynghylch sut i gefnogi dioddefwyr.
- 2.76. Er bod llawer o'r dystiolaeth i HMIC ei chanfod ar yr archwiliad trosedd ynghylch ymwybyddiaeth swyddogion o'r Cod yn gadarnhaol, mae'n peri pryder i HMIC i ganfod bod nifer o'r systemau a gynllunnir i sicrhau bod swyddogion yn gwneud cyswllt priodol a rheolaidd gyda dioddefwyr yn cael eu gweld gan swyddogion fel ymarferion 'ticio'r blwch' mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â hwy. Yn yr un modd, pan ofynnwyd i rai swyddogion am y Cod, gallent ddisgrifio'r broses neu system roedd rhaid iddynt gydymffurfio â hi, ond ni allent esbonio beth mae gwasanaeth da sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr yn ei olygu mewn gwirionedd, ac yn benodol sut y dylent fynd ati i gadw mewn cysylltiad â dioddefwyr a helpu i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n iawn a'u bod yn derbyn gwybodaeth am eu hachosion. Yn rhy aml, mae swyddogion yn gweld cyswllt â dioddefwyr fel gofyniad biwrocraataidd arall yn unig. Mae tystiolaeth o arolwg ffeil HMIC ac ymweliadau dirybudd â gorsafoedd heddlu'n cefnogi hyn; mae cyswllt â dioddefwyr yn amrywiol ac yn annerbyniol o anghyson o fewn ac ar draws llawer o luoedd fel ei gilydd.
- 2.77. Hefyd canfu adroddiad HMIC ar gam-drin domestig dystiolaeth o ddiwylliant lle mae swyddogion yn cydymffurfio â'r systemau sydd yn eu lle, yn hytrach nag un o empathi a dealltwriaeth gyda'r dioddefwr a'i ddiogelu. O ganlyniad, mae gormod o enghreifftiau lle mae dioddefwyr cam-drin domestig yn teimlo nad ydynt yn cael eu cymryd o ddifri na'u credu.

Bregusrwydd

- 2.78. Mae'n bwysig bod swyddogion heddlu'n cael eu hyfforddi'n iawn i allu nodi bregusrwydd dioddefwr a gwerthfawrogi'r pwysigrwydd o ddeall yr amgylchiadau y gallai dioddefwr trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn fregus ynddynt. Gall hyn helpu swyddogion i ymyrryd yn gynnar a gweithredu i atal problemau rhag digwydd, a sefydlu pryd y gallai fod angen mesurau arbennig³⁴ os bydd yr unigolyn bregus yn dod yn dyst mewn achos troseddol. Mae hon yn agwedd bwysig ar effeithiolrwydd llw.
- 2.79. Mae gan luoedd sy'n fwyaf effeithiol o ran nodi bregusrwydd drafodwyr galwadau wedi'u hyfforddi'n dda sy'n defnyddio cwestiynau safonol i gael gwybodaeth ar y cyswllt cyntaf. Cedwir gwybodaeth ar system gofnodi digwyddiadau'r llw a threfnir ei bod ar gael i bobl eraill a allai ddod i gysylltiad â'r dioddefwr. Mae HMIC yn poeni bod llawer o luoedd yn dal i storio gwybodaeth ynghylch bregusrwydd a risg ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol ar wahân i wybodaeth ynghylch trosedd. Mae hyn yn golygu efallai na fydd gan swyddogion fynediad i wybodaeth berthnasol a phwysig am ddiodefwyr bob tro ar yr adegau ac o dan yr amgylchiadau pan yw angen yr wybodaeth.
- 2.80. Mae HMIC yn canmol lluoedd am eu bod wedi cyflwyno cwestiynau strwythuredig i drafodwyr galwadau eu defnyddio er mwyn sefydlu a yw galwr yn fregus ac mewn angen ymateb gan yr heddlu. Hefyd mae'r mwyafrif o luoedd yn gallu nodi galwyr sydd wedi bod yn ddiodefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r blaen, er bod rhai lluoedd yn dal i fod heb y gallu hwn neu heb ei ddefnyddio'n gyson. Mae hwn yn fater sy'n peri pryder difrifol mae angen i luoedd fynd i'r afael ag ef.
- 2.81. Bydd HMIC yn cynnal archwiliadau ynghylch bregusrwydd yn gynnar yn 2015, yn ôl methodoleg PEEL, a fydd yn arwain at ddyfarniadau graddedig.

Camfanteisio'n rhywiol ar blant

- 2.82. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn achosi niwed difrifol i rai o'r aelodau mwyaf bregus yn ein cymuned. Mae adroddiadau diweddar gan HMIC a chyrrff eraill wedi beirniadu'r heddlu'n gywir mewn cysylltiad â safon wael ymchwiliadau, triniaeth o ddiodefwyr a diffyg cyffredinol o ymwybyddiaeth o sut i nodi a mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

³⁴ Cynllunnir mesurau arbennig i'w wneud yn haws i ddiodefwyr bregus gymryd rhan yn y broses gyfiawnder troseddol. Maent yn cynnwys gofyn i farnwyr dynnu wigiau a rhoi tystiolaeth y tu ôl i i sgriniau yn y llys neu drwy gysylltiad fideo

- 2.83. Edrychodd archwiliad trosedd HMIC ar nodi bregusrwydd a thriniaeth o ddioddefwyr gan yr heddlu. Clywodd HMIC dystiolaeth gan swyddogion o bwyslais cynyddol ar fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Erbyn hyn mae gan y mwyafrif o luoedd gynlluniau yn eu lle i nodi'r rhai hynny sy'n fregus ac i ddwyn troseddwr i gyfiawnder. Canfu HMIC dystiolaeth glir o lawer o luoedd yn aildrefnu eu hadnoddau i wella eu gallu i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Hefyd gwelodd HMIC dystiolaeth o'r heddlu'n gweithio gyda sefydliadau eraill trwy hyfforddiant amlasiantaethol i wella ymwybyddiaeth swyddogion ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant a sut i ymateb iddo. Mae llawer o luoedd wedi rhedeg gweithrediadau i fynd i'r afael â'r broblem hon ac wedi sefydlu timau penodedig i ddelio'n benodol ag archwiliadau a dioddefwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant.
- 2.84. Fodd bynnag, mae'n glir i HMIC bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn dal i gael ei drin mewn modd anghyson, o fewn lluoedd unigol a ledled y wlad ill dau. Mae gwahaniaethau sylweddol o ran lefelau dealltwriaeth swyddogion ynghylch y trosedd hwn. Hefyd ymddengys fod y ffocws ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar lefel uwch yn cymryd cryn dipyn o amser i droi'n weithgarwch a gweithrediadau gwirioneddol. Nid yw hyn yn dderbyniol. Bydd HMIC yn dal i archwilio'r maes hwn yn ddyfnach flwyddyn nesaf.

Ymateb i fygythiadau rhanbarthol a chenedlaethol

- 2.85. Mae'r gofyniad plismona strategol (SPR³⁵) yn cyflwyno'r hyn mae angen i'r heddlu ei wneud er mwyn ymdopi â bygythion sy'n rhy fawr i gael eu trafod gan heddlu sengl, megis terfysgaeth, argyfyngau sifil, troseddau difrifol a threfnedig, bygythion trefn gyhoeddus a digwyddiadau o seiberdroseddu ar raddfa fawr.
- 2.86. Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd HMIC ei adroddiad³⁶ ar y trefniadau sydd yn eu lle gan yr heddlu i gwrdd â'r SPR. Asesodd yr archwiliad SPR gapasiti cenedlaethol cyfun lluoedd i ymateb i'r fath fygythion a'r ystyriaeth roedd prif gwnstabiailid wedi'i rhoi i'r cyfraniadau roedd angen i'w lluo eu hunain eu gwneud. Ystyriodd yr archwiliad y galluoedd roedd angen i luoedd unigol eu cynnal er mwyn darparu ymateb priodol i'r bygythion hynny; y cysondeb ar draws lluoedd ar y prif alluoedd arbenigol oedd eu hangen; a'r trefniadau oedd yn eu lle gan luoedd er mwyn sicrhau y gallent weithio gyda lluoedd neu asiantaethau eraill mewn ffordd gydgysylltiedig.

³⁵ Gofyniad Plismona Strategol, Y Swyddfa Gartref, Llundain, 2011. Ar gael gan www.gov.uk

³⁶ *The Strategic Policing Requirement: An inspection of the arrangements that police forces have in place to meet the Strategic Policing Requirement*, HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

- 2.87. Canfu HMIC bod capasiti a galluogrwydd yr heddlu i ymateb i fygythion cenedlaethol yn gryfach mewn cysylltiad â rhai bygythion nag eraill. Roedd y gallu i ymateb i fygythion seiber heb ei ddatblygu'n ddigonol o bell ffordd. Yn gyffredinol, roedd yr heddlu heb ymagwedd a oedd wedi'i hegluro'n iawn tuag at yr SPR, a oedd yn peri siomedigaeth, ddwy flynedd wedi'i gyhoeddi. Yn arbennig, canfu HMIC nad oedd y Gofyniad Plismona Cenedlaethol (NPR³⁷, a ysgrifennwyd gan yr heddlu i esbonio sut dylai lluoedd ymateb i'r SPR), yn cael ei ddefnyddio fel y'i bwriadwyd. Roedd lluoedd yn ansicr ynghylch a oedd yr NPR yn gyfredol a chwestiynwyd ei werth. O ganlyniad, canfu HMIC ond ychydig o dystiolaeth ei fod yn cael ei ddefnyddio i sefydlu ymateb casgliadol ac effeithiol i fygythion cenedlaethol.
- 2.88. Roedd yn glir bod prif gwnstabiliaid yn rhoi ystyriaeth i'r SPR, ond mae angen i luoedd wneud mwy i sicrhau y gallant ymateb i fygythion cenedlaethol yn y ffyrdd ac ar y lefelau o gapasiti a galluogrwydd mae'r SPR eu hangen. Yn yr adroddiad, argymhellodd HMIC y dylai prif gwnstabiliaid sefydlu ymagwedd gasgliadol ar unwaith er mwyn sicrhau y cyflawnir y lefelau gofynnol mewn ffordd gyson ledled Cymru a Lloegr.

Casgliadau

- 2.89. Mae lluoedd yn gweithio'n dda i helpu i atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae digwyddiadau o drosedd wedi dal i ostwng yn ystod blynyddoedd diweddar, ac mae cyfraddau bodlondeb dioddefwyr wedi aros yn gyson o uchel. Mae lluoedd yn gwneud defnydd priodol o'r tactegau a phwerau sydd ar gael iddynt, ac maent yn canolbwyntio ar y problemau sy'n fwy tebygol o achosi niwed yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Mae'r heddlu'n dal i ddatblygu a defnyddio eu perthnasau â sefydliadau megis awdurdodau lleol, er mwyn mynd i'r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae HMIC yn cydnabod nad yw llawer o droseddau'n cael eu cofnodi bob tro neu nas cofnodir o gwbl. Mae'r heddlu'n wynebu her sylweddol ynghylch safon a chywirdeb cofnodi troseddau. Ar ben hynny, mae llawer o droseddau cudd bondigrybwyll nad yw'r heddlu'n ymwybodol ohonynt. Gall y rhain gynnwys troseddau megis camfanteisio'n rhywiol ar blant lle nad yw dioddefwyr yn ymwybodol bod trosedd wedi'i gyflawni, neu lle maent yn rhy ofnus i adrodd amdano wrth yr heddlu, a throseddau megis y rhai hynny sy'n digwydd ar-lein.

³⁷ Gofyniad Plismona Cenedlaethol, Coleg Plismona, Llundain, 2012. Ar gael gan www.college.police.uk

- 2.90. Mae'r cyhoedd yn cael gwasanaeth da mewn cysylltiad ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae hwn wedi gwella'n sylweddol ers 2012, y tro diwethaf i HMIC gyhoeddi adroddiad ar y pwnc hwn. Yn gynyddol, mae'r heddlu'n gallu nodi pobl a allai fod yn fregus, a darparu cymorth i ddioddefwyr sy'n briodol ar gyfer eu hamgylchiadau unigol.
- 2.91. Mae'r holl luoedd wedi cyflwyno hyfforddiant a systemau i helpu swyddogion a staff i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau. Fodd bynnag, mae safon a chysondeb cyswllt â dioddefwyr yn amrywiol, ac mae angen i luoedd gynyddu eu ffocws ar empathi a diogelu – gan osod dioddefwyr wrth galon yr hyn maent yn ei wneud – yn ogystal â chydymffurfio â gofynion gweithdrefnol.
- 2.92. Mewn gormod o bethau, nid yw'r heddlu'n ddigon effeithiol ynghylch ymchwilio i drosedd. Mae angen i 18 o luoedd o'r 43 wella'r ffyrdd maent yn eu defnyddio i ymchwilio i drosedd. Yn arbennig, mae safon ymchwilio gychwynnol yn is na'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl yn rhesymol. Mewn rhai lluoedd, mae rhai swyddogion heb y sgiliau a hyfforddiant mae arnynt eu hangen i gynnal ymchwiliadau trwyadl, ac nid oes ganddynt fynediad digonol at gymorth arbenigol, megis gwaith fforensig.
- 2.93. Hefyd mae angen i luoedd wneud defnydd ehangach o dystiolaeth i hysbysu eu hymagweddau tuag at fynd i'r afael â throedd, a datblygu eu gallu i werthuso effaith eu gwaith ar drosedd. Bydd hyn yn gwella ymhellach y safon o wasanaeth mae'r heddlu'n ei ddarparu i'r cyhoedd.
- 2.94. Mae prif swyddogion yn rhoi ystyriaeth i'r Gofyniad Plismona Strategol, ond mae angen i luoedd wneud llawer mwy i gyflawni'r lefelau parodrwydd sydd eu hangen iddynt ymateb yn gasgliadol i'r holl fygythion cenedlaethol mae'r SPR yn ymwneud â hwy.

Effeithlonrwydd

Crynodeb

Fe amcangyfrifodd heddluoedd amcangyfrif bod yn rhaid iddynt wneud arbedion o £2.53 biliwn dros gyfnod yr adolygiad cyfredol o wariant. Hyd yn hyn, maent yn cwrdd â'r her hon; mae HMIC yn canmol y gwaith sydd wedi helpu i gyflawni hyn.

Mae lluoedd yn amddiffyn ond nid yn cadw'r rheng flaen - rhwng Mawrth 2010 a Mawrth 2015 bwriedir y bydd y gyfran o swyddogion a staff ar y rheng flaen yn cynyddu o 74 y cant i 78 y cant, a bwriedir y bydd y gyfran o swyddogion heddlu ar y rheng flaen yn cynyddu o 89 y cant i 92 y cant. Mae cyfansoddiad arfaethedig y gweithlu'n eithaf sefydlog ac nid yw'n debygol o newid.

Wrth i gyni barhau, mae angen i luoedd newid sut maent yn darparu gwasanaethau. Mae gan HMIC bryderon sylweddol ynghylch gallu rhai o'r lluoedd llai i gynnal gwasanaeth effeithiol o fewn 3-5 mlynedd.

Mae'r erydiad posibl o blismona cymdogaeth yn peri pryder cynyddol. Mae lluoedd yn gweithio'n galed i amddiffyn timau cymdogaeth, ond mae ganddynt lwythi gwaith cynyddol a chylchoedd gwaith lletach. Ledled Cymru a Lloegr, mae lluoedd yn cynllunio gostyngiadau mewn niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) o oddeutu 22 y cant (17 y cant y llynedd), sy'n gyfwerth i golled o 700 mwy o PCSOs nag a amcangyfrifwyd llynedd.

Mae risg y bydd cylch cythreulig yn ymddangos lle bydd llai o weithgarwch plismona ataliol a mwy o weithgarwch adweithiol.

Mae cydweithrediad rhwng lluoedd a rhwng heddluoedd a chyrrff lleol eraill sy'n cyflawni arbedion effeithlonrwydd, er ei fod wedi gwella, yn dal i beri siomedigaeth fawr. Mae cydweithrediad wedi dod yn fwy cymhleth a thameidiog, ac mae angen ymagwedd fwy systematig tuag at blismona ar y lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Yn gyffredinol, mae lluoedd wedi cwrdd â'r heriau ariannol hyd yn hyn ond bydd angen i'r ffyrdd mae lluoedd yn gweithio ynddynt newid er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel.


- 3.1. Ystyriodd y bennod flaenorol a yw'r heddlu'n gwneud y pethau cywir i atal, ymchwilio a chanfod trosedd a diogelu dioddefwyr a'r rhai hynny sy'n fregus (effeithlonrwydd). Mae'r bennod hon yn ystyried a yw'r pethau hynny'n cael eu cynnal am y gost fwyaf priodol effeithlonrwydd).

- 3.2. Mae oddeutu £13 biliwn o arian cyhoeddus yn cael ei wario ar heddluoedd yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn. Mae'n rhaid i'r arian hwn gael ei wario'n ddoeth i sicrhau bod dinasyddion a chymunedau'n manteisio'n llawn arno. Mae heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn cael eu gorfodi i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng nghyd-destun cyni parhaol. Dywedodd heddluoedd wrthym eu bod wedi gorfod gwneud arbedion o £2.53 biliwn dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Mae hyn ychydig o dan 20 y cant o'u gwariant cyffredinol.
- 3.3. Mae HMIC wedi cynnal archwiliadau i sefydlu pa mor effeithiol mae'r heddlu ynghylch ymateb i'r her hon, a chyflwynir y canlyniadau llawn yn yr adroddiad HMIC Policing in Austerity: Meeting the Challenge,¹ gyda manylion ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd. Ystyriodd HMIC:
- a yw lluoedd wedi nodi'r arbedion sydd eu hangen yn gywir, yn seiliedig ar ragdybiaethau realistig a darbodus, ac a ydynt wedi datblygu cynlluniau ariannol cadarn er mwyn lleihau eu costau'n briodol;
 - a yw lluoedd wedi datblygu ymagwedd tuag at ddarparu gwasanaethau yn eu hardaloedd (gan gynnwys drwy gydweithio â lluoedd eraill, gwasanaethau lleol a'r sector preifat) sy'n fforddiadwy o fewn cyllideb sy'n lleihau ac sy'n cynnal neu'n gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i'r cyhoedd;
 - a oes gan lluoedd gynlluniau trefnus ar gyfer gweithredu'r ymagwedd hon a ddeallir gan eu gweithluoedd; ac
 - i ba raddau mae lluoedd wedi cymryd camau i sicrhau bod eu gweithluoedd mor gynhyrchiol ac effeithlon â phosibl, gan gynnwys trwy:
 - sicrhau bod pob llu'n deall y galwadau mae'n eu hwynebu ac yn dyrannu ei adnoddau'n briodol;
 - darparu technoleg briodol i swyddogion rheng flaen:
 - defnyddio ymagweddau seiliedig ar dystiolaeth i leihau trosedd ac adeiladu hyder, megis elfennau plismona cymdogaeth a chytuno gyda chymunedau lleol ar y problemau pwysig i fynd i'r afael â hwy; a
 - sicrhau eu bod yn deall a mesur cynhyrchiant eu swyddogion heddlu a staff.
- 3.4. Gan dynnu ar ganfyddiadau Policing in Austerity: Meeting the Challenge, mae'r bennod hon yn darparu crynodeb o sut mae heddluoedd wedi codi i her cyni parhaol ac wedi cwrdd â hi. Nid yw hwn, fodd bynnag, yn asesiad llawn o effeithlonrwydd, gan fod ffocws yr archwiliad eleni wedi bod ar sut mae lluoedd yn lleihau eu costau a'r effaith mae hyn yn ei chael ar eu gweithlu ac ar y gwasanaethau maent yn eu darparu. Wrth i HMIC ddatblygu ei fethodoleg archwilio ar gyfer archwiliad PEEL 2014/15, bydd mwy o ffocws ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd ar sylfaen flynyddol a parhaol.

Ymateb i'r her ariannol

3.5. Mae heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn dal i fantoli eu cyfrifon a lleihau effaith gostyngiadau mewn gwariant ar y gwasanaethau maent yn eu darparu i'r cyhoedd. Dywedodd lluoedd wrthym, dros bedair blynedd yr adolygiad cyfredol o wariant (2011/12 – 2014/15), fod angen iddynt arbed £2.53 biliwn (ar draws yr holl luoedd). Mae'r swm mae lluoedd unigol yn gorfod ei arbed (fel canran o wariant refeniw gros 2010/11) (GRE)) yn amrywio'n sylweddol. Ar gyfer un llu ar y pen is, mae'n dod i ddeg y cant o'i GRE yn 2010/11; ar gyfer llu arall ar y pen uchaf, mae'n dod i 28 y cant.

Ffigur 3.1: Gofyniad arbedion a amcangyfrifir fel cyfran o GRE 2010/11 yn ôl llu



3.6. Mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at yr amrywio hwn; y prif un yw faint mae lluoedd yn dibynnu ar gyllid gan y llywodraeth ganolog yn hytrach nag ar incwm o dreth gyngor, a godir yn lleol. Mae'n rhaid i luoedd sy'n dibynnu'n drwm ar gyllid gan y llywodraeth ganolog wneud arbedion sy'n gyfatebol uwch dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Wrth wneud ei asesiadau, mae HMIC yn cymryd y gwahaniaethau hyn i gyfrif, yn ogystal â'r cyd-destunau gwahanol mae lluoedd yn gweithredu ynddynt.

3.7. Mae lluoedd wedi datblygu cynlluniau i wneud arbedion er mwyn cyflawni 96 y cant o'r cyfanswm arbedion mae angen iddynt eu gwneud. Cwrddir â'r bwch trwy ddefnyddio £107 miliwn o'r cronfeydd yn 2014/15. Mae HMIC yn hyderus bod y cynlluniau i wneud arbedion a ddatblygwyd gan luoedd yn realistig a chyraeddadwy. Seilir y canfyddiad hwn ar:

- ein dadansoddiad o safon y cynlluniau ar gyfer arbedion presennol a'r rhagdybiaethau ariannol sy'n sylfaenol iddynt; trafodir y dadansoddiad hwn yn fanylach isod;
- yr hanes blaenorol sydd gan luoedd ynghylch tanwario yn ôl cyllidebau sefydledig, sy'n golygu eu bod yn arbed mwy na'r hyn iddynt nodi bod angen ei arbed; ac
- yr ymagweddau mae lluoedd yn eu mabwysiadu i reoli cyllidebau a rheoli gwariant.

3.8. Yn union fel mae pob llu wedi gorfod dod o hyd i wahanol arbedion, hefyd mae ganddynt wahanol opsiynau ar gyfer gwneud yr arbedion hyn. Mae lluoedd wedi gweithio'n galed i flaenoriaethu arbedion mewn nwyddau a gwasanaethau (megis cyflenwadau, iwnniformau, ystadau a cherbydau) tra'n ceisio diogelu swyddi swyddogion a staff. Mae 29 y cant o arbedion a gynllunnir dros gyfnod yr adolygiad o wariant yn dod o'r costau hyn nad ydynt ar gyfer cyflogau (h.y. costau heblaw am y rhai hynny a dynnir wrth dalu swyddogion a staff), er bod y fath gostau'n cyfrif am oddeutu 20 y cant o gostau cyffredinol yr heddlu'n unig. Fodd bynnag, fel y gwnaeth Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei ganfod yn 2013, mae amrywiadau sylweddol o hyd rhwng lluoedd o ran y prisiau maent yn eu talu am eu nwyddau a gwasanaethau, sy'n awgrymu y gallai rhai lluoedd dod o hyd i fwy o arbedion yn y maes hwn.³⁸

Gweithlu sy'n lleihau

3.9. Er gwaethaf yr arbedion mewn nwyddau a gwasanaethau, mae graddfa'r gostyngiadau mewn cyllid yn golygu bod lluoedd wedi gorfod lleihau maint eu gweithluoedd, a rhagwelir gostyngiadau pellach yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol. Erbyn Mawrth 2015, bydd cyfanswm y gweithlu a gynllunnir ar gyfer yr heddlu (swyddogion a staff) wedi gostwng o 43,400 ers Mawrth 2010³⁹ (cyflwynir y ffigurau hyn yn y tabl isod). Fel rhan o'r gostyngiad hwn, mae cynlluniau i gael 16,300 yn llai o swyddogion heddlu nag yn 2010. Mae'r cynlluniau hyn yn amcangyfrif, erbyn Mawrth 2015, y bydd oddeutu 127,500 o swyddogion heddlu yng Nghymru a Lloegr – yr isaf ers dros ddegawd. Mae'r gostyngiad yn llymach na mae'r ffigurau'n yn awgrymu ar y golwg cyntaf pan gymerir y cynnydd mewn poblogaeth i gyfrif. Er y cynllunnir i'r nifer absoliwt o swyddogion heddlu ostwng o 11 y cant rhwng 2010 a 2015, mae'r nifer o swyddogion heddlu ar gyfer pob

³⁸ *Police Procurement*, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Llundain, 2013. Ar gael gan www.nao.org.uk

³⁹ Mae HMIC yn mesur gostyngiadau yn y gweithlu o Fawrth 2010. Dewiswyd 2010 gan mai dyma'r flwyddyn y dechreuodd y mwyafrif o luoedd rewi recriwtio gan eu bod yn deall y byddai gostyngiadau cyllidebol yn debygol o gael eu cyhoeddi nes ymlaen y flwyddyn honno.

unigolyn yn y boblogaeth lawn eisoes wedi gostwng o 14 y cant rhwng 2010 a 2014.

Ffigur 3.2: Gostyngiadau a gynllunnir yn y gweithlu rhwng Mawrth 2010 a Mawrth 2015

Cymru a Lloegr	Mawrth 2010 FTE (gwir)	Mawrth 2015 FTE (arfaethedig)	Newid llawn (arfaethedig)	Canran newid (arfaethedig)
Swyddogion	143,700	127,500	16,300	-11%
Staff	83,200	68,700	14,500	-17%
PCSO's	16,900	13,300	3,600	-22%
Cyfanswm y Gweithlu	243,900	209,500	34,400	-14%

Sylwer: talgrynnir y ffigurau hyn

- 3.10. Mae cynlluniau lluoedd ar gyfer y gweithlu'n cyflwyno'r lefel o ostyngiadau mewn staff sydd arnynt ei hangen i fantoli eu cyllidebau. Yn gyffredinol maent yn cyd-fynd ag amcanestyniadau lluoedd yn 2013 gyda rhai amrywiadau, sy'n ddealladwy wrth i gynlluniau ddatblygu ac wrth i raddfa'r arbedion sydd eu hangen gynyddu. Rydym yn ystyried bod y cynlluniau'n sefydlog ac yn gadarn ar y cyfan.
- 3.11. Fodd bynnag, ers ei adroddiad yn 2013, mae HMIC wedi canfod newid sylweddol o ran y gostyngiadau a gynllunnir mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs). Er bod lluoedd llynedd yn cynllunio lleihau PCSOs o 17 y cant rhwng Mawrth 2010 a Mawrth 2015, erbyn hyn y gostyngiad a gynllunnir dros yr un cyfnod yw 22 y cant. Mae hyn yn golygu y caiff 700 ychwanegol o swyddi eu colli, ar ben y 2,900 a ragwelwyd yn flaenorol. Er bod HMIC yn deall bod yr holl luoedd yn gwneud dewisiadau anodd ar yr hyn i'w gwtogi, mae'r gostyngiad carlam hwn mewn swyddi PCSO yn ychwanegu i'w bryder cynyddol bod plismona yn y gymdogaeth yn cael ei erydu, yr hyn y byddwn yn ei drafod ymhellach ym mharagraffau 3.17 a 3.18. Mae'r llinell las sydd eisoes yn gul yn ein cymunedau'n culhau ymhellach hyd yn oed.
- 3.12. Dros gyfnod yr adolygiad o wariant, mae'n bwysig bod lluoedd yn dal i gyfathrebu a gweithio gyda'u gweithluoedd wrth i newidiadau ddigwydd. Mae tystiolaeth yn dangos bod newid sylweddol yn fwy tebygol o gael ei weithredu'n llwyddiannus lle mae'r gweithlu'n cael eu cynnwys a lle ymgynghorir â hwy drwy gydol y proses.⁴⁰ Canfu archwiliadau HMIC bod arweinyddiaeth gref wedi digwydd a bod

⁴⁰ *What works in organisational change and business improvement? Key findings and implications for practice*, Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona, 2011. Llundain. Ar gael gan www.college.police.uk

llawer o brif swyddogion wedi "mynd â'u gweithluoedd gyda nhw" yn ystod y cyfnod hwn o newid digyffelyb. Gwelodd HMIC enghreifftiau ardderchog o staff yn cael eu cynnwys yn y newidiadau a oedd yn cael eu gwneud gan luoedd, ac o sylw i les swyddogion a staff. Fodd bynnag, bydd angen i brif swyddogion ddal i weithio'n galed er mwyn cynnal morâl yn eu lluoedd. Mae'r ffordd mae arweinwyr mewn plismona'n trin eu gweithluoedd, ac a ystyrir eu bod yn deg, hefyd yn cael effaith ar agweddau eu swyddogion a staff, gan fod y mwyafrif ohonynt yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd bob dydd. Am y rheswm hwn y gwnaeth y rhaglen archwilio ar gyfreithlondeb ystyried, a bydd yn dal i ystyried, sut mae'r heddlu'n trin eu cymunedau a sut mae arweinwyr yr heddlu'n trin swyddogion a staff.

- 3.13. Mae nifer o broblemau'n deillio o'r gostyngiadau sylweddol yn y gweithlu. O'r rhain, yr un mwyaf arwyddocaol yw'r cwmpas cyfyng sydd gan arweinwyr yr heddlu i lunio eu gweithluoedd er mwyn cwrdd â'r problemau mae lluoedd yn eu hwynebu.⁴¹ Mae sgiliau a galluoedd gweithlu'r heddlu angen sylw ar unwaith. Mae bygythion newydd a bygythion sy'n dod i'r amlwg ar y cyd â ffordd modern o weithio (megis pwyslais cynyddol ar weithio gyda sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus) yn galw ar swyddogion i feddu ar ystod wahanol o sgiliau a galluoedd, er enghraifft, sgiliau effeithiol ynghylch negodi a dylanwadu. Mae ystyriaeth HMIC o effeithiolrwydd yr heddlu'n cwmpasu'n fanylach ein canfyddiadau ynghylch gwendidau amlwg yng ngalluogrwydd craidd swyddogion heddlu mewn meysydd megis ymchwilio i drosedd. Gwneir pryderon HMIC yn llymach gan y ffaith bod gan brif swyddogion gwmpas cyfyng i ddod â doniau a galluoedd newydd i mewn i gywiro'r diffygion hyn.
- 3.14. Mae proffil gweithlu'r heddlu o ran rheng, cymysgedd ac amrywiaeth wedi aros yn ddigyfnawid i raddau helaeth dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Mae llawer o luoedd wedi cael cyfleodd cyfyng yn unig i recriwtio staff newydd. Mae rhai wedi gwneud ymdrech bendant i gynyddu'r nifer o swyddogion duon a lleiafrifoedd ethnig, ond rhwystrir hyn gan y rhewi recriwtio mewn sawl man. Os bydd y cyfyngiadau cyfredol ar allu prif swyddogion i recriwtio a symud pobl allan yn parhau, ni fydd heddluoedd yn gallu dod yn gynrychiadol o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu na chadw i fyny â chymdeithas newidiol am flynyddoedd, o bosibl degawdau. Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer recriwtio, dyrchafu a chynyddu, ar sail cynlluniau cyfredol y gweithlu, yn eithafol o gyfyng. Dywedodd llawer o luoedd wrthym am y pryderon sydd ganddynt ynghylch gweithlu sefydlog

⁴¹ Gwnaeth Rhan 2 Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Gydabyddiaeth Ariannol ac Amodau Swyddogion a Staff Heddlu nifer o argymhellion ynghylch creu system o ddiswyddo gorfodol ar gyfer swyddogion heddlu â llai na gwasanaeth pensiynadwy llawn. Ar 20 Rhagfyr argymhellodd Tribiwnlys Cymrodeddu'r Heddlu na ddylid gweithredu'r mesurau hyn, ac ar 13 Chwefror 2013 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref ei phenderfyniad ynghylch y canfyddiadau hyn gan ddweud na fyddai'n cyflwyno diswyddo gorfodol pryd hynny. Gweler Adroddiad Swyddogol Tŷ'r Cyffredin, 13 Chwefror 2014, Colofn 79WS, Swyddogion a Staff Heddlu (Cydabyddiaeth Ariannol ac Amodau Gwasanaeth) Ar gael ar www.parliament.uk

sy'n heneiddio. Mae HMIC yn rhannu'r pryderon hyn. Mae gweithlu cynrychiadol yn elfen bwysig o heddlu cyfreithlon y gall pobl ymddiried ynddo, yr hyn sy'n cael ei ystyried yn ddyfnach yn y bennod ar gyfreithlondeb.

Diogelu'r rheng flaen a phlisma yn y gymdogaeth

- 3.15. Mae heddluoedd yn gweithio'n galed i ddiogelu'r rheng flaen rhag effeithiau'r gostyngiadau dros gyfnod yr adolygiad hwn o wariant ac i sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithlon o'u hadnoddau. Erbyn Mawrth 2015, cynllunnir y bydd y gyfran o gyfanswm y swyddogion a staff ar y rheng flaen yn cynyddu o 74 y cant i 78 y cant; disgwylir y bydd y gyfran o swyddogion heddlu ar y rheng flaen yn cynyddu o 89 y cant i 92 y cant. Fodd bynnag, mae hyn oherwydd y ffaith bod toriadau dyfnach yn cael eu gwneud mewn mannau eraill. Mewn niferoedd gwirioneddol, rhwng Mawrth 2010 a Mawrth 2015 cynllunnir y bydd y nifer o bobl (swyddogion a staff) yn gweithio ar y rheng flaen yn lleihau o oddeutu 14,900 (gostyngiad o wyth y cant) a bydd y nifer o swyddogion ar y rheng flaen yn lleihau o oddeutu 8,600 (gostyngiad o saith y cant).
- 3.16. Mae llawer o luoedd wedi gwneud newidiadau o ran sut maent wedi'u strwythuro a threfnu fel y gallant leihau eu gweithluoedd tra'n diogelu eu capasiti i ymladd trosedd ar y rheng flaen. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar symleiddio eu swyddogaethau cymorth busnes er mwyn cyflawni mwy o arbedion o'r swyddogion nad ydynt ar y rheng flaen a chanolbwyntio ar symud swyddogion heddlu i'r rheng flaen. Mae HMIC wedi disgrifio, mewn nifer o adroddiadau, y camau mae lluoedd wedi'u cymryd i ail-lunio eu sefydliadau ar y llinellau hyn.⁴²
- 3.17. Mae HMIC wedi codi pryderon ynghylch yr erydiad posibl o blisma yn y gymdogaeth. Er bod lluoedd wedi gweithio'n galed i ddiogelu plisma yn y gymdogaeth, mae HMIC wedi gweld llwyth gwaith a chylch gwaith timau cymdogaeth yn lledaenu; mae swyddogion a PCSOs yn dweud wrthym eu bod yn ymgysylltu fwyfwy â gwaith adweithiol, ac mae gostyngiadau uwch nag a ragwelwyd o ran niferoedd PCSOs. Mae'n bosibl bod y newidiadau hyn yn dechrau cael effaith niweidiol. Mae'r cyhoedd yn dechrau sylwi bod llai o swyddogion yn eu cymunedau, ac mae'r cynnydd flwyddyn ar flwyddyn rydym wedi'i weld yn hyder y cyhoedd am ddeng mlynedd wedi dechrau lefelu. Mae arweinwyr yr heddlu'n cydnabod gwerth plisma yn y gymdogaeth. Ond yn wyneb gostyngiadau parhaol nawr ac yng nghyfnod yr adolygiad nesaf o wariant, mae llawer wedi dweud wrthym y gallai eu lluoedd ddod yn gynyddol o adweithiol

⁴² *Policing in Austerity: Rising to the challenge compendium. Practical examples from the 2013 valuing the police inspections report*, HMIC Llundain, 2014. Ar gael o www.justiceinspectors.gov.uk/hmic

gyda ffocws ar ymateb i alwadau 999 ac ymchwilio i drosedd) yn hytrach nag atal a lleihau trosedd.⁴³

- 3.18. Bydd gallu lluoedd i atal trosedd a lleihau galw'n cael ei danseilio'n ddifrifol os yw timau cymdogaeth yn cael eu herydu. Mae'n rhaid i luoedd warchod yn erbyn cylch cythreulig o lai o weithgarwch ataliol, mwy o ymatebion plismona adweithiol a galw cynyddol. Mae angen gweithredu nawr i atal hyn rhag digwydd. Dangoswyd yn gyson bod presenoldeb plismona gweladwy mewn cymunedau a chymdogaethau (a ddarperir yn aml gan dimau cymdogaeth) yn dylanwadu ar hyder y cyhoedd. Mae'r bennod ar gyfreithlondeb yn trafod yn fanylach asesiad HMIC o hyder y cyhoedd a chanfyddiadau'r Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar hyder y cyhoedd a gwelededd yr heddlu.

Cydweithredu â sefydliadau eraill

- 3.19. Mae HMIC yn adrodd ar gynnydd a chydweithrediad⁴⁴ oherwydd gall hyn helpu i gyflawni plismona effeithlon ac effeithiol. Gall wella effeithlonrwydd drwy, er enghraifft, leihau a rhannu costau gorbenion, y gallu i gwrdd â'r galwadau mae lluoedd yn eu hwynebu'n fwy effeithiol, a'r gallu i reoli lefelau staffio. Gall wella effeithiolrwydd drwy, er enghraifft, ddarparu'r heddlu â mwy o fynediad i'r bobl â gwybodaeth ac adnoddau arbenigol, gan gynyddu cadernid, ac yn caniatáu i luoedd weithio'n ddi-dor ar draws ffiniau lluoedd i nodi a diogelu dioddefwyr a mynd ar ôl pobl a ddrwgdybir.
- 3.20. Mae HMIC wedi disgrifio cynnydd ar gydweithrediad fel 'siomedig iawn'.⁴⁵ Fodd bynnag, gwelodd yr archwiliadau yn 2014 welliant o ran faint mae cydweithrediad yn cefnogi cynlluniau arbed lluoedd. Rhwng Gorffennaf 2013 a Gorffennaf 2014, mae'r arbedion mae lluoedd wedi'u nodi drwy gydweithrediad o 2010 tan 2015 wedi cynyddu o gyfartaledd o saith y cant, fel yr adroddwyd yn y flwyddyn flaenorol, i gyfartaledd o 10 y cant o'r arbedion llawn sy'n ofynnol.


⁴³ 'Gweler Perceptions of the police: Past findings, methodological issues, concept issues and policy implications.' Brown, B. a Benedict, W. Policing: An International Journal of Police Strategies and Management, 2002, 25:3, tudalennau 543-80; *An Evaluation of the National Impact of the National Reassurance Policing Programme*, Tuffin, R., Morris, J. & Poole A, Y Swyddfa Gartref, Llundain, 2006.

⁴⁴ 'Mae HMIC yn diffinio cydweithredu fel "pob gweithgaredd lle mae dau barti neu'n fwy yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni nod gyffredin, sy'n cynnwys gweithgarwch rhwng lluoedd a chydweithrediad â'r sectorau cyhoeddus a phreifat gan gynnwys trefnu drwy gontractau allanol a phartneru busnes".

⁴⁵ *Policing in Austerity: Rising to the Challenge*, HMIC, Llundain, 2013. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

3.21. Er bod hyn yn galonogol, mae lluoedd sydd yn dal heb afael yn y cyfle i weithio gydag eraill er mwyn eu gwneud eu hunain yn fwy effeithlon ac er mwyn cyflawni arbedion maint. Erbyn hyn mae 22 o luoedd sy'n disgwyl gwneud 10 y cant neu'n fwy o'u harbedion drwy gydweithredu erbyn 2014/15, ond mae 21 o luoedd o hyd lle mae'r ffigur hwn yn is na 10 y cant ar eu cyfer (fel mae Ffigur 3.3 yn ei ddangos). Er bod cynnydd wedi digwydd o ran faint o gydweithrediad yr ymgwymerwyd ag ef gan luoedd yn sgil cael eu hannog gan HMIC a'r Swyddfa Gartref, mae'r cyflymder mae'n cynyddu arno'n dal yn araf.

Ffigur 3.3: Cyfran o'r gofyniad arbedion a gyflawnwyd drwy gydweithrediad erbyn Mawrth 2015, yn ôl lluo (o Fawrth 2014 ymlaen)



3.22. Mae HMIC wedi gweld bod rhai cydweithrediadau'n cael eu cryfhau, ond mae wedi gweld eraill yn cael eu hoedi. Mae cydweithredu wedi dod yn fwy cymhleth a thameidiog wrth i'r heddlu a chomisynwyr heddlu a throseddu gael eu hannog i gydweithredu ag ystod o wahanol gyrf. Er enghraifft, fe wnaeth Cronfa Arloesi'r Heddlu⁴⁶ gefnogi cydweithrediad llw i lu, cydweithrediad golau glas (cydweithrediad â'r gwasanaeth tân) a gweithio gyda chynghorau a bwrdeistrefi, ac yn ddiweddar mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi cymeradwyo ac annog integreiddiad o'r gwasanaethau brys.⁴⁷

⁴⁶ Mae Cronfa Arloesi'r Heddlu yn 2014/15 yn werth £50 miliwn ac yn cael ei chyllido gan y Swyddfa Gartref. Mae'n darparu'r cyfle i gomisiynwyr heddlu a throseddu gyflwyno cynigion ar fentrau a fydd yn hyrwyddo cydweithrediad a'r defnydd o dechnoleg er mwyn cyflawni gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd yn y ffordd mae eu heddluoedd yn gweithredu. Gweler: Adroddiad Swyddogol Tŷ'r Cyffredin, 18 Rhagfyr 2013, Colofn 111WS. Ar gael ar www.parliament.uk

⁴⁷ 'Lessons of Police Reform', anerchiad a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref mewn digwyddiad a drefnwyd gan Reform, Llundain, 3 Medi 2014. Ar gael gan www.reform.co.uk

- 3.23. Fodd bynnag, nid yw cydweithrediad eang yn digwydd yn y mwyafrif o luoedd, a dim ond ychydig sy'n cyflawni arbedion sylweddol trwyddo. Er enghraifft, dim ond 10 llu sy'n bwriadu cyflawni 20 y cant neu'n fwy o'u harbedion fel hyn. Nid yw lluoedd yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithredu i raddau digonol i sicrhau bod plismona rhanbarthol a chenedlaethol mor effeithiol ag y gall fod. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae HMIC wedi gweld ond ychydig o dystiolaeth o weithio cydweithredol newydd sy'n adeiladu ar y trefniadau rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol, gydag ychydig o eithriadau trawiadol.
- 3.24. Mae HMIC wedi gweld gwelliannau mewn rhai meysydd yn yr ymagwedd ranbarthol tuag at reoli troseddau dirifol a threfnedig (a, mewn rhai achosion, troseddau mawr). Mae'r holl ranbarthau wedi datblygu'r capasiti a galluogrwydd mewn meysydd megis ymchwilio i dwyll, plismona cudd, adennill asedau, diogelu tystion a'r unedau sy'n rheoli data cyfrinachol a chudd-wybodaeth. I raddau helaeth mae hyn wedi'i gyflawni trwy gyllid ychwanegol, arweinyddiaeth gref gan brif swyddogion ac arfer plismona cymharol gyson sy'n gysylltiedig â meysydd arbenigol o blismona. Fodd bynnag, mae cydweithrediad rhanbarthol gwell yn y meysydd arbenigol hyn yn eithriad yn hytrach na'r norm.

Uchafu effeithlonrwydd: potensial ar gyfer enillion pellach

- 3.25. Mae ymagweddau lluoedd tuag at sicrhau gwerth am arian wedi esblygu ac aeddfedu dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Mewn llawer o achosion, mae'r gostyngiadau mewn gwariant wedi gyrru arloesi a chreadigrwydd wrth i luoedd ddarparu mwy am lai. Yn gynnar yng nghyfnod yr adolygiad o wariant, roedd lluoedd yn canolbwyntio ar fantoli cyllidebau, rhewi recriwtio, prynu nwyddau a gwasanaethau rhatach neu lai o nifer, cwtogi ar wariant disgresiwn a galw am yr un gostyngiadau mewn costau ar draws yr holl gyllidebau (heb ystyried pwysigrwydd y maes penodol o blismona). Symudodd lluoedd i ffwrdd o'r gostyngiadau tymor byr hyn mewn costau at atebion tymor hwy megis ailgynllunio'r llu. Erbyn hyn mae'r holl luoedd wedi ymgymryd ag o leiaf un broses fawr o ailstrwythuro dros gyfnod yr adolygiad o wariant ac, ar gyfer llawer, mae'r newid hwn wedi golygu bod yr holl wasanaethau a ddarperir gan y llu wedi'u hadolygu a'u hail-lunio. Mae enghreifftiau'n cynnwys ail-lunio swyddogaethau ymchwilio trwy gael gwared ar sgwadiau lluosog sy'n canolbwyntio ar fathau sengl o droseddau, a defnyddio data i ddeall pryd y derbynnir y mwyafrif o alwadau 999 a sicrhau bod mwy o swyddogion ymateb ar ddyletswydd ar yr amseroedd hyn.
- 3.26. Fodd bynnag, dim ond nawr mae cyfran sylweddol o luoedd yn dechrau ystyried sut i wella cynhyrchiant eu swyddogion trwy nodi a dadansoddi galwadau ar eu hamser. Dylai hyn ganiatáu i luoedd reoli a chwrdd â'r galwadau ar eu gwasanaethau'n fwy effeithiol. Mae'r ffordd mae galw am wasanaethau'n cael ei deall a'i thrafod yn amrywio rhwng lluoedd. Mae gormod sydd dim ond yn asesu

galw yn ôl y nifer o alwadau brys maent yn eu derbyn gan y cyhoedd ac mae llawer nad ydynt yn deall ystod lawn y galwadau maent yn eu hwynebu. Nid oes gan lawer o luoedd ddealltwriaeth gynhwysfawr neu ddibynadwy o ble mae eu swyddogion a staff a sut maent yn treulio eu hamser. Er enghraifft, dim ond nifer fach o luoedd, megis Heddlu De Cymru, sydd â thechnoleg sy'n olrhain swyddogion a PCSOs er mwyn darparu gwybodaeth ynghylch lle maent ar batrôl a'r cyfrannau o amser maent yn eu treulio y tu allan i'r orsaf. Fe wnaeth adroddiad HMIC "Core Business: an inspection into crime prevention, police attendance and the use of police time" argymhellion i sicrhau bod lluoedd, gyda chymorth gan y Coleg Plismona, yn deall y galwadau maent yn eu hwynebu, sut maent yn effeithio ar eu gweithlu a sut y dylent adleoli eu swyddogion a staff o ganlyniad.⁴⁸

- 3.27. Mae HMIC wedi canfod gwaith calonogol mewn nifer fach o luoedd sy'n archwilio sut mae'r galwadau maent yn eu hwynebu'n newid. Mae gan rai lluoedd gynlluniau trawiadol a anelir at leihau'r galwadau maent yn eu hwynebu'n sylweddol trwy ddatrys problemau pan yw swyddogion a staff yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd yn gyntaf. Roedd Avon a Gwlad yr Haf, yr hyn a ystyriwyd gan HMIC fel llw rhagorol, yn arbennig o drawiadol. Mae lluoedd eraill wedi dechrau nodi'r deg maes uchaf sy'n gosod y galwadau uchaf neu amlaf ar eu hadnoddau (er enghraifft, archfarchnadoedd gyda lefelau uchel o ddwyn o'r siopau) a thargedu eu hadnoddau er mwyn darparu gwelededd yn y meysydd hyn i atal troseddu'r dyfodol.
- 3.28. Mae ansawdd y ffordd mae llw'n rheoli ac yn ymateb i'r galwadau mae'n eu hwynebu'n effeithio ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y llw. Mae'r lluoedd hynny sy'n defnyddio ymagweddau seiliedig ar dystiolaeth er mwyn rhagweld y galwadau y byddant yn eu hwynebu yn y dyfodol ac yn cymryd camau i'w lleihau, a'r lluoedd hynny sy'n gweithio gyda chyrrff lleol eraill i fynd i'r afael ag achosion trosedd ac i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig i ddiodefwyr, nid yn unig yn rhyddhau amser ar gyfer eu swyddogion a staff, ond hefyd yn lleihau trosedd a stopio pobl rhag dod yn ddiodefwyr (neu, mewn rhai achosion, dod yn ddiodefwyr eto). Mae'r bennod ar effeithiolrwydd yn rhoi asesiad HMIC ar ba mor dda mae lluoedd wedi lleihau neu atal trosedd.
- 3.29. Gall technoleg helpu swyddogion i gyflawni mwy o dasgau a gweithgareddau plismona tra'n aros yn weladwy i'w cymunedau, darparu gwybodaeth well i swyddogion, ac awtomeiddio systemau a phrosesau o fewn yr heddlu, gan sicrhau bod y rhain yn gyflymach a mwy effeithlon. Mae HMIC wedi adrodd yn gyson bod safon TG yr heddlu'n wael ac yn ffynhonnell rwystredigaeth sylweddol i swyddogion ar y rheng flaen. Mae'r archwiliadau wedi canfod bod amrywiadau arwyddocaol o ran ansawdd y ffordd mae lluoedd yn gwneud cynnydd ynghylch

⁴⁸ Core Business: An inspection into crime prevention, police attendance and the use of police time, HMIC, Llundain, 2014. www.justiceinspectores.gov.uk/hmic

defnyddio technoleg. Mae llawer o luoedd yn dal i ddefnyddio technoleg sydd wedi dyddio ac sy'n anaddas ar gyfer ymladd trosedd yn y byd modern. Mae adroddiad HMIC "Core Business: an inspection into crime prevention, police attendance and the use of police time" yn gwneud pum argymhelliad i ddatblygu strategaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth yr heddlu ac i ddarparu modd clir ac effeithiol i sicrhau ei bod yn cael ei chynnal.⁴⁹

- 3.30. Mae lluoedd heb ddatblygu ymagwedd gyson a manwl eto tuag at ddeall, mesur a rheoli cynhyrchiant swyddogion a staff heddlu. Mae hwn yn faes cymhleth o gofio lled y tasgau mae swyddog yn eu cyflawni ac y gall fod yn gyfrifol amdanynt (canfod trosedd, atal trosedd, diogelu dioddefwyr, tawelu meddwl dioddefwyr, tawelu meddwl y gymuned), y mae rhai ohonynt yn anodd eu mesur. Wrth i HMIC ddatblygu ei raglen archwilio effeithlonrwydd PEEL, bydd yn gosod mwy o bwyslais ar fesur cynhyrchiant gweithlu'r heddlu ac asesu sut mae cynhyrchiant uwch yn cael ei ddefnyddio i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd.

Cyni parhaol

- 3.31. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried perfformiad rhwng Awst 2013 a Hydref 2014 ac yn darparu asesiad o safon effeithlonrwydd lluoedd yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, bydd heriau cyni'n parhau y tu hwnt i'r dyddiadau hyn. Felly mae HMIC wedi ymchwilio i sut mae lluoedd trefnus yn gallu cwrdd â heriau'r dyfodol. Mae'r cynlluniau sy'n cael eu datblygu gan luoedd i reoli gostyngiadau pellach wedi cyrraedd camau gwahanol, gyda rhai lluoedd yn ystyried yn fanylach yr effaith y byddai'r fath ostyngiadau yn y dyfodol yn debygol o'i chael ar y cyhoedd. Mae gan luoedd megis Sir Gaerhirfryn a Gorllewin y Canolbarth (a aseswyd fel rhai rhagorol gan HMIC yn y rhaglen archwilio Valuing the Police) gynlluniau sydd wedi'u datblygu'n arbennig o dda ar gyfer ail-lunio eu gwasanaethau er mwyn rheoli gostyngiadau pellach y tu hwnt i gyfnod yr adolygiad hwn o wariant.
- 3.32. Pan archwiliodd HMIC luoedd rhwng Ebrill a Mai 2014, roedd y mwyafrif yn cynllunio ar y sylfaen y bydd rhaid iddynt wneud yr un arbedion dros y pedair blynedd nesaf ag y maent wedi'u gwneud yn ystod cyfnod cyfredol yr adolygiad o wariant. Mae hyn yn gall, ac yng Ngorffennaf 2014 roedd HMIC yn bryderus i ganfod nad oedd rhai lluoedd yn mabwysiadu'r ymagwedd hon. O ganlyniad i'r pryder hwn, ym Medi 2014 casglodd HMIC wybodaeth bellach ynghylch cynlluniau ariannol lluoedd, a ddangosodd fod lluoedd yn cynllunio ar sylfaen fwy realistig erbyn hyn.

⁴⁹ Ibid

- 3.33. Mae lluoedd yn amrywio'n sylweddol o ran maint: mae'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitanidd (MPS) a Heddlu Dinas Llundain ar bennau eithafol y raddfa; mae gan yr MPS oddeutu 39 gwaith yn fwy o swyddogion heddlu na Heddlu Dinas Llundain. Mae gan y llu ail fwyaf, Heddlu Gorllewin y Canolbarth, oddeutu naw gwaith yn fwy o swyddogion na'r ail leiaf, Swydd Warwig. O ganlyniad, mae lluoedd yn wynebu anawsterau gwahanol wrth wneud arbedion mewn costau. Er enghraifft:
- mewn lluoedd mwy o faint, gallai fod yn anos i gynnal gwasanaeth cyson ar draws y llu yn ystod amseroedd economaidd caled, a gallai'r newidiadau sydd eu hangen i reoli'r gostyngiadau mewn gwariant fod yn anos eu cyflawni;
 - mewn lluoedd llai, mae llai o swyddogion i ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl a gorbenion mwy sefydlog, ac mae cyfleoedd ar gyfer arbedion maint yn fwy cyfyng; a
 - mewn lluoedd mwy o faint a'r rhai hynny gyda phroses fwy cydweithredol o weithio, gallai fod mwy o gyfleoedd ar gyfer cynnydd gyrfaal, ac felly gallai hyn ddenu staff o radd uwch â sgiliau arbenigol (os yw hynny'n golygu plismona gweithredol neu gymorth sefydliadol megis caffael).
- 3.34. Yn seiliedig ar waith asesu HMIC dros y tair blynedd diwethaf, mae'n annhebygol y bydd cydweithredu ar ei hunan yn darparu'r arbedion sy'n debygol o fod yn angenrheidiol dros gyfnod yr adolygiad nesaf o wariant. Mae'n anochel y bydd opsiynau cyfyng i wneud arbedion yn gyrru rhai lluoedd i wneud toriadau dyfnach mewn plismona yn y gymdogaeth, a gallent brofi anawsterau wrth ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl (er enghraifft, problemau ynghylch trefn gyhoeddus neu ddigwyddiadau trosedd mawr). Yn arbennig, mae rhai lluoedd llai o faint â sylfaen gost isel ond ag ardal ddaearyddol fawr neu lefelau uchel o alw gan y cyhoedd am wasanaethau plismona, er enghraifft lefelau cyffredinol uchel o drosedd neu broblemau neilltuol gyda throseddau difrifol a threfnedig. Mae gan HMIC bryderon ynghylch y fath luoedd.
- 3.35. Mae lluoedd wedi amcangyfrif y bydd arnynt angen arbed £656 miliwn pellach yn 2015/16. Os bydd y lefel hon o arbedion yn parhau i mewn i'r cyfnod nesaf o adolygiad o wariant (sy'n dechrau yn 2016/17), os bydd gostyngiadau'n dal i gael eu gweithredu mewn lluoedd yn yr un modd ac os bydd arbedion effeithlonrwydd yn y model plismona cenedlaethol yn methu ag ymddangos, yna mae gan HMIC bryderon sylweddol ynghylch gallu rhai lluoedd llai o faint i gyflawni'r gostyngiadau cyllidebol tra'n cynnal gwasanaeth effeithiol i'r cyhoedd o fewn cyfnod o dair i bum mlynedd.
- 3.36. Felly mae HMIC yn ystyried bod yr amser yn gywir i gael trafodaeth ar sut mae plismona'n cael ei drefnu a sut y telir amdano yn y dyfodol. Mae HMIC wedi cynnull grŵp i gynhyrchu opsiynau ar gyfer plismona mewn cyfnod o gynt. Mae'r

grŵp hwn yn cynnwys prif gwnstabiliaid, cynrychiolwyr o blith cymdeithasau staff ac undebau llafur, comisiynwyr heddlu a throseddu a chyfarwyddwyr cyllid o blith heddluoedd. Mae aelodau'r grŵp yn defnyddio eu fforymau a rhwydweithiau presennol yn agored er mwyn trafod y cwestiynau dilynol:

- Beth yw blaenoriaethau'r heddlu ar gyfer y dyfodol? Er enghraifft, beth yw'r cydbwysedd rhwng atal a lleihau trosedd (plismona ataliol)? Pa mor dda ydym yn deall y galw mae lluoedd yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac i ba raddau rydym yn gwybod sut y gallai hyn newid?
- I ba raddau mae'r gwasanaeth wedi'i drawsnewid ei hunan? Sut ddylai lluoedd symud i ffwrdd o gwtogi ar wariant at ostyngiadau cynaliadwy mewn costau?
- Beth ddylai'r cydbwysedd fod rhwng plismona cenedlaethol a lleol er mwyn cyflawni blaenoriaethau plismona am y gorau (o wella diogelwch y gymuned i ymateb i fygythiad mawr) a gostyngiadau cynaliadwy mewn costau? Pa rôl sydd yno i strwythurau plismona rhanbarthol gyflawni'r rhain? Beth fyddai rolau cyrff lleol a chenedlaethol eraill mewn darparu gwasanaethau plismona ar lefelau lleol a chenedlaethol?
- A yw'r strwythurau a threfniadau cyllido presennol yn helpu neu'n rhwystro lluoedd yn eu hymdrechion i gyflawni eu blaenoriaethau yn y modd mwyaf effeithlon? Pa rôl sydd yno ar gyfer cydweithrediad pellach rhwng lluoedd? Sut ellir gwella'r systemau cyllido presennol er mwyn darparu'r gyfatebiaeth orau rhwng incwm lluoedd a'r galwadau a osodir arnynt? Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud?

Casgliad

- 3.37. I gloi, mae HMIC yn ystyried bod lluoedd wedi ymateb yn dda i ostyngiadau cyllidebol. Maent wedi eu hail-lunio eu hunain er mwyn dyrannu adnoddau'n fwy effeithlon ac wedi dechrau ystyried sut i gynyddu cynhyrchiant eu swyddogion heddlu a staff heddlu. Dyfarnwyd bod tri deg pump o luoedd yn dda o ran y graddau maent yn darparu gwerth am arian, ac roedd pump yn rhagorol. Canfu HMIC fod tri llu angen gwella; ar ail archwilio ym mis Hydref 2014, canfu HMIC fod pob un o'r tri llu yn gwneud cynnydd ac yn cymryd camau i unioni'r methiannau a diffygion a oedd wedi'u nodi.
- 3.38. Wrth i luoedd symud i ffwrdd o reoli gostyngiad cyllidebol un -tro at gynnydd parhaol yn effeithlonrwydd eu holl asedau er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau am y gost orau, bydd HMIC yn addasu a datblygu ei ymagwedd at asesu er mwyn adlewyrchu'r heriau y bydd lluoedd yn eu hwynebu wrth iddynt symud i mewn i gyfnod o gyni cynyddol a pharhaol.

Cyfreithlondeb

Crynodeb

Mae'r model Prydeinig o blismona drwy gydsyniad yn dibynnu ar gefnogaeth a chydweithrediad y cyhoedd. Er mwyn diogelu a chynnal hyn, mae'n rhaid i'r ffordd mae'r heddlu'n ymddwyn ynnddi wrth wasanaethu'r cyhoedd fod yn gyfreithlon a rhaid iddi gael ei deall a derbyn ill dau gan y cyhoedd fel un gyfreithlon.

Mae arolygon cenedlaethol yn dangos lefelau uchel o hyder cyhoeddus yn yr heddlu, ac o fodlonrwydd dioddefwyr ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn cuddio amrywiadau sylweddol ar lefel lluoedd, a phrofiadau llawer o unigolion sy'n teimlo bod yr heddlu wedi eu gadael i lawr, fel ei gilydd. Er enghraifft, adroddodd y mwyafrif o ddioddefwyr a gyfwelwyd gan yr heddlu fel rhan o'r archwiliad cam-drin domestig nad oedd yr heddlu'n eu cymryd o ddifri yn aml, eu bod yn teimlo iddynt gael eu barnu'n annheg, a bod rhai swyddogion yn arddangos diffyg sylweddol o empathi a dealltwriaeth.

Hefyd mae amrywio o ran y ffordd mae lluoedd yn ymateb i alwadau am wasanaeth gan y cyhoedd, ac o ran cywirdeb y broses o gofnodi trosedd.

Mae hyn yn golygu bod ble mae aelod o'r cyhoedd yn byw yn penderfynu:

- yr ymateb y bydd ef neu hi'n ei dderbyn gan yr heddlu ynghylch yr un math o ddigwyddiad neu drosedd;
- i ba raddau y caiff y trosedd neu ddigwyddiad ei gofnodi (ac efallai ei ymchwilio) yn gywir; a
- pha lefel o gymorth i ddioddefwyr a ddarperir.

Er bod rheswm da am rywfaint o amrywio lleol efallai, mae'n bwysig bod y cyhoedd a dioddefwyr trosedd yn gwybod pa fath o wasanaethau y dylent eu disgwyl a pham. Fodd bynnag, nid oes unrhyw esgus i beidio â chofnodi troseddau'n gywir, neu i ddioddefwyr trosedd beidio â derbyn y gefnogaeth mae ganddynt hawl iddi.

Pan edrychodd HMIC ar y trefniadau mae lluoedd wedi'u rhoi yn eu lle i sicrhau bod eu gweithluoedd yn gweithredu ag uniondeb, canfu:

- Mae'r mwyafrif o brif swyddogion yn cryfhau'r diwylliant moesegol mewn lluoedd, ond mae mwy i'w wneud i sicrhau bod y neges hon yn hidlo i lawr i bawb sy'n gweithio mewn lluoedd.

- Ar y cyfan, mae adrannau safonau proffesiynol ac unedau gwrthlygredd yn dda ynghylch delio â'r wybodaeth maent yn ei derbyn, ond mae angen gwelliannau i wella'r ffordd mae bygythion a risgiau'n cael eu nodi a'r ffordd y gweithredir arnynt. Byddai mwy o gapasiti dadansoddol yn helpu lluoedd i ddeall y risgiau maent yn eu hwynebu a sut i ddelio â hwy yn well.
- Hefyd mae gan luoedd lawer mwy i'w wneud o hyd os ydynt yn mynd i adlewyrchu a chynrychioli'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Bydd HMIC yn darparu dyfarniadau graddedig o ran cyfreithlondeb yr heddlu o 2015 ymlaen.

Cyflwyniad

- 4.1. Fel mae'r bennod flaenorol yn ei egluro, mae llawer o bethau mae'r heddlu'n eu gwneud yn dda i ddiogelu'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu, yn ogystal â meysydd a fydd angen ymdrech bellach dros y blynyddoedd sy'n dod. Ond nid yw'n ddigon i edrych ar yr hyn mae'r heddlu'n ei wneud yn unig, hefyd mae'n bwysig ystyried sut maent yn ei wneud, dyna ffocws asesiad HMIC o gyfreithlondeb yr heddlu.

Plismona drwy gydsyniad

- 4.2. Un agwedd sylfaenol ar y model Prydeinig o blismona yw'r egwyddor o blismona drwy gydsyniad. Er mwyn i'r heddlu fod yn effeithiol, mae arnynt angen cefnogaeth a chydweithrediad y cyhoedd. Dim ond os yw'r cyhoedd yn ymddiried yn yr heddlu byddant yn rhoi eu cydsyniad, ac ni ddylid cymryd hyn yn ganiataol.
- 4.3. Yn ystod y 12 mis diwethaf, bu cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau a thrafodaeth gyhoeddus ynghylch y ffordd mae rhai swyddogion wedi ymddwyn, gan godi pryderon ynglŷn â chyfreithlondeb yr heddlu ac yn fwy cyffredinol. Mae'r adolygiad a gynhaliwyd gan Mark Ellison QC o honiadau o lygredd ynghylch yr ymchwiliad i lofruddiaeth Stephen Lawrence⁵⁰, diswyddo nifer o swyddogion oherwydd camymddwyn mewn cysylltiad â'r helynt "Plebgate" bondigrybwyll yn ymwneud â'r Gwir Anrhydeddus Andrew Mitchell AS⁵¹, a'r ail adroddiad a

⁵⁰ Gofynnwyd i'r ymchwiliad benderfynu a oedd llygredd a chydgyllwyn, hiliaeth neu syrthni sefydliadol (ar eu hunain neu ar y cyd), wedi achosi'r ymchwiliad cychwynnol diffygiol iawn i lofruddiaeth Stephen Lawrence. Gweler The Stephen Lawrence Independent Review: Possible corruption and the use of undercover policing in the Stephen Lawrence case, Summary of Findings, Ellison, M., Llundain, 2014. Ar gael gan www.gov.uk

⁵¹ Ar ddydd Mercher, 19 Medi 2012, roedd digwyddiad yn Downing Street yn cynnwys y Gwir Anrhydeddus Andrew Mitchell AS a swyddogion heddlu o Grŵp Diogelu Diplomyddol yr Heddlu

gynhyrchwyd gan yr Heddlu Metropolitaidd ar Operation Herne⁵² yn dair enghraifft yn unig sydd wedi cael effaith niweidiol ar y ffordd mae'r cyhoedd yn gweld yr heddlu.

- 4.4. Er bod y digwyddiadau amlwg hyn yn gallu llunio'r ffordd mae'r cyhoedd yn gweld yr heddlu, mae'n bwysig cofio hefyd, ar sylfaen ddyddiol, bod swyddogion heddlu ledled y wlad yn gosod eu diogelwch, ac weithiau eu bywydau, mewn perygl er mwyn diogelu'r cyhoedd a dal troseddwyd; mewn rhai achosion, maent yn colli eu bywydau. Fe wnaeth yr asesiad blynyddol yn 2012/13 gan Brif Arolygydd Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi⁵³ gydnabod bod diwylliant ym maes plismona o ddewrder, penderfyniad, gwaith caled a chyrhaeddiad. Mae hyn mor wir heddiw ag y mae wedi bod erioed.
- 4.5. Hefyd gwnaeth yr asesiad hwnnw'n glir bod hawl gan y cyhoedd i ddisgwyl i'r heddlu gadw at safonau uwch o onestrwydd ac ymddygiad na'r hyn y gellid eu disgwyl gan ddinasyddion eraill. Ymddiriedir yr heddlu â chryn bwerau, cyfrifoldebau a mynediad i wybodaeth breifat a sensitif. Mae'n rhaid disgwyl i'r pwerau a chyfrifoldebau hynny gael eu defnyddio mewn ffordd gyfreithlon ac at y dibenion y'i bwriadwyd ar eu cyfer. Dyna pam bod asesiadau PEEL blynyddol newydd HMIC o heddluoedd yn archwilio pa mor dda mae'r heddlu'n darparu gwasanaeth sy'n gyfreithlon yn llygaid y cyhoedd.
- 4.6. Dylai plismona drwy gydsyniad arwain y ffordd mae swyddogion a staff yn mynd ati'n effeithlon ac effeithiol i fynd i'r afael â throedd, cefnogi dioddefwyr, cadw'r heddwch a diogelu'r cyhoedd ynddi. Mae ymchwil i'r syniad o ymddiriedaeth sefydliadol ynghylch yr heddlu⁵⁴ wedi dangos, trwy wella canfyddiadau'r cyhoedd, gall yr heddlu gynyddu eu cyfreithlondeb. Mae'r un ymchwil hefyd yn dangos y gall gwella cyfreithlondeb yr heddlu arwain at fwy o gydweithrediad cyhoeddus gyda'r heddlu a gostyngiadau mewn trosedd.

Metropolitaidd. Adroddwyd am y digwyddiad yn gyntaf yn y papur newydd The Sun ar ddydd Gwener 21 Medi 2012, a chyfeiriwyd ato'n eang fel 'Plebgate.' Am fanylion pellach, gweler Operation Alice – Closing report, Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitaidd, Llundain, 2014. Ar gael gan www.met.police.uk

⁵² Roedd Operation Herne yn ymchwiliad a arweiniwyd gan Brif Gwnstabl Mick Creedon. Yn ychwanegol at edrych ar arfer amhriodol a chamymddygiad gan Sgwad Gwrthdystiadau'r Heddlu Metropolitaidd, edrychodd, Operation Herne hefyd ar honiadau ynghylch defnydd swyddogion heddlu o hunaniaethau plant marw, ymddygiad swyddogion a oedd wedi sleifio i mewn i grwpiau amgylcheddol a materion difrifol eraill. Ar 24 Mehefin 2013, gwnaeth yr Ysgrifennydd Cartref ddatganiad i'r Senedd ar Operation Herne. Gweler Adroddiad Swyddogol Tŷ'r Cyffredin, 23 Mehefin 2014. Colofn 25, Undercover Policing. Ar gael ar www.parliament.uk

⁵³ State of Policing: The Annual Assessment of Policing in England and Wales 2012/13, HMIC, Llundain, 2014, tudalen 38. Ar gael gan www.justiceinspectores.gov.uk/hmic

⁵⁴ *It's a fair cop? Police legitimacy, public cooperation, and crime reduction*, Andy Myhill a Paul Quinton, Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona, Llundain, 2011 Ar gael gan www.college.police.uk

4.7. Os yw hyder cynyddol ymhlith y cyhoedd yn cynyddu cyfreithlondeb, mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd. Mae diffyg ymddiriedaeth, teimlad nad yw'r heddlu o blaid y cyhoedd, ymgysylltu a chyfathrebu gwael â'r cyhoedd a chanfyddiad nad yw penderfyniadau neu gamau gweithredu'n cael eu cymryd yn deg, i gyd yn cyfrannu at leihau cyfreithlondeb yr heddlu. Gall hyn olygu bod pobl yn llai bodlon i ddod ymlaen i adrodd am droseddau, yn fwy amheus ynghylch gweithgarwch yr heddlu ac yn fwy tebygol o gredu y cânt eu trin yn wahanol gan ddibynnu ar nodweddion megis eu cyfoeth, safle yn y gymdeithas, rhywedd neu ethnigrwydd. Mewn rhai achosion, gallai hyd yn oed arwain at rai unigolion yn dod yn fwy tebygol o gyflawni trosedd.

Yr ymagwedd yn yr adroddiad hwn

- 4.8. Mae'r asesiad eleni wedi tynnu tystiolaeth ynghyd o'r archwiliadau thematig blaenorol HMIC ac archwiliadau PEEL newydd fel ei gilydd. Aseswyd pob llw yn ôl y pum cwestiwn dilynol:
- Beth yw canfyddiadau'r cyhoedd o'r llw?
 - I ba raddau mae'r llw'n ymateb yn briodol i alwadau am wasanaeth?
 - I ba raddau mae'r data a gwybodaeth a ddarperir gan y llw o safon uchel?
 - I ba raddau mae lluoedd yn adlewyrchu'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu?
 - I ba raddau mae'r llw wedi gosod trefniadau yn eu lle i sicrhau bod ei weithlu'n gweithredu ag uniondeb?
- 4.9. Mae HMIC wedi defnyddio'r cwestiynau hyn i archwilio i ba raddau mae'r heddlu'n cymryd camau gweithredu a gwneud penderfyniadau sy'n deg, a sut y canfyddir yr heddlu gan y cyhoedd.
- 4.10. Hefyd mae'r ymagwedd hon wedi caniatáu i HMIC ystyried sut mae agweddau ar gyfreithlondeb, pan y'i hystyrir ar y cyd â pha mor effeithiol mae'r heddlu, neu ba mor effeithiol y dehonglir yr heddlu i fod (fel yr adroddir uchod yn y bennod ar effeithiolrwydd), yn perthyn i lefelau ymddiriedaeth a chydweithrediad y cyhoedd.
- 4.11. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae HMIC wedi edrych ar agweddau ar gyfreithlondeb wrth archwilio meysydd eraill plismona, er enghraifft cam-drin ddomestig, pa mor dda mae lluoedd yn cofnodi data, ac uniondeb a llygredd yr heddlu. Mae'r bennod hon yn trafod canfyddiadau archwiliadau HMIC eleni lle maent yn perthyn i gyfreithlondeb, gan amlygu'r meysydd hynny y byddwn yn eu harchwilio'n fanylach flwyddyn nesaf er mwyn darparu dyfarniadau graddedig.

Beth yw canfyddiadau'r cyhoedd o'r llw?

- 4.12. Mewn cymdeithas lle seilir plismona ar yr egwyddor o gydsyniad, mae'r heddlu angen cefnogaeth y cyhoedd er mwyn bod yn effeithiol. Mae nifer o archwiliadau HMIC eleni wedi gofyn i ddioddefwyr trosedd a'r cyhoedd ehangach am eu barn ar agweddau ar blismona. O edrych ar draws rhai o'r gwahanol archwiliadau hyn, mae nifer o themâu'n dod i'r amlwg.
- 4.13. Er enghraifft, fel rhan o archwiliad a edrychodd ar nifer o weithgareddau'r heddlu⁵⁵, gofynnwyd i gyfranogwyr grwpiau ffocws ystyried cwestiynau ynghylch y defnydd gorau o amser yr heddlu. Roedd yn eglur bod cyfranogwyr yn teimlo ei fod yn bwysig i'r heddlu fod â phresenoldeb gweladwy yn y gymuned. Fe ystyriodd y cyfranogwyr y galwadau niferus ar amser yr heddlu, er enghraifft atal trosedd yn y gymuned, diogelu'r cyhoedd rhag niwed a mynd ar ôl troseddwy. Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn credu bod yr heddlu'n gweithredu â pharch am y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, ac roedd cydnabyddiaeth bod gan yr heddlu waith anodd, ac mewn rhai achosion gwaith a allai bygwth eu bywydau, i'w wneud. Er y bydd y canfyddiadau hyn yn wir ar gyfer llawer, mae HMIC yn cydnabod y bydd cymunedau, neu adrannau cymdeithas, heb amheuaeth, nad ydynt yn teimlo'r un ffordd. Mae'r graddau mae'r heddlu'n ceisio ymddiriedaeth yr holl gymunedau iddynt, yn arbennig y rhai hynny sy'n llai tebygol o alw'r heddlu am gymorth, yn rhywbeth y bydd HMIC yn ei archwilio'n fanylach flwyddyn nesaf.
- 4.14. Un canfyddiad pwysig o'r grwpiau ffocws oedd yr awgrym bod y rhai hynny a oedd wedi cael llai o brofiad ô, neu gyswllt â'r, heddlu'n fwy bodlon na'r rhai hynny â mwy o brofiad personol o gyswllt â'r heddlu.
- 4.15. Hefyd ceisiwyd barn dioddefwyr drwy grwpiau ffocws ac arolwg ar-lein, fel rhan o'n harchwiliad o ymateb yr heddlu i gam-drin domestig⁵⁶. Amlygodd yr archwiliad hwn bryderon ynghylch y ffordd roedd yr heddlu'n ymateb i ddigwyddiadau gam-drin domestig.

⁵⁵ *Core Business: An inspection into crime prevention, police attendance and the use of police time*, HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

⁵⁶ *Everyone's Business: Improving the police response to domestic abuse*, HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

- 4.16. Roedd llawer o'r dioddefwyr y siaradwyd â hwy mewn perygl uwch (yn fwy tebygol o ddiodeff camdriniaeth a thrais) ac roeddynt wedi cael rhyngweithiadau lluosog gyda'r heddlu. Adroddodd y mwyafrif eu bod wedi profi agweddau gwael ar ryw adeg gan swyddogion a oedd yn ymateb. Dywedodd dioddefwyr wrth HMIC nad oeddynt wedi'u cymryd o ddifri yn aml, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu barnu'n annheg a bod rhai swyddogion wedi arddangos diffyg sylweddol o empathi a dealltwriaeth. Hefyd gwelodd HMIC rai o'r ymddygiadau hyn yn ystod archwiliadau.
- 4.17. Fe'i gwnaed yn eglur gan yr adroddiad y gallai agweddau gwael rhai swyddogion gael effaith niweidiol ar hyder y dioddefwyr yn yr heddlu cyfan. Hefyd dangosodd yr adroddiad fod y gwasanaethau a chymorth roedd dioddefwyr yn eu derbyn gan yr heddlu'n amrywio'n sylweddol. Fel y mynegwyd gan un Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig:

“Yn ein hardal ni, ac rwy'n sicr mewn llawer o ardaloedd eraill, mae'n dal yn lotri i raddau ynghylch pa fath o ymateb rydych chi'n ei gael. Mae rhai swyddogion yn wir ragorol ac mae'r adborth gan ddiodeffwyr yn ardderchog, gan eu bod yn teimlo bod y swyddogion yn gwrando arnyn nhw ac yn eu cwestiynu'n briodol a sensitif a bod y swyddogion yn eu diweddarau ar yr hyn oedd yn digwydd. Ond mae eraill, a bod yn onest, yn ofnadwy ac ymddengys nad ydyn nhw'n deall yr hyn maen nhw'n delio ag e o gwbl. Yn fwyfwy, y grŵp cyntaf yw'r mwyafrif, ond dim ond un ymateb drwg sengl mae'n ei gymryd i atal y diodeffwr rhag ceisio cymorth byth eto.”

- 4.18. Tra bod HMIC yn canmol y swyddogion, staff a lluoedd hynny sy'n deall anghenion diodeffwyr bregus, ac sy'n ymddwyn mewn ffordd broffesiynol, barchus a sensitif, dylai'r fath ymddygiad fod y norm ymhob llu. Mae gan ddiodeffwyr a'r cyhoedd ehangach yr hawl i ddisgwyl dim llai.
- 4.19. Mae ffynhonnell arall o wybodaeth ynghylch canfyddiadau'r cyhoedd yn dod o'r *Focus on Victimisation and Public Perceptions, 2012/13*⁵⁷, a gyhoeddwyd gan Y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel rhan o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW). Mae canfyddiadau pwysig o'r adroddiad hwnnw'n cynnwys:
- mae'r gyfran o oedolion a adroddodd fod yr heddlu yn eu hardal yn gwneud gwaith da neu ardderchog wedi cynyddu flwyddyn ar flwyddyn dros y degawd diwethaf. Mae'r data diweddaraf gan Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn awgrymu bod y duedd yn dechrau lefelu, â gostyngiad bach o ran cyfran y boblogaeth o oedolion sy'n rhoi graddiadau cadarnhaol i'r heddlu lleol, wrth gymharu ag arolwg 2011/12 (i lawr un pwynt canran i 61 y cant);

⁵⁷ Crime Statistics: Focus on victimisation and public perceptions, 2012/13, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llundain, 2014. Ar gael gan www.ons.gov.uk

- ers 2009/10, gofynnwyd i bobl ifanc 10 i 15 oed am eu barn ynghylch yr heddlu lleol. Mae'r gyfran â barn gadarnhaol wedi cynyddu dros amser, o 48 y cant yn arolwg 2009/10 i 55 y cant yn arolwg 2012/13. Merched ifanc (10-12 oed) yw'r grŵp sy'n fwyaf tebygol o gael barn gadarnhaol (72 y cant), tra mai bechgyn hŷn (13-15 oed) yw'r lleiaf tebygol (40 y cant); ac
 - nid oes perthynas glir rhwng yr amllder y gwelir swyddogion heddlu neu PCSOs gan y cyhoedd a'r farn sydd gan bobl ifanc 10 i 15 oed ar yr heddlu. Mae hyn yn wahanol i'r canfyddiadau ynghylch canfyddiadau oedolion o'r heddlu, lle'r oedd y rhai hynny a oedd yn cofio gweld yr heddlu'n amlach yn fwy tebygol o roi graddiadau cadarnhaol iddynt.
- 4.20. O edrych yn agosach ar y gyfran o oedolion a adroddodd fod yr heddlu yn eu hardal yn gwneud gwaith da neu ardderchog⁵⁸, mae'r ffigurau'n amrywio o oddeutu 70 y cant i oddeutu 50 y cant. Hyd yn oed gyda ffigur cenedlaethol o 61 y cant, mae'n glir bod barn y cyhoedd ynghylch a yw lluoedd yn gwneud gwaith da'n amrywio'n sylweddol ledled Cymru a Lloegr.
- 4.21. Mae ffynhonnell arall o ddata'n dod o'r Arolwg o Fodddhad Dioddefwyr, sy'n cyflwyno'r gyfran o ddioddefwyr byrgleriaeth preswyl, troseddau â cherbydau, trais ac, ar wahân, digwyddiadau hiliol a oedd yn fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd gan yr heddlu.
- 4.22. Er ei fod yn ceisio barn gan grŵp bach yn unig o ddioddefwyr, mae'r arolwg yn fesur defnyddiol o fodddhad dioddefwyr â'r heddlu. Ar gyfer dioddefwyr byrgleriaeth preswyl, troseddau â cherbydau a thrais⁵⁹, y boddhad ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 85 y cant, gan amrywio o oddeutu 80 y cant i 90 y cant. Er bod y darlun cenedlaethol yn ymddangos yn galonogol, mae amrywio sylweddol (er ei fod yn llai nag ar gyfer y CSEW) o ran y lefelau o fodddhad â'r heddluoedd.
- 4.23. Mae'r archwiliadau a'r data uchod yn rhoi darlun cymysg o farn y cyhoedd a dioddefwyr ynghylch yr heddlu, a'r ffordd mae'r heddlu'n gweithredu i annog canfyddiadau cadarnhaol. Maent yn awgrymu cysylltiad rhwng hyder yn yr heddlu a'r ffordd mae'r heddlu'n cyfathrebu â, ac yn darparu gwasanaethau i, ddioddefwyr. Hefyd maent yn awgrymu amrywio sylweddol o ran y gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr. Maent yn awgrymu bod gwelededd yr heddlu'n bwysig i'r cyhoedd, ond mae penodau blaenorol yn amlygu bod timau cymdogaeth yn cael eu tynnu i mewn i feysydd eraill o blismona, gan arwain at

⁵⁸ Ar gyfer data lluoedd ynghylch y gyfran o oedolion a adroddodd fod yr heddlu yn eu hardal leol yn gwneud gwaith da neu ardderchog, gweler y tablau atodol i Crime Statistics: Focus on victimisation and public perceptions, 2012/13, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llundain, 2014. Ar gael gan www.ons.gov.uk

⁵⁹ Mae'r nifer fach o ddioddefwyr digwyddiadau hiliol a arolygwyd ar gyfer rhai lluoedd yn golygu nad yw cymariaethau'n gadarn.

lai o welededd. Tra bod sgorau hyder y cyhoedd a boddhad dioddefwyr yn uchel, mae'r sgorau hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng lluoedd.

- 4.24. Mae ymddiriedaeth yn yr heddlu yn agwedd bwysig ar gyfreithlondeb ac ymddengys fod y darlun cyffredinol ynglŷn â hyn yn un o amrywioldeb – o ran y ffordd y darperir gwasanaethau, sut yr adleolir swyddogion, a sut mae'r cyhoedd a dioddefwyr yn asesu lluoedd.
- 4.25. Flwyddyn nesaf, bydd HMIC yn defnyddio ei archwiliadau i edrych ar yr hyn mae'r heddlu'n ei wneud a sut mae eu gweithgareddau a phenderfyniadau'n effeithio ar hyder y cyhoedd a boddhad dioddefwyr.

I ba raddau mae lluoedd yn ymateb yn briodol i alwadau am wasanaeth?

- 4.26. Fel y gwelwyd eisoes, mae cysylltiad rhwng cyswllt â'r heddlu a lefelau o hyder y cyhoedd. Dangosodd archwiliad *Core Business* HMIC⁶⁰ fod amrywiadau'n bodoli o ran y ffyrdd mae lluoedd yn ymateb i alwadau gan y cyhoedd. Roedd nifer fach o luoedd yn anelu at fynychu'r holl adroddiadau am droseddau a digwyddiadau, tra oedd y mwyafrif yn seilio eu penderfyniad ynghylch ymateb ar lefel ymddangosiadol y bygythiad, niwed a risg i'r dioddefwr, galwr neu gymuned. Roedd dau ddeg dau o'r 37 o luoedd a oedd yn defnyddio'r math hwn o blismona wedi sefydlu blaenoriaethau lleol, gan benderfynu y dylai troseddau neu ddigwyddiadau penodol gael eu mynychu gan yr heddlu bob tro. Gwnaeth rhai lluoedd eithriad i'w polisi cyffredinol fel, lle'r oedd aelod o'r cyhoedd yn gofyn i'r heddlu fynychu, byddent yn adleoli patrôl.
- 4.27. O'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr archwiliad, mae'n glir bod yr amrywio rhwng polisiâu'n golygu y bydd aelod o'r cyhoedd yn derbyn ymateb gwahanol gan yr heddlu ynghylch yr un math o ddigwyddiad neu drosedd, gan ddibynnu ar ble maent yn byw.
- 4.28. Mae HMIC yn credu bod y broblem hon yn un y bydd comisiynwyr heddlu a throseddu'n ymwybodol ohoni, ac un y byddant yn ceisio'n weithredol i fynd i'r afael â hi. Er y gallai amrywio rhwng lluoedd fod yn gwbl briodol o gofio amgylchiadau neu ddaearyddiaeth leol, mae HMIC yn ystyried, pa bolisi bynnag sydd yn ei le, y dylid ymgynghori â'r cyhoedd ar y math o wasanaeth y gallant ei ddisgwyl a pham – eto dim ond un llu sydd wedi ymgynghori ar ei bolisi ynghylch mynychu.

⁶⁰ Core Business: An inspection into crime prevention, police attendance and the use of police time, HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectores.gov.uk/hmic

- 4.29. Mae'r cyhoedd angen gwybodaeth a fydd yn eu helpu i asesu a yw'r heddlu'n deg ac effeithiol yn y ffordd maent wedi penderfynu ymateb, a dylent gael y cyfle i herio polisi eu lluo os ydynt yn teimlo ei fod yn addasach i anghenion yr heddlu yn hytrach nag anghenion y gymuned. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod archwiliad HMIC, mae'n glir nad yw hyn yn digwydd.
- 4.30. Mae mandad comisiynwyr heddlu a throseddau'n dod yn uniongyrchol o'r bobl maent yn eu gwasanaethu, ac mae ganddynt rôl hollbwysig o ran herio a chefnogi prif gwnstabiliaid, a sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod beth mae eu heddluoedd yn ei wneud i ddiogelu pobl a chadw cymunedau'n ddiogel. Os nad yw'r cyhoedd yn gwybod pa fath o ymateb y byddant yn ei dderbyn pan alwant yr heddlu am gymorth, gallai effeithio'n niweidiol ar eu hyder yn yr heddlu.
- 4.31. Felly mae comisiynwyr heddlu a throseddau yn y sefyllfa orau i sicrhau bod lluoedd yn cyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl pan alwant am gymorth. Hefyd mae comisiynwyr heddlu a throseddau mewn sefyllfa dda i sicrhau bod polisiâu ar heddlu'n mynychu yn ystyried anghenion y cymunedau a wasanaethir, yn hytrach na bod yn addas yn anghymesur i anghenion yr heddlu.

I ba raddau mae'r data a gwybodaeth a ddarperir gan bob lluo o safon uchel?

- 4.32. O dan y Cod Ymarfer i Ddiodefwyr Troseddau⁶¹, mae gan ddiodefwyr hawl i ystod o wasanaethau. Felly mae'n bwysig y cofnodir troseddau'n gywir. Os na chofnodir trosedd, efallai na fydd diodefwyr yn derbyn y cymorth priodol y mae ganddynt hawl iddo. Hefyd mae'n wir, os nad yw'r heddlu'n deall yn llawn y mathau o droseddau sy'n digwydd, mynychder y fath droseddau a ble maent yn digwydd, mae'n annhebygol y caiff swyddogion a staff eu hadleoli'n gywir, neu y caiff systemau eu rhoi yn eu lle i atal trosedd. Ni all lluo nad yw'n cofnodi trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gywir, ac felly nad yw'n deall y galwadau a osodir arno, fod yn effeithiol neu effeithlon.
- 4.33. Canfu archwiliad HMIC ar ddata trosedd⁶² fod mwy nag 800,000 o droseddau a adroddwyd wrth yr heddlu wedi mynd heb eu cofnodi bob blwyddyn, gan gynrychioli cyfartaledd cenedlaethol o dan-gofnodi o 19 y cant. Mae'r broblem yn fwyaf ar gyfer diodefwyr trais yn erbyn yr unigolyn a throseddau rhywiol, lle mae'r cyfraddau cyfartalog cenedlaethol ar gyfer tan-gofnodi'n 33 y cant a 26 y

⁶¹ *Cod Ymarfer i Ddiodefwyr Troseddau*, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain, 2013. Ar gael gan www.gov.uk

⁶² *Crime recording: Making the victim count- The final report of an inspection of crime data integrity in police forces in England and Wales*, HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

cant yn ei dro. Mae'r methiant hwn i gofnodi cyfran mor sylweddol o droseddau a gofnodir yn gwbl annerbyniol.

- 4.34. Hyd yn oed pan gofnodir troseddau'n gywir, mae gormod yn cael eu tynnu neu eu canslo fel troseddau a gofnodir heb reswm da. O'r 3,246 o benderfyniadau adolygedig i ganslo cofnod trosedd, neu i ddatgan nad oedd y cofnod trosedd yn drosedd, roedd 664 yn anghywir. Roedd y rhain yn cynnwys mwy na 200 o achosion treisio a mwy na 250 o droseddau trais yn erbyn yr unigolyn. Mae hyn yn golygu y gallai troseddwyr a ddylai gael eu hymlid gan yr heddlu beidio â chael eu dwyn i gyfiawnder ac efallai y byddai gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt yn cael eu gwadu i ddiodefwr.
- 4.35. Pan ddatganir nad yw trosedd yn drosedd, dylai'r heddlu hysbysu'r diodefwr o'r penderfyniad i dynnu neu ganslo'r cofnod trosedd. Fodd bynnag, mewn mwy nag 800 o'r 3,246 penderfyniadau adolygedig, ni allai archwilwyr ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod y diodefwr wedi'i hysbysu o'r penderfyniad i ddatgan nad oedd eu hadroddiad yn drosedd. Mae hyn yn golygu y gallai diodefwr fod dan yr argraff bod eu troseddau'n dal i gael eu cofnodi a'u hymchwilio pan nad ydynt.
- 4.36. Yn ogystal â'r amrywio o ran y mathau o droseddau a gofnodir, hefyd mae amrywio eang rhwng lluoedd o ran cywirdeb y broses o gofnodi trosedd. Archwiliodd HMIC heddluoedd i benderfynu faint oedd yn cofnodi trosedd yn gywir. Canfuwyd bod rhai lluoedd yn cofnodi bron i bob adroddiad o drosedd, tra bod eraill yn cofnodi oddeutu dau o bob tri'n unig.
- 4.37. Nid oes rheswm da pam nad yw'r holl lluoedd yn cofnodi pob trosedd yn gywir. Mae'r cyfarwyddyd a phrosesau ar gyfer cofnodi trosedd wedi'u sefydlu ers talwm – y diffyg trefniadau cofnodi, methiannau o ran arweinyddiaeth a goruchwyliaeth ac anfodlonrwydd rhai swyddogion i gredu diodefwr sy'n golygu bod trosedd yn cael ei dan-gofnodi. Os nad yw lluoedd yn cymryd cofnodi trosedd yn ddigon difrifol, mae'n annhebygol y bydd diodefwr yn hyderus y bydd yr heddlu a'r system gyfiawnder troseddol yn eu cymryd o ddifri.
- 4.38. Mae HMIC yn glir y dylid sefydliadu'r rhagdybiaeth y dylid credu'r diodefwr bob tro.
- 4.39. Mae'r adroddiad yn casglu y dylai lluoedd wneud y dilynol i sicrhau eu bod yn cofnodi trosedd yn gywir:
 - symleiddio trefniadau – o'r galwad cychwynnol gan ddiodefwr, i ddiwedd ymchwiliad, mae nifer o bwyntiau lle gallai trosedd gael ei gofnodi'n anghywir neu gael ei ddatgan nad yw'n drosedd. Mae lluoedd sydd â phrosesau syml a chlir yn eu lle yn llai tebygol o wneud camgymeriadau yn y broses gofnodi.

- hyfforddi'r bobl briodol – mae gwybodaeth ddigonol o reolau cyfrif troseddau'r Swyddfa Gartref yn ofynnol i staff sy'n delio â dioddefwyr troseddau, gan gynnwys staff y cownter blaen, gweithredwyr yr ystafell reoli a swyddogion heddlu; ac
- arweinyddiaeth – dylai arweinyddiaeth y llu ei wneud yn glir i'r holl swyddogion a staff pam bod cofnodi cywir yn bwysig. Hefyd dylent gymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod y systemau a hyfforddiant angenrheidiol yn eu lle a bod troseddau'n cael eu cofnodi'n gywir. Os nad yw lluoedd yn deall y galwadau a osodir arnynt yn gywir, ni allant gynllunio na blaenoriaethu adnoddau'n gywir. Ac os nad ydynt yn cofnodi troseddau'n gywir, mae dioddefwyr yn cael eu gadael i lawr, nid yw'r cymunedau'n cael eu diogelu'n gywir, a bydd ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr heddlu'n dioddef.

4.40. Mae'r rhain yn newidiadau cymharol syml, ond rhai a allai wneud gwahaniaeth mawr.

I ba raddau mae lluoedd yn adlewyrchu'r cymunedau maent yn eu cynrychioli?

- 4.41. Mae gan yr heddlu rôl bwysig i'w chwarae mewn mynd i'r afael â gwahaniaethu anghyfreithlon a hyrwyddo cydraddoldeb – fel unigolion yn gweithio gyda sefydliad mawr (yr heddlu dan sylw) ac fel unigolion sydd wedi eu hymddiried â phwerau sylweddol er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel fel ei gilydd. Mae angen i unigolion a chymunedau wybod bod y rhai hynny a ymddiriedir â phwerau sylweddol er mwyn eu cadw'n ddiogel yn gweithredu'r pwerau hynny'n deg, cymesur a heb unrhyw duedd neu wahaniaethu gormodol.
- 4.42. Yn 2010, cyhoeddodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu a'r Swyddfa Gartref ar y cyd strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar gyfer yr heddlu⁶³. Cyflwynodd tair thema troswaol ar gyfer gwella:
- cyflenwi gweithredol – dylai gwasanaethau fod yn hawdd eu cyrchu gan gwrdd ag anghenion pob cymuned;
 - pobl a diwylliant – dylai lluoedd greu amgylchedd gweithio sy'n gynhwysol ac sy'n annog pawb i wneud cynnydd; a
 - prosesau sefydliadol – dylai lluoedd adeiladu cydraddoldeb i mewn i'w prosesau a sut maent yn rheoli eu perfformiad.

⁶³ *Equality, Diversity and Human Rights Strategy for the Police Service*, ACPO / Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu / Y Swyddfa Gartref, Llundain, 2010. Ar gael gan www.acpo.police.uk

- 4.43. Mae HMIC yn cytuno â'r themâu hyn, ac â nodau'r strategaeth i wella amrywiaeth o fewn yr heddlu, i wella hyder y cyhoedd, ac i wella boddhad dioddefwyr. Fel rhan o archwiliad PEEL flwyddyn nesaf, byddwn yn ystyried i ba raddau mae lluoedd yn adlewyrchu'r cymunedau maent yn eu gwasanaethau, ac a yw polisi ac ymarfer y llu'n cael eu gweithredu'n deg.
- 4.44. Yn 2014, ystyriodd HMIC pa mor dda mae lluoedd yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Er bod menywod yn cyfrif am hanner poblogaeth Cymru a Lloegr⁶⁴, fe'u tangynrychiolir mewn heddluoedd. Dim ond 39 y cant o weithlu'r heddlu cyfan sy'n fenywod. O ran niferoedd o swyddogion heddlu (h.y. gan eithrio staff heddlu), dim ond 28 y cant o swyddogion heddlu sy'n fenywod.
- 4.45. Mae canfyddiad tebyg yn dod i'r amlwg ynghylch y swyddogion a staff hynny sy'n dod o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME). Yn ôl Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae pobl BME yn cyfrif am 14 y cant o boblogaeth Cymru a Lloegr⁶⁵. O 31 Mawrth 2014, dim ond 6 y cant o weithlu cyfan yr heddlu oedd yn dod o gefndir BME. Eto, o edrych ar niferoedd o swyddogion heddlu dim ond 5 y cant oedd yn dod o gefndir BME.
- 4.46. Yn *Policing in Austerity: Meeting the Challenge*⁶⁶, gwnaeth HMIC yn glir bod methiant wedi digwydd ynghylch gwella'r sefyllfa ar rywedd ac ethnigrwydd fel ei gilydd dros hynt cyfnod yr adolygiad o wariant. Mae'r canran o swyddogion benywaidd a'r canran o swyddogion o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wedi aros yn ddigyfnewid ers 2010/11.
- 4.47. O gofio bod y cyfnod o gyni'n debygol o barhau, bydd cyfleodd cyfyng yn unig i luoedd adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau maent yn eu gwasanaethu trwy recriwtio mwy o unigolion oddi wrth grwpiau a dan-gynrychiolir. Ond ni ddylai hyn fod yn esgus i dderbyn y status quo. Erbyn hyn mae llawer o luoedd wedi aildechrau recriwtio staff a swyddogion, ac mae rhai lluoedd yn dechrau manteisio ar y cynllun mynediad uniongyrchol ar gyfer arolygwyr ac uwch-arolygwyr⁶⁷. Mae hyn yn cyflwyno cyfle ar gyfer gwella, ac mae HMIC yn annog lluoedd i fanteisio arno.

⁶⁴ 2011 Census: Key Statistics for England and Wales, Mawrth 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llundain, 2012, tudalen 5. Ar gael gan www.ons.gov.uk

⁶⁵ 2011 Census: Ethnicity and National Identity in England and Wales 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llundain, 2012 tudalen 3. Ar gael gan www.ons.gov.uk

⁶⁶ *Policing in Austerity: Meeting the Challenge*, HMIC, Llundain, 2014. Ar gael gan www.justiceinspectores.gov.uk/hmic

⁶⁷ SGweler Independent Review of Police Officer and Staff Remuneration and Conditions of Service, Final Report, Vol 1, Llyfrfa Ei Mawrhydi, Llundain, Mawrth 2012, Cmnd 8325-1. Mae rhagor o wybodaeth ar fynediad uniongyrchol ar gael gan www.college.police.uk

- 4.48. Mae rhai lluoedd yn cymryd camau gweithredol i wneud gwelliannau yn y maes pwysig hwn o gynllunio'r gweithlu. Er enghraifft, mae Heddlu Gorllewin y Canolbarth, yr Heddlu Metropolitan aidd a Heddlu Swydd Bedford wedi cynnal ymgyrchoedd recriwtio i dargedu cymunedau a dan-gynrychiolir. Yng Ngorllewin y Canolbarth, mae pobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yn eistedd ar baneli dewis i wella hyder y cyhoedd yn y broses ddewis.
- 4.49. Mae rhai lluoedd wedi cyfyngu'r gronfa ar gyfer recriwtio swyddogion heddlu i'w PCSOs a chwnstabiailid arbennig, sy'n fwy cynrychiadol o amrywiaeth cymunedau lleol. Mae pedwar deg pump o PCSOs yn fenywod ac mae naw y cant yn dod o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig. Mae tri deg un y cant o gwnstabiailid arbennig yn fenywaidd ac mae 11 y cant yn dod o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.
- 4.50. Bydd HMIC yn archwilio i ba raddau mae lluoedd yn adlewyrchu'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu fel rhan o'i archwiliadau PEEL flwyddyn nesaf.

I ba raddau mae'r lluoedd wedi rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau bod ei weithlu'n gweithredu ag uniondeb?

- 4.51. Mae swyddogion a staff heddlu sy'n gweithredu ag uniondeb yn cynnal safonau moesegol uchel ac yn gweithredu'n gyfreithlon ac yn unol â'r Cod Moeseg⁶⁸ a gwerthoedd proffesiynol eu lluoedd. Dyma un o'r materion a ystyriwyd gan archwiliad uniondeb a llygredd heddlu HMIC. Fe asesodd pa gamau roedd heddluoedd yn eu cymryd i sicrhau bod swyddogion heddlu a staff heddlu yn gweithredu ag uniondeb ac i ba raddau oedd heddluoedd yn atal, nodi, ymchwilio a chael gwared ar gamymddwyn a llygredd.
- 4.52. Dyma'r tro cyntaf ers 2006⁶⁹ mae HMIC wedi edrych yn llydan ar alluogrwydd a chapasiti lluoedd i frwydro yn erbyn camymddwyn a llygredd. Trwy wneud hynny, casglodd HMIC ddata ar gwynion, materion ynghylch ymddygiad a chanlyniadau ymchwiliadau, yn ogystal â galluogrwydd a chapasiti adrannau safonau proffesiynol ac unedau gwrthlygredd.
- 4.53. Ystyriodd yr archwiliad bedwar maes:

⁶⁸ *Code of Ethics: A Code of Practice for the Principles and Standards of Professional Behaviour for the Policing Profession of England and Wales*, Coleg Plismona, Llundain, 2014. Ar gael gan www.college.police.uk

⁶⁹ *Raising the Standard: A thematic inspection of professional standards*, HMIC, Llundain, 2006. Ar gael gan www.justiceinspectors.gov.uk/hmic

- pa gynnydd roedd pob llu wedi'i wneud ers yr archwiliad dilynol yn 2012 i'r adroddiad *Without Fear or Favour*⁷⁰ yn 2011;
- i ba raddau mae ymddygiad moesegol yn cael ei gyfathrebu ac ymwreiddio ar draws pob llu;
- i ba raddau mae pob llu'n chwilio'n rhagweithiol am heriau ac yn ymchwilio i gamymddwyn ac ymddygiad amhroffesiynol; a
- pa mor dda mae pob llu'n nodi, atal ac ymchwilio i lygredd.

Y cynnydd a wnaed gan heddluoedd ynghylch yr argymhellion a wnaed gan HMIC yn 2012

- 4.54. Yn 2011, yn dilyn y sgandal ynghylch hacio ffonau⁷¹, comisiynodd yr Ysgrifennydd Cartref HMIC i ystyried enghreifftiau o ddylanwad gormodol, trefniadau contractio amhriodol ac enghreifftiau eraill o gamddefnyddio pŵer mewn perthnasau rhwng yr heddlu a'r cyfryngau a phartïon eraill, ac i wneud argymhellion ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud.⁷² Gwnaeth yr adroddiad yn glir na ddaeth HMIC o hyd i unrhyw dystiolaeth o lygredd eang. Fodd bynnag, casglodd yr adroddiad hefyd nad oedd arweinwyr o fewn yr heddlu'n blaenoriaethu materion ynghylch uniondeb na llygredd, ac nad oeddynt yn ddigon ymwbyddol o'r risgiau i enw da eu lluoedd.
- 4.55. Yn Rhagfyr 2012, fe wnaeth HMIC gyhoeddi adroddiad ar gynnydd yn dilyn *Without Fear or Favour*⁷³. Casglodd hwn, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, fod angen gwneud mwy i ymgorffori diwylliant o uniondeb mewn lluoedd, ac i sicrhau bod systemau llywodraethu priodol yn eu lle i wirio a oedd polisïau a phrosesau'n cael eu gweithredu'n gywir. Hefyd canfu'r adroddiad fod cyflymder y newid mewn lluoedd yn rhy araf a bod cynnydd yn anghyson ar draws lluoedd.

⁷⁰ *Without Fear or Favour: A review of police relationships*, HMIC, Llundain, 2011. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

⁷¹ Mae datganiad y Prif Weinidog ar 20 Gorffennaf 2011 i'r Senedd yn dilyn honiadau bod newyddiadurwyr yn ymwneud â hacio ffonau, llwgrwobrwyo'r heddlu ac ymarfer dylanwad amhriodol wrth ddilyn straeon, ar gael ar: <https://www.gov.uk/government/speeches/pm-statement-on-phone-hacking>

⁷² *Without Fear or Favour: A review of police relationships*, HMIC, Llundain, 2011. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

⁷³ *Revisiting Police Relationships: Progress report*, HMIC, Llundain, 2012. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

- 4.56. Fe wnaeth archwiliad HMIC yn 2014 ganfod bod y mwyafrif o luoedd wedi gwneud gwelliannau ers 2012. Er bod rhai lluoedd wedi gwneud cynnydd da ynghylch nodi a mynd i'r afael â materion ynghylch uniondeb a llygredd, roedd yn ymddangos bod lluoedd eraill wedi gwneud ond ychydig o gynnydd.

I ba raddau mae ymddygiad moesegol yn cael ei gyfathrebu ac ymgorffori ar draws y llu

- 4.57. Un o'r canfyddiadau cadarnhaol o'r archwiliad oedd, yn y mwyafrif o luoedd, bod prif swyddogion wedi bod yn darparu arweinyddiaeth weladwy ar ymddygiad moesegol ac wedi bod yn cyfathrebu â swyddogion a staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn a ddisgwylid ganddynt. Casglodd HMIC enghreifftiau cadarnhaol o'r cyfathrebu hwn yn digwydd mewn sioeau teithiol, cyfathrebiadau mewnol a digwyddiadau lle'r oedd prif swyddogion yn siarad a chwrdd â swyddogion a staff o bob rhan o'u lluoedd – hyn oll yn arddangos eu bod yn cymryd y mater hwn o ddifri. Yr hyn na wnaeth HMIC ei ganfod, fodd bynnag, oedd bod y negeseuon hyn yn hidlo i lawr i'r holl swyddogion a staff. Er bod hyn yn amrywio o lu i lu, casgliad HMIC oedd bod gan yr holl brif swyddogion fwy i'w wneud ynghylch creu diwylliant moesegol yn eu lluoedd.
- 4.58. O gofio'r pwysigrwydd a osodir ar uniondeb ac ymddygiad moesegol gan brif gwnstabiail, roedd hefyd yn siomedig mai ond ychydig iawn o luoedd oedd yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd i ystyried barn y cyhoedd ynghylch eu hymddiriedaeth a hyder yn eu lluoedd. Byddai gofyn i'r cyhoedd a oedd gweithredoedd y llu'n cael effaith gadarnhaol yn ddull defnyddiol i luoedd ddeall sut y gallant wella hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd.
- 4.59. Roedd hyfforddiant ar faterion ynghylch uniondeb a llygredd wedi'i ddarparu drwy becyn hyfforddi ar-lein ymhob llu. Er i lawer o swyddogion a staff ddweud eu bod wedi "clicio trwy'r" cwrs hyfforddi yn unig, dywedodd eraill wrth HMIC eu bod wedi cael y cwrs yn addysgiadol a defnyddiol.
- 4.60. I gyfannu'r hyfforddiant presennol, mae HMIC yn disgwyl y defnyddir y Cod Moeseg,⁷⁴ a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan brif swyddogion ac arweinyddion eraill yr heddlu, i sicrhau bod ffiniau ymddygiad derbyniol yn glir i bawb sy'n gweithio ym maes plismona. Canfu HMIC, yn y mwyafrif o luoedd, fod cynlluniau yn eu lle i sicrhau cydymffurfriad greddfol â'r cod newydd, sydd i'w groesawu. Fel rhan o'r archwiliad ar yr holl luoedd flwyddyn nesaf, mae HMIC yn bwriadu adolygu i ba raddau mae hyn yn digwydd.

⁷⁴ *Code of Ethics: A Code of Practice for the Principles and Standards of Professional Behaviour for the Policing Profession of England and Wales*, Coleg Plismona, Llundain, 2014. Ar gael gan www.college.police.uk

4.61. Mae HMIC yn casglu, er bod trafodaethau ynghylch annog ymddygiad moesegol mewn gweithgareddau dyddiol yn digwydd yn fwy rheolaidd, bod angen llawer mwy o waith cyn i'r fath ymddygiad ddod yn norm. Dyma faes arall y bydd HMIC yn dychwelyd ato flwyddyn nesaf.

I ba raddau mae pob llu'n edrych yn rhagweithiol am, herio ac ymchwilio i gamymddygiad ac ymddygiad amhroffesiynol

- 4.62. Canfu archwiliad HMIC fod gan y mwyafrif o luoedd systemau da yn eu lle i gofnodi cysylltiadau hysbysadwy – h.y. sefyllfaoedd lle mae gan swyddogion a staff gysylltiad ag unigolyn a allai beryglu eu huniondeb. Roedd gan bron i bob un o'r lluoedd systemau da yn eu lle i gofnodi ceisiadau gan aelodau'r llu i gael neu gynnal buddiannau busnes allanol. Gall meddu ar gofnodion clir o fuddiannau busnes a chysylltiadau hysbysadwy helpu i ddiogelu'r swyddog neu aelod o staff dan sylw fel ei gilydd, a'r heddlu cyfan, rhag honiadau o amhriodoldeb neu lygredd. Oherwydd hynny, mae HMIC yn falch bod gan y mwyafrif o luoedd systemau da yn eu lle.
- 4.63. Fodd bynnag, roedd llai o dystiolaeth i awgrymu, lle'r oedd ceisiadau ynghylch buddiannau busnes wedi'u gwrthod, bod unrhyw adolygiad dilynol wedi'i wneud gan y llu er mwyn sicrhau cydymffurfriad â'r penderfyniadau hyn. Dim ond ychydig iawn o luoedd oedd wedi dilyn ceisiadau a wrthodwyd. Mae hyn yn cynyddu'r risg o lygredd neu gamymddwyn.
- 4.64. Canfu HMIC nad oedd digon o luoedd yn ymgymryd â digon o ddadansoddiad i nodi tueddiadau, risgiau neu fygythion ar faterion ynghylch camymddwyn neu lygredd. Dylai lluoedd fod yn bryderus ynglŷn â hyn. Gallai datblygu mwy o alluogrwydd dadansoddol o fewn llu arwain at gynnydd yn y llwyth gwaith yn y tymor byr i adrannau safonau proffesiynol ac unedau gwrthlygredd wrth i risgiau a bygythion ddechrau cael eu nodi. Fodd bynnag, os bydd lluoedd yn buddsoddi yn yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn delio â'r cynnydd hwn, dylent ddisgwyl bod ar eu hennill yn y tymor hwy drwy leihau'r gwaith a achosir gan gamymddwyn a llygredd. Hefyd, wrth gwrs, bydd yn llai tebygol y bydd y cyhoedd yn colli hyder yn y llu
- 4.65. Hefyd canfu HMIC amrywio sylweddol ynghylch a ddefnyddiwyd gwybodaeth ar gamymddwyn neu ymddygiad amhroffesiynol wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyrchafu, neu mewn penderfyniadau i drosglwyddo swyddogion neu staff i rolau arbenigol. Y brif risg i luoedd heb systemau yn eu lle i sicrhau yr ystyrir yr wybodaeth hon ar yr adegau hyn, yw bod y rhai hynny a allai wedi gweithredu'n amhriodol yn cael eu rhoi mewn rolau lle gall eu hymddygiad gael effaith mwy niweidiol ar eu cydweithwyr, ar y llu cyfan ac, o bosibl, ar ddioddefwyr trosedd a'r cyhoedd. Mae hwn yn faes y bydd HMIC yn dychwelyd ato flwyddyn nesaf.

4.66. Mae HMIC yn cydnabod y bydd gwneud newidiadau i sut mae adrannau safonau proffesiynol neu unedau gwrthlygredd yn cael adnoddau yn her i lawer o luoedd. Mewn mwy na hanner o luoedd, casglodd HMIC nad oedd gan yr adran safonau proffesiynol ddigon o adnoddau i fod mor rhagweithiol ac effeithiol â phosibl. Mae'n rhaid gweld hyn yng nghyd-destun ehangach cyni. Mae'r ffaith bod llawer o luoedd wedi cynnal y lefel o adnoddau sydd ar gael i adrannau safonau proffesiynol ac unedau gwrthlygredd yn galonogol pan yw toriadau wedi'u gwneud mewn mannau eraill. Fodd bynnag, mae llawer o luoedd wedi cydnabod yr angen i wneud mwy, ac maent yn gosod systemau neu drefniadau newydd yn eu lle, neu'n cynyddu'r adnoddau sydd ar gael. Serch hynny, mae risg yn bodoli, ac mae'n fwy tebygol o ymddangos os nad yw lluoedd yn sicrhau eu bod yn deall y risgiau a bygythion i'r llu yn llawn, ac yn rhoi mesurau digonol yn eu lle i fynd i'r afael â hwy.

Pa mor dda mae pob llu'n nodi, atal ac ymchwilio i honiadau o gamymddwyn

- 4.67. Gofynnodd yr archwiliad a oedd swyddogion a staff yn credu bod pawb sy'n gweithio yn y llu – heb ystyried eu rheng neu rôl – yn cael eu trin yn deg o ran sut mae honiadau o gamymddwyn yn cael eu hasesu, cofnodi, ymchwilio a thrafod. Mewn ychydig o dan hanner y lluoedd, roedd rhai o'r bobl a gwestiynwyd yn ystyried nad oedd honiadau'n cael eu trafod yn deg. Nid oes gan HMIC unrhyw dystiolaeth i wrthbrofi na chefnogi'r honiadau hyn, ond mae'r ffaith bod y canfyddiad o duedd yn ymddangos i fod mor gryf yn peri pryder ynddi ei hunan. Mae HMIC yn bwriadu gwneud dadansoddiad pellach ar sut mae cwynion neu honiadau'n cael eu hymchwilio a'u trafod fel rhan o'i raglen archwilio newydd flwyddyn nesaf er mwyn asesu a yw'r canfyddiad o duedd neu wahaniaethu gormodol yn ddilys.
- 4.68. Yn y cyfamser, mae HMIC yn disgwyl y bydd lluoedd yn cymryd unrhyw awgrym o duedd neu wahaniaethu gormodol o ddifri o ran sut mae honiadau o gamymddwyn neu lygredd yn cael eu trafod, ac y byddant yn rhoi mesurau yn eu lle i'w bodloni eu hunain, a'u swyddogion a staff, bod eu systemau a phrosesau'n deg.
- 4.69. Yn y mwyafrif o luoedd, roedd HMIC yn fodlon bod gwrandawriadau camymddwyn yn agored ac yn gwneud defnydd o gadeirydd annibynnol â chymwysterau priodol. Hefyd roedd HMIC yn fodlon bod y mwyafrif o luoedd yn defnyddio diswyddo carlam⁷⁵. Mewn achosion priodol, mae hyn i'w annog, gan ei

⁷⁵ Gweithdrefnau carlam a gynllunnir i drafod achosion lle mae'r dystiolaeth yn ddiarnheul ar ffurf datganiadau, dogfennau neu ddeunydd arall (e.e. CCTV) ac felly mae'n ddigonol heb dystiolaeth bellach i brofi camymddwyn difrifol ac mae er lles y cyhoedd. Lle canfyddir y fath achos, neu lle mae'n cael ei gyfaddef, bydd y swyddog heddlu'n peidio â bod yn aelod o'r gwasanaeth heddlu ar unwaith. Am fanylion,

fod yn sicrhau nad yw achosion yn cael eu hymestyn yn ddiangen, a allai effeithio'n niweidiol ar bwrs y cyhoedd a hyder y cyhoedd. Yn y mwyafrif o luoedd, roedd polisïau clir a phroses gyson o wneud penderfyniadau ynghylch atal dros dro, ymddiswyddo neu ymddeol yn ystod ymchwiliadau.

- 4.70. Cododd yr archwiliad ddau gwestiwn hollbwysig sydd angen ystyriaeth bellach. Os nad oedd lluoedd yn nodi risgiau a bygythion y dyfodol, a allent fod yn fodlon bod ganddynt ddealltwriaeth glir o gamymddwyn a llygredd? Ac os oedd swyddogion a staff yn canfod tuedd o ran sut oedd cwynion neu honiadau'n cael eu trafod, pa oblygiadau oedd hyn yn eu cael i'r arweinyddiaeth ac arferion arweinyddiaeth yn y llu? Bydd HMIC yn dychwelyd i'r cwestiynau hyn flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser, dylai lluoedd adolygu eu systemau, yn arbennig o ran y cwestiwn diwethaf.

Pa mor dda mae'r llunodi, atal ac ymchwilio i lygredd?

- 4.71. Mae pryderon HMIC ynghylch a oes gan adrannau safonau proffesiynol ddigon o adnoddau i chwilio am gamymddwyn a mynd i'r afael ag ef yn gyfartal gymwys i unedau gwrthlygredd. A siarad yn fras, roedd swyddogion a staff yn gallu delio â'r wybodaeth a ddygwyd i'w sylw, ond nid oedd ganddynt ddigon o gapasiti i chwilio am fygythion a risgiau ar sylfaen reolaidd ac aml, nag i roi systemau yn eu lle i rwystro'r fath risgiau rhag ymddangos. Roedd eithriadau trawiadol: fe wnaeth Glannau Mersi, Swydd Derby a'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitaidd arddangos eu bod wedi gwneud ymdrechion sylweddol, nid yn unig i sicrhau bod gan eu hunedau gwrthlygredd ddigon o adnoddau, ond hefyd i roi mesurau yn eu lle i atal llygredd rhag digwydd yn y lle cyntaf.
- 4.72. Er ein bod yn bryderus ynghylch capasiti rhagweithiol mwyafrif yr unedau gwrthlygredd, roedd HMIC yn falch bod gan bron yr holl luoedd systemau yn eu lle i gadw'r risg o lygredd at isafswm mewn gweithrediadau yn erbyn carfannau troseddau cyfundrefnol. Fel arfer roedd y lluoedd hyn yn sicrhau bod cynrychiolydd o'r adran safonau proffesiynol neu'r uned wrthlygredd yn bresennol pan oedd gweithrediadau i fynd i'r afael â charfannau troseddau cyfundrefnol yn cael eu cynllunio, fel y gallent amlygu unrhyw bryderon ynghylch timau neu swyddogion unigol.
- 4.73. Mae'n amlwg bod y canfyddiadau uchod wedi'u cysylltu – bydd lluoedd sy'n buddsoddi mewn dadansoddi'r risgiau a bygythion a gyflwynir gan gamymddwyn a llygredd ymhlith swyddogion a staff yn deall y problemau ac, yn y tymor byr o leiaf, byddant yn gweld cynnydd yn y llwyth gwaith wrth iddynt gaffael rhagor o gudd-wybodaeth a gweithredu arni. Ond hefyd byddant mewn sefyllfa well i

gynllunio ar gyfer y dyfodol, ac i roi mesurau yn eu lle i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â bygythion y dyfodol. Ar y llaw arall, mae lluoedd heb y systemau yn eu lle i sicrhau eu bod yn deall y bygythion a risgiau maent yn eu hwynebu yn fwy tebygol o fod yn amharod pan fydd problemau'n codi. Hefyd efallai y byddant yn fwy tebygol o'u hargyhoeddi eu hunain nad oes problemau o fewn eu lluoedd, gan nad ydynt yn chwilio amdanynt ac nad ydynt yn gwybod ble allai'r bygythion fod. Mae'r fath ymagwedd yn peri pryder ac mae'n debygol o effeithio'n niweidiol ar gyfreithlondeb lluoedd.

- 4.74. Cyhoeddir asesiad llawnach ar uniondeb a llygredd yn yr heddlu yn gynnar yn 2015.

Defnydd yr heddlu o bwerau

- 4.75. Mae'r ffordd mae'r heddlu'n defnyddio eu pwerau'n mynd i galon y cwestiwn a ydynt yn gweithredu â chyfreithlondeb. Os ydynt yn camddefnyddio neu'n gweithredu eu pwerau'n annheg, anghyfreithiol neu anghymesur caiff ymddiriedaeth y cyhoedd ei niweidio.
- 4.76. Yn ystod blynyddoedd diweddar, mae pryderon wedi bod ynghylch sut mae'r heddlu'n ymarfer eu pwerau stopio a chwilio. Yn 2013, cyhoeddodd HMIC adroddiad⁷⁶ a ganfu bod chwarter y bobl a arolygwyd⁷⁷ yn credu bod yr heddlu'n defnyddio'r pwerau hyn mewn ffordd sy'n gwahaniaethu'n ormodol yn erbyn carfannau penodol. Ymhlith y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a arolygwyd, roedd mwy na hanner yn credu bod hyn yn wir. Hefyd nododd yr adroddiad, mewn 27 y cant o achosion, nad oedd gan y cofnodion stopio a chwilio a oedd wedi'u hadolygu'r seiliau rhesymol i ddrwgdybio. Yn yr achosion hyn, gallai gweithredoedd yr heddlu wedi bod yn anghyfreithlon.
- 4.77. Ar 26 Awst 2014, lansiodd yr Ysgrifennydd Cartref gynllun 'Best Use of Stop and Search'⁷⁸. Fe wnaeth lluoedd gefnogi'r cynllun gwirfoddol hwn drwy gyflwyno lefelau uwch o awdurdodiad cyn ystyried defnyddio'r pŵer yn adran 60 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (y pŵer i stopio a chwilio pobl os rhagwelir trais difrifol heb reswm da, gan gredu y gallent fod yn cario arfau). Hefyd cytunodd lluoedd i roi mesurau yn eu lle i gofnodi canlyniadau chwiliadau'n well er mwyn cynyddu effeithiolrwydd stopio a chwilio, a gwella canfyddiad y cyhoedd ohono.

⁷⁶ *Stop and Search Powers: Are the police using them effectively and fairly?*, HMIC, Llundain, 2013. Ar gael gan www.justiceinspectors.gov.uk/hmic

⁷⁷ Arolygwyd cyfanswm o 19,078 o aelodau'r cyhoedd, ar ben 391 o bobl a oedd wedi'u stopio a'u chwilio.

⁷⁸ Best Use of Stop and Search Scheme, Y Swyddfa Gartref, Llundain, 2014. Ar gael gan www.gov.uk

- 4.78. Hefyd comisiynodd Yr Ysgrifennydd Cartref HMIC i archwilio'r defnydd o bwerau'r heddlu i stopio a chwilio nad oeddynt yn destun yr archwiliad yn 2013. Mae'r rhain yn cynnwys deddfau traffig ffyrdd y gall yr heddlu eu defnyddio i stopio, chwilio a chadw'n gaeth ddefnyddwyr ffyrdd a'u cerbydau heb amau drygioni. Hefyd bydd HMIC yn ystyried sut y cynhelir chwiliadau mwy ymwithiol am gyffuriau ac erthyglau gwaharddedig eraill.
- 4.79. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi gofyn i HMIC archwilio sut mae lluoedd yng Nghymru a Lloegr yn cymharu â gwledydd eraill ynghylch y pwerau sydd ar gael a'r ffyrdd y'i defnyddir. Bydd yr archwiliad hwn yn digwydd yn gynnar yn 2015.
- 4.80. Bydd HMIC yn dal i fonitro sut mae lluoedd yn defnyddio pwerau stopio a chwilio er mwyn ystyried a ydynt yn trin pob cymuned yn deg, a'u bod yn defnyddio'r pwerau hyn mewn ffordd sy'n gwella effeithiolrwydd yr heddlu.
- 4.81. Hefyd bydd HMIC yn archwilio sut mae'r heddlu'n defnyddio pwerau eraill sydd ar gael iddynt, megis ynghylch y defnydd o tasers ac arfau tanio. Mae data'r Swyddfa Gartref⁷⁹ yn dangos, rhwng 2009 a 2013, y cynyddodd defnydd o tasers gan yr heddlu o 3,128 i 10,380 o ddiwyddiadau, wrth i fwy o luoedd ddechrau eu defnyddio. Ynghylch arfau tanio, mae ffigurau'r Swyddfa Gartref⁸⁰ yn dangos, rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013, y nifer o weithrediadau'r heddlu lle awdurdodwyd arfau tanio oedd 10,996 – gostyngiad o 1,554 (14.1 y cant) ar y flwyddyn flaenorol. Y pwerau hyn yw dau o'r pwerau cryfaf sydd gan yr heddlu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal trefn. Felly mae'n bwysig bod lluoedd yn cymryd yr holl gamau sydd eu hangen i sicrhau y'i defnyddir yn gyfreithlon a chymesur.

Casgliad

- 4.82. Nid oes gan HMIC reswm i amau, yn y mwyafrif mawr o achosion, bod yr heddlu'n gyfeillgar, agos atoch, cwrtais, gochelgar a phroffesiynol. Nid ymddengys fod y lefelau cyffredinol o hyder y cyhoedd a boddhad dioddefwyr yn peri pryder. Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio amrywiadau eang rhwng lluoedd o ran sut mae'r cyhoedd a dioddefwyr yn canfod yr heddlu.

⁷⁹ *Police Use of Taser Statistics, England and Wales: January to June 2014*, Y Swyddfa Gartref, Llundain, 2014. Ar gael gan www.gov.uk

⁸⁰ *Statistics on Police Use of Firearms in England and Wales 2012-13*, 2014. Y Swyddfa Gartref, Llundain Ar gael gan www.gov.uk

- 4.83. Mae pob llu'n gweithredu system wahanol ar gyfer ymateb i alwadau gan y cyhoedd, ac o ganlyniad gall y gwasanaethau mae dioddefwyr yn eu derbyn fod yn wahanol. Ni chofnodir troseddau'n gyson ar draws lluoedd, a gall hyn effeithio'n niweidiol ar y cymorth mae dioddefwyr yn ei dderbyn, y ffordd mae lluoedd yn adleoli swyddogion a staff, a'r mesurau sydd yn eu lle i atal troseddau rhag cael eu cyflawni. Tynnir timau cymdogaeth i mewn i feysydd eraill o blismona, a all effeithio'n niweidiol ar hyder y gymuned.
- 4.84. Er bod amgylchiadau lleol yn amrywio o lu i lu, ni ddylai'r cymorth a ddarperir i ddioddefwyr trosedd a'r cyhoedd amrywio mor sylweddol, yn arbennig yn absenoldeb ymgynghori â, neu esboniadau i'r, cyhoedd. Mae hyn yn rhywbeth i heddluoedd a chomisiynwyr heddlu a throseddu ei ystyried yn ofalus.
- 4.85. Mae amrywiadau eang wedi bod o ran y ffyrdd mae lluoedd yn eu plismona eu hunain wrth fynd i'r afael â chamymddwyn a llygredd. Yn y mwyafrif o luoedd mae prif swyddogion yn arddangos ymrwymiad i ymddygiad moesegol ac wedi dechrau integreiddio'r Cod Moeseg newydd ym mholisiâu'r llu, ond dim ond ychydig o luoedd oedd wedi ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch a oedd gweithredoedd swyddogion a staff yn ennill boddhad y cyhoedd.
- 4.86. Mae gormod o amrywiadau rhwng lluoedd ar rai materion sylfaenol. Mae'r rhain yn cynnwys y gwasanaethau mae hawl gan ddioddefwyr iddynt o dan y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr, y cymorth mae dioddefwyr cam-drin domestig yn ei dderbyn pan ydynt yn galw'r heddlu am gymorth, a'r systemau sydd yn eu lle i fynd i'r afael â chamymddwyn a llygredd.
- 4.87. Er bod adleoli timau cymdogaeth a pholisiâu ar gyfer ymateb i alwadau'n faterion lleol, nid oes unrhyw reswm na all pob llu esbonio eu penderfyniadau i'r cyhoedd a cheisio barn y cyhoedd i ddarganfod a yw eu hymagweddau'n cael eu derbyn. Mae'n debygol bod hyn yn rhywbeth mae lluoedd yn ei drafod gyda'u comisiynwyr heddlu a throseddu. Yn yr un modd, ni ddylai fod unrhyw reswm nad yw lluoedd yn cofnodi troseddau'n gywir
- 4.88. Fel rhan o'i raglen archwilio yn 2015/16, mae HMIC yn disgwyl defnyddio ei ganfyddiadau a chasgliadau o'r flwyddyn hon fel man cychwyn ar gyfer asesu cyfreithlondeb yr heddlu. Yn arbennig, mae'n debygol y bydd HMIC yn ystyried i ba raddau mae lluoedd yn:
- gweithredu yn unol â'r gyfraith;
 - gweithredu a gwneud penderfyniadau'n deg a chymesur bob tro;
 - trin pobl â pharch;
 - adeiladu a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cymunedau amrywiol maent yn eu gwasanaethu;

- cefnogi dioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn arbennig o ran gofynion y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr;
- cyn belled â phosibl, adlewyrchu'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu;
- gweithredu ag uniondeb ac yn ymgorffori'r Cod Moeseg newydd yn eu hymddygiad dyddiol;
- trefnu bod systemau trwyadl yn eu lle i nodi pryd mae ymddygiad amhroffesiynol, camymddwyn neu lygredd, ac yn trefnu bod prosesau effeithiol ar gyfer ymchwilio a datrys unrhyw honiadau neu ddigwyddiadau o'r fath ymddygiad; ac
- ar bob adeg, arddangos eu bod yn gweithio o blaid ac ar ran y cyhoedd.

4.89. Ni all yr heddlu weithredu'n effeithlon ac effeithiol heb gymorth y cyhoedd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y modd i wella enw da'r heddlu gyda'r cyhoedd yn nwylo'r heddlu, drwy'r ffyrdd mae swyddogion a staff yn delio â phobl bob dydd.

4.90. Bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn parhau i gyflwyno heriau sylweddol i'r heddlu, yn arbennig i gwtogi ar drosedd â llai o adnoddau. Felly mae'n hollbwysig bod y ffordd mae'r heddlu'n ymddwyn wrth wasanaethu'r cyhoedd yn gyfreithlon, ac yn cael ei deall a derbyn gan y cyhoedd fel ffordd gyfreithlon. Fel y gwyddom, nid y peth cywir i'w wneud yn unig yw hwn; hefyd y peth effeithlon ac effeithiol i'w wneud ydyw.